# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR ARCHWILIO**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 11EG CHWEFROR, 2016**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Bethan Adams**

**01286 679020**

**BethanAdams@gwynedd.gov.uk**

(Dosbarthwyd 5/2/16)

## PWYLLGOR ARCHWILIO

### AELODAETH (19)

### Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Aled Ll. Evans
Charles Wyn Jones
W. Tudor Owen
Sedd Wag

E. Selwyn Griffiths
Dilwyn Morgan
Gethin Glyn Williams

Sian Gwenllian
Michael Sol Owen
John Wyn Williams

### Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Trevor Edwards
John Brynmor Hughes
Angela Russell

Thomas G. Ellis
John Pughe Roberts

### Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

Anwen J. Davies

Aeron M. Jones

### Llafur (1)

Y Cynghorydd

Sion W. Jones

### Aelod Lleyg (1)

John Pollard

### Aelod Ex-officio

Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

**4. COFNODION** 1 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr, 2015, fel rhai cywir.

**5. CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER** 8 - 29

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid.

**6. RHAGLEN GYFALAF 2015/16 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER** 30 - 35

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid.

**7. MATERION CYLLIDEBOL**

**(A) STRATEGAETH ARIANNOL 2016/17 – 2019/20 A CHYLLIDEB 2016/17** I ddilyn

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid.

**(B) TORIADAU I GYFARCH Y BWLCH ARIANNOL** I ddilyn

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid.

**(C) ARGYMHELLIAD I'R CABINET - CYLLIDEB A TRETH CYNGOR 2016/17**

**8. RHEOLAETH TRYSORLYS - DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS, STRATEGAETH DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW A STRATEGAETH FUDDSODDIAD FLYNYDDOL AR GYFER 2016/17** 36 - 59

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid.

**9. HAWLIADAU YSWIRIANT YN ERBYN Y CYNGOR** 60 - 78

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg.

**10. BIL LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) DRAFFT – YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU** 79 - 88

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg.

**11. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU** 89 - 97

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor yn cyflwyno adborth o gyfarfod y Gweithgor ar 19 Ionawr, 2016.

**12. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** 98 - 131

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio yn amlinellu gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Tachwedd a 31 Ionawr 2016.

**13. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2015/16** 132 - 138

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio ar y cynnydd ar Gynllun Archwilio Mewnol 2015/16.

**14. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2016/17** 139 - 145

Cyflwyno Cynllun Archwilio Mewnol Drafft ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017.

**15. HUNANASESIAD O DREFNIADAU LLYWODRAETHU** 146 - 157

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg.

# PWYLLGOR ARCHWILIO 1/12/15

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd John Pughe Roberts (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Trevor Edwards (Is-Gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Anwen J. Davies, Tom Ellis, E. Selwyn Griffiths, Sian Gwenllian, John B. Hughes, Aeron M. Jones, Charles Wyn Jones, Sion Wyn Jones, Dilwyn Morgan, Michael Sol Owen, W. Tudor Owen, Angela Russell, Gethin Glyn Williams, John Wyn Williams a Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Adnoddau).

**Aelod Lleyg:** Mr John Pollard

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), William E. Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Refeniw a Risg), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio), Hawis Jones (Rheolwr Cynllunio Strategol a Pherfformiad – ar gyfer Eitem 6 ar y rhaglen), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni – ar gyfer Eitem 7 ar y rhaglen) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Aled Ll. Evans a Glyn Thomas.

**1. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Trevor Edwards yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am 2015/16.**

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 24 Medi 2015, fel rhai cywir.

**4. ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Cynllunio Strategol a Pherfformiad. Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi diweddariad o ran adroddiadau archwilio allanol gyda'r atodiad yn rhestru adroddiadau arolygiadau a dderbyniwyd dros y tair blynedd diwethaf gan nodi eu cynigion ar gyfer gwella, y cynlluniau gweithredu a'r cynnydd hyd yn hyn.

Nododd y Cadeirydd oherwydd swmp y wybodaeth y dylid ystyried cynnal cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor i roi sylw priodol i'r adroddiad.

**PENDERFYNWYD cynnal cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor i ystyried yr adroddiad.**

**5. EFFEITHLONRWYDD TREFNIADAU CRAFFU'R CYNGOR**

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni yr adroddiad gan nodi bod Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) wedi cynnal adolygiad o effeithlonrwydd craffu yng Ngwynedd.

Adroddwyd bod SAC yn awgrymu tri phrif faes y dylid rhoi sylw iddynt er mwyn gwella craffu yng Ngwynedd, sef:-

- Delio â'r diffyg cyswllt sydd yn ymddangos rhwng gwaith y Cabinet a'r pwyllgorau craffu trwy edrych, ymysg pethau eraill, ar fwy o graffu cyn penderfyniad ar waith y Cabinet
- Gwella ar eglurder argymhellion craffu fel bod modd adnabod yr hyn sy'n digwydd o ganlyniad i graffu yn haws
- Gwella ansawdd cwestiynu mewn pwyllgorau craffu er mwyn cynnig mwy o ffocws ac ansawdd i'r craffu

Nodwyd gan mai'r Pwyllgor Archwilio sydd â chyfrifoldeb i edrych ar drefniadau llywodraethu'r Cyngor ac, yn benodol, ar Gyfansoddiad y Cyngor, daethpwyd i'r casgliad y byddai'n briodol i'r Pwyllgor hwn drafod y mater.

Nodwyd y gofynnir i'r Pwyllgor edrych ar y mater gan ddod i gasgliadau ar y ffordd ymlaen ac i sicrhau bod Cynllun Gweithredu cadarn yn ei le i gyfarch argymhellion SAC.

**PENDERFYNWYD trafod y mater yng nghyfarfod arbennig y Pwyllgor.**

## 6. CYFRIFON TERFYNOL 2014/15

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid gan nodi y cyflwynwyd datganiadau ariannol statudol diwygiedig y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn am gymeradwyaeth y Pwyllgor yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Medi 2015.

Atgoffwyd yr aelodau y nodwyd yn y cyfarfod y byddai oedi cyn ardystio'r cyfrifon, gan fod un aelod o'r cyhoedd wedi lleisio gwrthwynebiad i'r cyfrifon yn ymwneud â mater ymylol, sef gwariant ar gynllun Asiantaeth Cefnffyrdd yn y flwyddyn flaenorol.

Tynnwyd sylw at lythyr gan Swyddfa Archwilio Cymru yn cadarnhau eu bod wedi cwblhau eu gwaith ar y mater hwn ac wedi ymateb i'r etholwr yn datgan nad ydynt yn cynnig unrhyw gamau pellach.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) derbyn yr adroddiad;**
**(ii) awdurdodi'r Cadeirydd i arwyddo set 'glân' o'r un cyfrifon.**

## 7. CYLLIDEB REFENIW – ADOLYGIAD AIL CHWARTER 2015/16 (MEDI 2015)

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid, a oedd yn nodi yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, y disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio graffu adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.

Gosododd yr Uwch Reolwr Cyllid y cyd-destun ac ymhelaethodd ar gynnwys yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 24 Tachwedd 2015. Cyflwynodd y penderfyniadau canlynol i sylw'r pwyllgor i'w craffu -

"1. Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd yr ail chwarter (sefyllfa 30 Medi 2015) o'r Gyllideb Refeniw, ac wedi ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran/gwasanaeth, gofyn i'r Aelodau Cabinet a'r penaethiaid adrannau perthnasol gymryd camau priodol ynglŷn â materion o dan eu harweiniad/rheolaeth.
2. Nodi'r amrywiol adolygiadau o drefniadau crybwyllwyd yn yr adroddiad a'r camau i'w cymryd gan adrannau i gadw rheolaeth ar eu cyllidebau.
3. Wedi ystyriaeth o'r sefyllfa, cymeradwyo, yn benodol, yr addasiadau a throsglwyddiadau argymhellwyd mewn perthynas â'r Adrannau Addysg, Economi a Chymuned, Rheoleiddio a Chyllidebau Corfforaethol."

Nododd yr Aelod Cabinet Adnoddau yr atgoffwyd Aelodau Cabinet o'u cyfrifoldebau o ran adolygu cyllidebau. Cyfeiriodd at sefyllfa gyllidol yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r

tebygrwydd y byddai angen adnoddau pontio ar gyfer eleni oherwydd annhebygrwydd o wireddu arbedion yn llawn yn y flwyddyn ariannol. Nododd y cymerir camau pendant i ddelio â'r sefyllfa er mwyn ei gadw o dan reolaeth a bod penderfyniad y Cabinet i neilltuo adnodd wrth gefn yn galluogi'r Cabinet i ymateb i'r sefyllfa ariannol o ran yr Adran erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol ymatebodd y swyddogion i ymholiadau'r aelodau fel a ganlyn:

- O ran 'Diswyddo ac Ymddeol Cynnar' yn yr Adran Addysg, mai cyrff llywodraethu ysgolion oedd yn caniatáu ymddeol yn gynnar gyda'r costau yn disgyn ar yr Awdurdod Addysg. Nodwyd yr adolygir y sefyllfa o ran rhyddhau pensiwn gan ail-edrych ar hawl yr unigolyn o ran swm, sefyllfa'r ysgol i gyfrannu at y taliad a'r dull talu i'r dyfodol er mwyn ymateb i'r gorwariant;
- Bod yr Adran Addysg wedi rhagweld y sefyllfa gorwariant ac wedi neilltuo tanwariant mewn cronfa wrth gefn i ariannu'r gwariant;
- Mai penderfyniad y Cyrff Llywodraethu oedd ail-gyflogi athrawon a oedd wedi ymddeol fel athrawon llanw gyda phrofiad yr athro/athrawes yn cael ei gymryd i ystyriaeth;
- Mai cost un tro oedd diswyddo ac fel rhan o'r cynllun trefniadaeth ysgolion yr edrychir ar arbedion refeniw blynyddol;
- O ran gorwariant Ymgynghoriaeth Gwynedd, bod camau wedi'u cymryd i foderneiddio a bod yr Adran yn ceisio denu gwaith ac uchafu cyflawniad o fewn yr adnoddau staffio cyfredol. Ychwanegwyd y gwneir adolygiad blynyddol o ran incwm yr Adran a'u bwriad i ddefnyddio adnodd wrth gefn i liniaru'r sefyllfa pe byddai'r darlun yn parhau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Nododd aelod bod gorwariant blynyddol hanesyddol o ran gwasanaethau pobl hŷn a bod tueddiad demograffi yn golygu mwy o alw am wasanaethau felly bod angen ystyried yn ddwys y gofynion cyllidebol.

Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet Adnoddau bod camau pendant wedi eu cymryd i gyfarch y sefyllfa gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant gyda 2 benodiad newydd wedi ei wneud yn ddiweddar i yrru'r rhaglen arbedion yn ei flaen. Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Cyllid yr edrychir yn ofalus ar y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016-17 gan asesu effaith demograffi a disgwylir i'r Adran weithredu oddi mewn i'r gyllideb honno.

**PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau.**

## 8. RHAGLEN GYFALAF – ADOLYGIAD AIL CHWARTER 2015/16 (MEDI 2015)

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid, a oedd yn nodi yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, y disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio graffu adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.

Gosododd yr Uwch Reolwr Cyllid y cyd-destun ac ymhelaethodd ar gynnwys yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 24 Tachwedd 2015. Cyflwynodd y penderfyniadau canlynol i sylw'r pwyllgor i'w craffu -

"Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd yr ail chwarter (sefyllfa 30 Medi 2015) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 2.2 – 2.8 o'r adroddiad, sef:

- cynnydd £965,000 mewn defnydd o fenthyca heb gefnogaeth,
- cynnydd £3,278,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau,
- cynnydd £154,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf,
- cynnydd £300,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw,

- lleihad £17,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf,
- cynnydd £847,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu,
- trosglwyddo £200,000 rhwng cynllun Llyfrgell Bala a chynllun Ysgolion dalgylch y Berwyn."

Yn ystod y drafodaeth ddilynol ymatebodd y swyddogion i ymholiadau'r aelodau fel a ganlyn:

- O ran yr Adran Addysg, bod yr ail-broffilio o ran gwariant blynyddol ers y chwarter diwethaf yn gysylltiedig â'r rhaglen Ysgolion Ganrif 21;
- Bod y Cabinet wedi cymeradwyo trosglwyddo £200,000 rhwng cynllun Llyfrgell Bala a chynllun Ysgolion dalgylch y Berwyn i ariannu symud y llyfrgell i safle'r ysgol newydd;
- O ran rhagolygon ariannol y rhaglen Ysgolion Ganrif 21, bod trefniadau mewn lle ar gyfer y cynlluniau presennol a bod y Cyngor yn ceisio uchafu derbyniadau grant am y ddwy flynedd nesaf gyda ffynonellau ariannu amgen i'w ystyried i'r dyfodol gyda grantiau yn lleihau.

**PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor.**

## 9. STRATEGAETH ARIANNOL Y CYNGOR 2016/17 – 2019/20

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid adroddiad yn manylu ar Strategaeth Ariannol y Cyngor am y pedair blynedd nesaf. Adroddwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi eu cyllideb drafft ar 8 Rhagfyr, a'r setliad amodol ar gyfer ariannu llywodraeth leol ar 9 Rhagfyr.

Tynnwyd sylw at dabl oedd yn manylu ar senarios posib o ran y setliad y gallai'r Cyngor dderbyn gan Lywodraeth Cymru a greuwyd gan yr Adran Gyllid mewn cydweithrediad efo'r Uned Ymchwil a Dadansoddeg. Nodwyd y disgwylir toriad mewn grant a bod y Cyngor wedi ymagweddu yn gyfrifol wrth gynnal ymgynghoriad Her Gwynedd ar y toriadau posib i wasanaethau.

Adroddwyd bod y Cabinet wedi ystyried yr adroddiad ar 24 Tachwedd 2015, cyflwynwyd y penderfyniadau canlynol i sylw'r pwyllgor i'w craffu -

"Derbyn y diweddariad a'r crynodeb o Strategaeth Ariannol 2016/17 – 2019/20 a pharhau gyda'r cynllun ymateb cyfredol, 'Her Gwynedd', ar gyfer 2016/17 – 2017/18, gan ddatgan –

a) Bod Cabinet Cyngor Gwynedd yn gwrthwynebu'r toriadau yn ei dyraniad grant sy'n cael ei orfodi ar y Cyngor gan Lywodraethau San Steffan a Chymru.
b) Y bydd Cabinet Cyngor Gwynedd yn gwireddu ei chyfrifoldeb statudol i gytuno ar gyllideb gytbwys rhag iddi, yn y pen draw, redeg allan o arian a methu talu ei gweithwyr a'i chyflenwyr."

Nododd yr Aelod Cabinet Adnoddau bod oddeutu 75% o gyllid y Cyngor yn ddibynnol ar grant. Amlygodd bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu darparu setliad fesul blwyddyn, heb unrhyw ffigyrau mynegol ar gyfer y blynyddoedd dilynol a oedd yn ei gwneud yn anymarferol i'r Cyngor weithredu strategaeth ariannol dros 4 blynedd.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol ymatebodd y swyddogion i ymholiadau'r aelodau fel a ganlyn:

- Pe byddai adolygiad o fformiwla Barnett na fyddai sicrwydd o ran ei ganlyniad;
- Bod cyhoeddiad y Canghellor George Osborne ar 25 Tachwedd y gosodir llawr ar fformiwla Barnett, yn golygu y byddai'r arian a ddyrannir i Lywodraeth Cymru o gwmpas faint y dyrannir yn bresennol;
- Mai'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 3 Mawrth 2016 fyddai'n gosod Treth Cyngor ar gyfer 2016/17. Nodwyd bod cwestiwn wedi ei gynnwys yn ymgynghoriad Her Gwynedd ar gyfer casglu barn pobl Gwynedd ar gynnydd yn Nhreth Cyngor;

- Bod dyddiad cau ymgynghoriad Her Gwynedd wedi ei ymestyn tan 4 Rhagfyr 2015 a gofyn i'r aelodau annog eu hetholwyr i gymryd rhan;
- Bod dros 2,000 o ymatebion i'r ymgynghoriad wedi eu derbyn hyd yn hyn a bod yr ymateb ymysg yr uchaf o ran ymgynghoriadau cyhoeddus a gynhaliwyd gan y Cyngor;
- I gyfarch y sefyllfa ariannol byddai angen oddeutu 12% o gynnydd yn Nhreth Cyngor 2016/17 pe na fyddai'r Cyngor yn gwneud toriadau. Nid oedd hyn am gael ei ganiatáu.
- Y trafodir efo'r Adrannau perthnasol o ran eu targedau incwm ar gyfer 2016/17 a byddai newidiadau i ffioedd yn ystyriaeth wrth sefydlu cyllidebau.

Diolchodd y Cadeirydd am yr holl waith a wnaed gan y swyddogion ar Strategaeth Ariannol y Cyngor.

**PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt Strategaeth Ariannol y Cyngor.**

**10. TREFNIADAU RHEOLI RISG**

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg.

Tynnwyd sylw at y grwpiau o risg adnabuwyd gan y Cyngor a'r gweithrediad o ran delio â'r risgiau o fewn y grwpiau.

Adroddwyd y sefydlir trefn ym Mehefin 2016 lle cyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor ar y maes Rheoli Risg yn crynhoi'r gwaith a wnaed yn y meysydd hyn yn y cyfnod blaenorol.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed cynnydd mewn risg oherwydd lleihad mewn adnoddau, nododd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg bod lleihad mewn adnoddau yn anorfod, ond o weithredu strategaeth Ffordd Gwynedd, y blaenoriaethir risgiau yn well gan ganolbwyntio adnoddau'r Cyngor ar liniaru'r prif risgiau, yn hytrach na mân fygythiadau.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) derbyn yr adroddiad;**
**(ii) cymeradwyo trefniadau adrodd i'r Pwyllgor er mwyn cyflawni ei rôl statudol i adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol.**

**11. GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU**

Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfarfod o'r gweithgor uchod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2015 i ystyried dau archwiliad a dderbyniodd gategori barn C yn ystod y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2015 a 11 Medi 2015 sef -
a) Terfynu Gweithwyr oddi ar Systemau TG
b) Arwystl ar Eiddo Preswylwyr Cartrefi

Gwahoddwyd Uwch Reolwyr i fynychu'r cyfarfod ynghyd â'r Aelod Cabinet Adnoddau er mwyn trafod y materion sy'n codi o'r archwiliadau a'r gwaith a wnaed ers cyhoeddi'r adroddiadau archwilio er mwyn cryfhau'r rheolaethau mewnol dan sylw.

Nodwyd y cafwyd sicrwydd yn y Gweithgor bod y materion a amlygwyd gan Archwilio Mewnol yn cael sylw teilwng a bod camau yn cael eu cymryd.

Nododd y Cadeirydd y dylid anfon llythyr at yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth yn nodi'r angen i ddelio a chadarnhau trefniadau o ran terfynu gweithwyr oddi ar systemau TG ar fyrder.

Mewn ymateb i sylw gan aelod yng nghyswllt y dirwyon sylweddol y gellir eu derbyn o ran diogelu data, nododd y Pennaeth Cyllid bod ap MobileIron yn galluogi'r Cyngor i ddileu gwybodaeth oddi ar declynnau symudol.

**PENDERFYNWYD:**
**(i) derbyn yr adroddiad;**
**(ii) anfon llythyr at yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth yn nodi'r angen i ddelio a chadarnhau trefniadau o ran terfynu gweithwyr oddi ar systemau TG ar fyrder.**

## 12. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL

**Gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd at 31 Rhagfyr 2015**
Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio yn amlinellu gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 14 Medi 2015 a 31 Hydref 2015. Nodwyd bod 6 adroddiad am archwiliadau o'r cynllun gweithredol gyda'r categori barn berthnasol yn cael ei ddangos wedi ei gwblhau yn ystod y cyfnod, 1 archwiliad dilyniant a 1 archwiliad ymatebol.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y materion canlynol –

**Trafnidiaeth Gyhoeddus**

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod, nododd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg mai trefniadau mewnol y Cyngor oedd prif ffrwd y gwaith ac nad oedd yn cwmpasu materion sydd wedi arwain at achos llys ac ymchwiliad heddlu i gwmnïau bysiau.

**Archwiliad Ymatebol Canolfan y Gwystl**

Nododd aelod y dylid ystyried yr archwiliad yma yng nghyfarfod y Gweithgor Gwella Rheolaethau.

**PENDERFYNWYD:**
**(a) derbyn yr adroddiadau ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 14 Medi i 31 Hydref 2015 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**
**(b) bod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y pwyllgor, ynghyd â'r Cynghorwyr John B. Hughes, Michael Sol Owen a Angela Russell i wasanaethu ar y Gweithgor i ystyried yr archwiliadau oedd wedi derbyn categori barn 'C' ac archwiliad ymatebol Canolfan y Gwystl.**
**(c) mai cyfrifoldeb unrhyw aelod na allai fod yn bresennol yn y Gweithgor oedd trefnu eilydd.**

## 13. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2015/16

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2015/16.

Adroddwyd bod yr Uned Archwilio Mewnol hyd at 31 Hydref 2015 wedi cwblhau 32.31% o'r cynllun gyda 21 o'r 65 archwiliad unigol wedi eu rhyddhau yn derfynol.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2015/16.**

## 14. BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg oedd yn amlinellu rhaglen waith y Pwyllgor am y cyfnod hyd at Medi 2016. Nodwyd y byddai'r blaenraglen yn addasu yn ystod y cyfnod i ymateb i ofynion/materion ychwanegol.

Nododd aelod yr angen i flaenoriaethu eitemau er mwyn sicrhau y rhoddir sylw teilwng i faterion.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.35am a daeth i ben am 12.50pm

**CADEIRYDD**

# Eitem 5

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **11 CHWEFROR 2016** |
| TEITL: | **CYLLIDEB REFENIW 2015/16 –<br>ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER** |
| PWRPAS: | **ADRODDIAD MONITRO AR Y SEFYLLFA ARIANNOL DDIWEDDARAF** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau sy'n deillio o'r tafluniadau gwariant ac incwm yn erbyn y gyllideb, yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau.** |
| SWYDDOGION CYSWLLT: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID A<br>WILLIAM E JONES, UWCH REOLWR CYLLID** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

---

**1.** Cyflwynwyd adroddiad adolygiad cyllideb yr ail chwarter i'r Pwyllgor Archwilio ar 1 Rhagfyr 2015.

**2.** Mae'r adroddiad gerbron heddiw yn ystyried yr adolygiad cyllideb trydydd chwarter ac, am y tro, fe welir o Atodiad 1 fod y darlun net i'r Cyngor yn dangos gwelliant.

**3.** Fodd bynnag, mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi cytuno i'w ystyried cyn i ni adrodd i'r Cabinet.

**4.** Bwriedir cyflwyno unrhyw sylwadau fydd gan y Pwyllgor Archwilio "ar y bwrdd" yng nghyfarfod y Cabinet ar 16 Chwefror.

**5.** Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, a sylwebu fel bo angen.

**ADRODDIAD I'R CABINET**
16 Chwefror 2016

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau

**Pwnc:** Cyllideb Refeniw 2015/16 –
Adolygiad Trydydd Chwarter (Rhagfyr 2015)

**Swyddog cyswllt:** Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid

---

## 1. Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad

Gofynnir i'r Cabinet:

- Dderbyn yr adroddiad ar adolygiad trydydd chwarter (sefyllfa 31 Rhagfyr 2015) o Gyllideb Refeniw 2015/16, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth, gan ofyn i'r Aelodau Cabinet a'r penaethiaid adrannau perthnasol gymryd camau priodol ynglŷn â materion o dan eu harweiniad/rheolaeth.

- Nodi'r amrywiol adolygiadau a nodir yn yr adroddiad a'r camau i'w cymryd gan adrannau i gadw rheolaeth ar eu cyllidebau.

- Rhoddi ystyriaeth a chymeradwyo fel yn briodol i'r argymhelliad a gynhwysir o dan Cyllidebau Corfforaethol.

---

## 2 Cyflwyniad / Cefndir

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

Cyflwynir yr adroddiad chwarterol yma ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw'r Cyngor am 2015/16, ac amlinellir crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**.

Yn **Atodiad 2** rhoddir manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol ble'n briodol.

**2.1 Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant – gorwariant £338k**

Gwelliant sylweddol yn y sefyllfa gorwariant a ragwelwyd yn flaenorol, i lawr o £527k yn yr ail chwarter i £338k, a bydd angen i'r tuedd yma barhau i geisio sicrhau sylfaen gadarn wrth symud ymlaen i'r flwyddyn ariannol newydd. Y rhaglen arbedion adrannol wedi llithro ac yn golygu bydd oddeutu £725k heb ei gyflawni eleni fel a dargedwyd yn wreiddiol. Mae'n dilyn bydd rhaid cyflawni'r rhain maes o law, ac yn y cyfamser, yn golygu cael trefniadau pontio priodol yn ei le.

**2.2 Ymgynghoriaeth Gwynedd**

Rhagolygon diweddaraf yn adlewyrchu llwyddiant i ddenu gwaith ychwanegol gan yr Adran ac, am y tro, i gyflawni gweddill ariannol posib o £137k erbyn diwedd y flwyddyn.

**2.3 Corfforaethol**

Fe fanteisir ar sefyllfa ariannol ffafriol a welir hefo tanwariant ar Fudd-daliadau a phenawdau o dan 'Eraill' ac argymhellir i'w ddefnyddio fel adnodd wrth gefn i gynorthwyo sefyllfa'r Strategaeth Ariannol ar gyfer 2016/17, yn benodol i ariannu bidiau un-tro.

**2.4 Cyffredinol**

Fe welir fod cyfuniad o gamau gweithredu pendant gan nifer o adrannau, ynghyd â defnydd o adnoddau penodol wrth gefn, a manteisio ar berfformiadau ariannol ffafriol ar rai penawdau eleni, i gyfrannu tuag at ein Strategaeth Ariannol ar gyfer 2016/17 i gyd yn cynorthwyo i gyflawni sefyllfa net i'r Cyngor sydd, am y tro, ac yn gyffredinol yn adlewyrchu rheolaeth ariannol dderbyniol iawn.

---

**Camau nesaf ac amserlen**

Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

---

**Barn yr aelod lleol**

Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Mae'r adroddiad yn arddangos rheolaeth byw o wariant refeniw'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Yn amlwg, mae meysydd lle mae peth pryder ond rydym hefyd wedi adnabod camau i geisio rheoli'r sefyllfa. Mae'n allweddol bod rheolaeth gadarn o'r gyllideb yn parhau yn flaenoriaeth uchel i bob Aelod Cabinet a Phennaeth Adran.

Mae'r argymhelliad penodol i ddefnyddio tanwariant corfforaethol 2015/16 er mwyn ariannu bidiau un-tro yn Strategaeth Ariannol 2016/17 yn un yr wyf yn ei gefnogi.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Atodiad 1 – Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r Adrannau.
Atodiad 2 – Manylion y cyllidebau a gwahaniaethau sylweddol.

## Cyllideb Refeniw 2015/16 - Crynhoad o'r amcan sefyllfa fesul Adran

| | Adolygiad Trydydd Chwarter | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 £'000 | Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16 £ '000 | Symud i/o Gronfeydd £ '000 | Gor/ (Tan) Wariant Addasedig £ '000 | *Adolygiad Ail Chwarter £ '000* |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | 49,785 | 338 | | 338 | *527* |
| **Plant a Theuluoedd** | 13,731 | 151 | | 151 | *144* |
| **Addysg** | 89,589 | 245 | (249) | (4) | *115* |
| **Economi a Chymuned** | 12,622 | 25 | | 25 | *66* |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | 24,215 | 10 | | 10 | *1* |
| **Rheoleiddio** (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) | 9,885 | (122) | | (122) | *(14)* |
| **Ymgynghoriaeth Gwynedd** | 861 | (137) | | (137) | *9* |
| **Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** | 665 | (30) | | (30) | *(45)* |
| **Cyllid** | 1,007 | (69) | | (69) | *(60)* |
| **Cefnogaeth Gorfforaethol** | 555 | (96) | | (96) | *(89)* |
| **Cyllidebau Corfforaethol** *(Gwahaniaethau yn Unig)* | | (553) | 550 | (3) | *(216)* |
| **Cyfansymiau (net)** | 202,915 | (238) | 301 | 63 | *438* |

Atodiad 2

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | |
| Gwasanaethau Pobl Hŷn | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio - Cartrefi | 10,199 | 9,834 | (365) | 0 | (365) | (346) |
| Gofal Cartref | 6,006 | 6,085 | 79 | 0 | 79 | 188 |
| Eraill | 2,571 | 2,411 | (160) | 0 | (160) | (112) |
| | 18,776 | 18,330 | (446) | 0 | (446) | (270) |
| Gwasanaethau Anabledd Corff | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio | 462 | 483 | 21 | 0 | 21 | 10 |
| Gofal Cartref | 985 | 1,004 | 19 | 0 | 19 | 37 |
| Eraill | 686 | 703 | 17 | 0 | 17 | 5 |
| | 2,133 | 2,190 | 57 | 0 | 57 | 52 |
| Gwasanaethau Anabledd Dysgu | 13,722 | 13,618 | (104) | 0 | (104) | (80) |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio | 1,292 | 1,440 | 148 | 0 | 148 | 112 |
| Eraill | 2,113 | 2,060 | (53) | 0 | (53) | (37) |
| | 3,405 | 3,500 | 95 | 0 | 95 | 75 |
| Gwasanaethau Eraill (Oedolion) | | | | | | |
| Rheolwyr | 369 | 348 | (21) | 0 | (21) | 13 |
| Tim Pobl Hyn ac Anabledd Corff | 2,749 | 2,682 | (67) | 0 | (67) | (16) |
| | 3,118 | 3,030 | (88) | 0 | (88) | (3) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion** | **41,154** | **40,668** | **(486)** | **0** | **(486)** | **(226)** |

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)** | | | | | | |
| Gofal Preswyl | 7 | 125 | 118 | 0 | 118 | 137 |
| Gofal Dydd | 5 | (63) | (68) | 0 | (68) | (49) |
| Gofal Cymunedol | 2 | 179 | 177 | 0 | 177 | 201 |
| Eraill | (154) | (196) | (42) | 0 | (42) | (37) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Darparu** | **(140)** | **45** | **185** | **0** | **185** | **252** |
| **Gwasanaethau Eraill** | | | | | | |
| Gwasanaethau Tai | 5,001 | 4,996 | (5) | 0 | (5) | (17) |
| Gwasanaethau Gofal Cwsmer | 226 | 145 | (81) | 0 | (81) | (71) |
| Gwasanaethau Canolog Adrannol | 3,544 | 4,269 | 725 | 0 | 725 | 589 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Eraill** | **8,771** | **9,410** | **639** | **0** | **639** | **501** |
| **Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **49,785** | **50,123** | **338** | **0** | **338** | **527** |

**Crynodeb Oedolion, Iechyd a Llesiant**

**Prif Faterion:-**

**Gwasanaethau Pobl Hŷn :-**

- Preswyl a Nyrsio - Cartrefi - mân gynnydd o (£19k) yn y lefel tanwariant i fyny i (£365k), ac yn cynnwys cyfuniad o wahaniaethau sef tanwariant o (£260k) ar Gartrefi Annibynnol, oherwydd gostyngiad sylweddol yn y nifer o leoliadau, ynghyd â chyfraniadau incwm ychwanegol o (£105k), sy'n ostyngiad o £109k ers yr ail chwarter.
- Gofal Cartref - gostyngiad o (£109k) yn y gorwariant a ragwelwyd yn flaenorol, i lawr i £79k, yn dilyn lleihad yn y nifer o becynnau.
- Eraill - cynnydd o (£48k) yn y tanwariant o (£160k) o dan y pennawd yma ers yr ail chwarter, ac yn cynnwys nifer o wahaniaethau, ac yn arbennig tanwariant o (£69k) ar Llety Cefnogol, tanwariant o (£28k) ar Taliadau Uniongyrchol, a thanwariant o (£33k) ar Cymorthion ac Addasiadau.

**Gwasanaethau Anabledd Corff** - cynnydd o £5k mewn gorwariant ers yr ail chwarter i fyny i £57k ac yn cynnwys nifer o fân wahaniaethau.

**Gwasanaethau Anabledd Dysgu** - fe welir cynnydd o (£24k) mewn tanwariant ers yr ail chwarter i fyny i (£104k), ond fe gynhwysir nifer o wahaniaethau sylweddol, ac yn arbennig, tanwariant o (£257k) ar Preswyl a Nyrsio - Cartrefi Annibynnol oherwydd yn bennaf lleihad mewn nifer achosion, cyfraniad ychwanegol gan y Gwasanaeth Iechyd a chyflawni rhai cynlluniau arbedion ymlaen llaw. Fe gynhwysir hefyd tanwariant o (£66k) ar Gynllun Lleoli Oedolion, gorwariant o £285k ar Llety Cefnogol oherwydd yn bennaf achosion ychwanegol, gorwariant o £71k ar Daliadau Uniongyrchol, gorwariant o £120k ar Gwasanaethau Dydd a thanwariant o (£259k) ar Cynlluniau Cefnogol yn dilyn yn bennaf ail asesiad o'r pecynnau gwasanaeth.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl** - cynnydd o £20k yn y gorwariant a ragwelwyd yn flaenorol i fyny i £95k, yn cynnwys gorwariant o £148k ar Preswyl a Nyrsio, gydag elfen sylweddol oherwydd gostyngiad mewn cyfraniadau gan y Gwasanaeth Iechyd, ynghyd â thanwariant o (£61k) oherwydd effaith trosiant gweithwyr maes.

**Gwasanaethau Eraill (Oedolion)** - rhagwelir tanwariant o (£88k) ar y pennawd yma, ac yn cynnwys tanwariant staffio o (£21k) ynghyd â thanwariant o (£67k) gan y Tim Pobl Hŷn ac Anabledd Corff yn dilyn derbyniad incwm ychwanegol.

**Gwasanaethau Darparu** - gostyngiad o (£67k) yn y gorwariant blaenorol a ragwelwyd i lawr i £185k, yn cynnwys gorwariant o £118k ar Gofal Preswyl yn bennaf oherwydd costau cyflogaeth uwch, tanwariant o (£68k) ar Gofal Dydd, a gorwariant o £177k ar Gofal Cymunedol sy'n ostyngiad o (£24k) ers y chwarter diwethaf ac yn cynnwys costau cyflogaeth uwch o £70k a chostau teithio uwch o £84k (ac sy'n welliant o (£46k) ers yr ail chwarter). Yr Adran yn parhau i adolygu gwahanol elfennau o'r Gwasanaeth Darparu gyda'r bwriad o leihau'r lefel gorwariant ymhellach.

**Gwasanaethau Eraill**

- Gwasanaethau Tai - er fod y sefyllfa net diweddaraf yn llêd niwtral, cynhwysir tanwariant o (£135k) ar Llety Dros Dro (sy'n rhan o'r Cynllun Arbedion ar gyfer 2016/17), gorwariant o £65k ar Gynllun Lesu Tai a gorwariant o £83k ar Hosteli, gyda'r ddau olaf yn gweld colled incwm oherwydd lleihad mewn niferoedd tenantiaid.
- Gwasanaethau Gofal Cwsmer - rhagwelir sefyllfa tanwariant o (£81k) ac er yn cynnwys nifer o wahaniaethau, yn bennaf tanwariant o (£70k) ar gostau staffio.

Gwasanaethau Canolog Adrannol - cynhwysir yma sefyllfa'r "Cynlluniau Arbedion i'w Gwireddu". Tra gwaith i wireddu targed am eleni yn parhau, mae tebygolrwydd o beidio cyflawni £725k o'r targed arbedion eleni.

**Crynhoad**

Fel a welir uchod, mae nifer o wahaniaethau yn ychwanegu i roddi gorwariant adrannol net o £338k. Mae hyn yn ostyngiad sylweddol o (£189k) ers y rhagolygon yn yr ail chwarter ac mewn nifer o achosion yn adlewyrchu'r gwaith da a wnaethpwyd hyd yma i geisio rheoli'r gyllideb. Fodd bynnag, disgwylir i'r gwaith yma barhau i geisio sicrhau sefyllfa gyllidol gadarn gan yr Adran i fewn i'r flwyddyn ariannol newydd.

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Plant a Theuluoedd** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth Gwasanaeth | 403 | 375 | (28) | 0 | (28) | (28) |
| Gwasanaethau Gweithredol | 1,826 | 2,013 | 187 | 0 | 187 | 141 |
| Gwasanaethau Lleoliadau | | | | | | |
| Uned Breswyl | 140 | 596 | 456 | 0 | 456 | 416 |
| Lleoliadau All-Sirol | 2,233 | 2,215 | (18) | 0 | (18) | 92 |
| Maethu Drwy Asiant | 1,020 | 1,098 | 78 | 0 | 78 | (20) |
| Maethu Mewnol | 1,809 | 1,605 | (204) | 0 | (204) | (191) |
| Eraill | 1,500 | 1,490 | (10) | 0 | (10) | 27 |
| | 6,702 | 7,004 | 302 | 0 | 302 | 324 |
| Gwasanaethau Ôl-16 | 991 | 844 | (147) | 0 | (147) | (106) |
| Gwasanaethau Arbenigol/Derwen | 1,502 | 1,431 | (71) | 0 | (71) | (70) |
| Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid | 257 | 238 | (19) | 0 | (19) | (18) |
| Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar | 109 | 75 | (34) | 0 | (34) | (45) |
| Gwasanaethau Eraill | 1,941 | 1,902 | (39) | 0 | (39) | (54) |
| **Cyfanswm Plant a Theuluoedd** | **13,731** | **13,882** | **151** | **0** | **151** | **144** |

**Crynodeb Plant a Theuluoedd**

**Prif Faterion:-**

**Gwasanaethau Gweithredol** - cynnydd o £46k yn y gorwariant a ragwelwyd yn yr ail chwarter i fyny i £187k, yn bennaf oherwydd gorwariant o £125k ar Gweithwyr Maes, a gorwariant o £62k ar Gynlluniau Cefnogol.

**Gwasanaethau Lleoliadau**

- Uned Breswyl - llithriad yn y cynlluniau arbedion perthnasol i gartref preswyl plant, gyda'r oediad wedi cyfrannu'n sylweddol at y gorwariant o £456k a ragwelir.
- Lleoliadau All-Sirol - sefyllfa gorwariant o £92k yn yr ail chwarter bellach wedi newid yn danwariant o (£18k) yn bennaf oherwydd penderfyniad y Gwasanaeth Iechyd i gyfrannu tuag at ddwy achos penodol.
- Maethu Drwy Asiant - sefyllfa tanwariant o (£20k) yn yr ail chwarter wedi newid yn orwariant o £78K oherwydd derbyniad o achosion newydd.
- Maethu Mewnol - cynnydd o (£12k) yn y tanwariant blaenorol i fyny i (£203k), ac yn adlewyrchu llwyddiant cynnar yn y trefniadau i wireddu cynllun arbedion perthnasol ar gyfer 2016/17.

**Gwasanaeth Ôl-16** - rhagwelir sefyllfa tanwariant o (£147k) sydd yn gynnydd o (£41k) ers yr ail chwarter ac yn bennaf oherwydd lleihad mewn costau Cynlluniau Cefnogol.

**Gwasanaethau Arbenigol/Derwen** - tanwariant net o (£71k) ar y pennawd yma, oherwydd lleihad mewn costau gweithwyr cefnogol, a cyflawni cynlluniau arbedion ymlaen llaw.

**Crynhoad**

Mae'r Adran yn cymryd camau penodol i geisio cyflawni tanwariant ar benawdau eraill er mwyn cadw o fewn y gyllideb net erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Os na ellir cyflawni hyn yn llawn, gellid defnyddio arian wrth gefn mewn cronfa i wneud fyny am unrhyw wahaniaeth.

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Addysg** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ysgolion Datganoledig | 71,486 | 71,486 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cludiant | 4,152 | 4,210 | 58 | 0 | 58 | 73 |
| Diswyddo ac Ymddeol Cynnar | 918 | 961 | 43 | (43) | 0 | 0 |
| Integreiddio | (9) | (9) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| All Sirol | 982 | 875 | (107) | 0 | (107) | 0 |
| Arlwyaeth a Glanhau | 455 | 504 | 49 | 0 | 49 | 140 |
| Addysg Meithrin | 606 | 606 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Grant Grant Gwella Addysg | 686 | 686 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rheolaeth | 1,841 | 1,821 | (20) | 0 | (20) | (31) |
| Unedau Anghenion Dysgu Ychwanegol | 1,943 | 2,139 | 196 | (206) | (10) | (71) |
| Strategaeth Cynhwysiad | 348 | 316 | (32) | 0 | (32) | (38) |
| Addysg Bellach | 24 | 24 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arian wrth Gefn Ysgolion | 64 | 64 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfraniad Addysg i Cyd-Bwyllgorau | 1,576 | 1,576 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Eraill | 4,517 | 4,575 | 58 | 0 | 58 | 42 |
| **Cyfanswm Addysg** | **89,589** | **89,834** | **245** | **(249)** | **(4)** | **115** |

**Crynodeb Addysg**

**Prif Faterion:-**

**Diswyddo ac Ymddeol Cynnar** - yr Adran eisoes wedi defnyddio (£496k) o gronfa wrth gefn eleni i glirio'r sefyllfa gorwariant a ragwelwyd eisoes. Bellach fe ragwelir gorwariant ychwanegol o £43k, i'w ariannu o'r gronfa wrth gefn eto.

**All Sirol** - rhagwelir bellach sefyllfa tanwariant o (£107k) am eleni, sy'n adlewyrchu'r gofyn diweddaraf am y gwasanaeth.

**Unedau Anghenion Dysgu Ychwanegol** - oherwydd y sefyllfa perthnasol i ddau ganolfan penodol, a'r angen i wneud trefniadau amgen gyda chost ychwanegol o oddeutu £206k, mae'r Cabinet yn y chwarter diwethaf wedi cymeradwyo tanysgrifennu'r gost ychwanegol, gyda'r union swm i'w gadarnhau ar ddiwedd y flwyddyn, ac yn ddibynnol a'r sefyllfa net yr Adran ar y pryd.

**Crynhoad**

Drwy gyfuniad o ddefnydd o gronfa wrth gefn a mesurau penodol eraill, gan gynnwys cymeradwyaeth blaenorol y Cabinet i gynorthwyo'r sefyllfa hefo Unedau Anghenion Dysgu Ychwanegol, fe ragwelir am y tro bydd sefyllfa net yr Adran eleni yn lêd niwtral.

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Economi a Chymuned** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 816 | 818 | 2 | 0 | 2 | (7) |
| Cefnogaeth Busnes | 261 | 271 | 10 | 0 | 10 | 12 |
| Marchnata a Gofal Cwsmer | 1,055 | 1,055 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Adfywio Cymunedol | 671 | 659 | (12) | 0 | (12) | (12) |
| Sgiliau a Maentgarwch | 67 | 67 | 0 | 0 | 0 | (9) |
| Tîm Prosiectau Strategol | 637 | 637 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Strategaeth a Datblygu | 243 | 243 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Archifiau | 435 | 428 | (7) | 0 | (7) | (7) |
| Amgueddfeydd | 173 | 173 | 0 | 0 | 0 | 3 |
| Orielau | 63 | 63 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Neuaddau | 250 | 271 | 21 | 0 | 21 | 10 |
| Celfyddydau | 265 | 265 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Parciau Gwledig | 117 | 113 | (4) | 0 | (4) | 0 |
| Morwrol | 200 | 217 | 17 | 0 | 17 | (10) |
| Gwasanaeth Ieuenctid | 1,299 | 1,221 | (78) | 0 | (78) | (39) |
| Gwasanaeth Cymunedau'n Iach | 3,876 | 3,932 | 56 | 0 | 56 | 105 |
| Datblygu Chwaraeon | 255 | 255 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Llyfrgelloedd | 1,939 | 1,959 | 20 | 0 | 20 | 20 |
| **Cyfanswm Economi a Chymuned** | **12,622** | **12,647** | **25** | **0** | **25** | **66** |

**Crynodeb Economi a Chymuned**

**Prif Faterion:-**

**Neuaddau** - rhagwelir sefyllfa gorwariant o £21k am y tro ac yn cynnwys nifer o wahaniaethau, ond yn bennaf adlewyrchu gostyngiad mewn derbyniad incwm.

**Gwasanaeth Ieuenctid** - sefyllfa tanwariant o (£39k) yn yr ail chwarter wedi cynyddu i danwariant o (£78k) ac yn cynnwys nifer o wahaniaethau, ac yn arbennig tanwariant o (£52k) o ganlyniad i rhewi rhai swyddi.

**Gwasanaeth Cymunedau'n Iach** - gostyngiad yn y gorwariant blaenorol o £105k a ragwelwyd i lawr i £56k ac yn bennaf o ganlyniad i benderfyniad y Cabinet i gymeradwyo (£50k) ychwanegol i'r Adran yn yr ail chwarter oherwydd colled incwm yn Pwll Nofio Bangor dros gyfnod pan oedd y cyfleuster ar gau i'r cyhoedd am bum mis. Yr Adran yn parhau i geisio adnabod mesurau eraill i sicrhau gweithredu o fewn y gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd) | 10,026 | 9,970 | (56) | 0 | (56) | (4) |
| Gwasanaethau Peirianneg | 513 | 529 | 16 | 0 | 16 | 4 |
| Gwasanaethau Bwrdeistrefol | | | | | | |
| Gwastraff | | | | | | |
| Gwaredu Gwastraff | 2,231 | 2,119 | (112) | 0 | (112) | (138) |
| Safleoedd Trin a Throsglwyddo | 1,472 | 1,696 | 224 | 0 | 224 | 182 |
| Canolfannau Ailgylchu | 1,306 | 1,255 | (51) | 0 | (51) | 32 |
| Casglu Gwastraff ac Ailgylchu | 3,566 | 3,639 | 73 | 0 | 73 | 14 |
| Eraill Gwastraff | 433 | 544 | 111 | 0 | 111 | (58) |
| Is-Gyfanswm Gwastraff | 9,008 | 9,253 | 245 | 0 | 245 | 32 |
| Eraill Bwrdeistrefol | 4,617 | 4,413 | (204) | 0 | (204) | (37) |
| | 13,625 | 13,666 | 41 | 0 | 41 | (5) |
| Uned Fflyd | 51 | 60 | 9 | 0 | 9 | 6 |
| **Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)** | **24,215** | **24,225** | **10** | **0** | **10** | **1** |

**Crynodeb Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)**

**Prif Faterion:-**

**Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd)**- rhagolygon diweddaraf yn adlewyrchu tanwariant net o (£56k), ac er yn cynnwys nifer o wahaniaethau, fe welir yn arbennig arbedion staffio mewn perthynas a chynlluniau arbedion a wireddwyd ymlaen llaw.

**Gwaredu Gwastraff** - oherwydd fod y lefel tirlenwi yn llai na'r amcan gwreiddiol, fe welir arbedion mewn costau treth tir lenwi a chostau gwaredu, gyda'r amcan diweddaraf o'r tanwariant perthnasol wedi gostwng o (£138k) yn yr ail chwarter, i lawr i (£112k).

**Safleoedd Trin a Throsglwyddo** - rhagolygon diweddaraf yn adlewyrchu cynnydd yn y gorwariant o £182k yn yr ail chwarter i £224k. Fe gynhwysir diffyg incwm o £412k o werthiant deunyddiau ailgylchu oherwydd sefyllfa'r farchnad berthnasol, tanwariant o (£100k) ar fagiau gwyrdd, a tanwariant o (£77k) mewn costau gweithredol safleoedd trosglwyddo a safle trin Caergylchu.

**Casglu Gwastraff ac Ailgylchu** - rhagwelir sefyllfa gorwariant ar y pennawd yma, yn bennaf oherwydd costau gweithredol uwch ynghyd â gostyngiad mewn derbyniad incwm masnachol.

**Eraill Gwastraff** - newid sylweddol ar y pennawd yma ers yr ail chwarter, sef tanwariant blaenorol o (£58k) wedi newid yn orwariant o £111k, oherwydd yn bennaf costau gweithredol uwch ar gerbydau arbennig, ynghyd â chostau ychwanegol perthnasol i ddelio gyda'r newidiadau yn y trefniadau casglu.

**Eraill Bwrdeistrefol** - rhagwelir sefyllfa tanwariant o (£204k) ar y pennawd yma am y tro, yn cynnwys tanwariant o (£89k) ar Glanhau Strydoedd, tanwariant o (£87k) ar Wasanaethau Profedigaeth, a thanwariant o (£18k) ar Tiroedd Agored yn bennaf oherwydd tanwariant mewn costau staffio.

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Rheoleiddio** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth yr Adran | 345 | 337 | (8) | 0 | (8) | (7) |
| Gwasanaethau Cynllunio | | | | | | |
| Rheolaeth Datblygu | 316 | 204 | (112) | 0 | (112) | (5) |
| Eraill | 19 | 1 | (18) | 0 | (18) | (3) |
| | 335 | 205 | (130) | 0 | (130) | (8) |
| Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth | | | | | | |
| Cynllunio Ymlaen | 1,992 | 1,986 | (6) | 0 | (6) | 0 |
| Cynnal Adeiladweithiau | 1,362 | 1,516 | 154 | 0 | 154 | 2 |
| Diogelwch y Ffyrdd | 391 | 351 | (40) | 0 | (40) | 5 |
| Traffig a Threfniadau Statudol | 654 | 643 | (11) | 0 | (11) | (11) |
| Gwasanaethau Parcio a Datblygiad Gorfodaeth Parcio | (1,174) | (1,257) | (83) | 0 | (83) | (4) |
| Cludiant | 2,194 | 2,168 | (26) | 0 | (26) | (12) |
| Eraill | 395 | 398 | 3 | 0 | 3 | 0 |
| | 5,814 | 5,805 | (9) | 0 | (9) | (20) |
| Gwasanaethau Cefn Gwlad a Mynediad | 1,277 | 1,294 | 17 | 0 | 17 | 0 |
| Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd | 285 | 285 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd | 1,819 | 1,834 | 15 | 0 | 15 | 35 |
| Gwasanaethau Arlwyo, Glanhau a Gofalu | 26 | 31 | 5 | 0 | 5 | (7) |
| Gwasanaethau Eiddo | (16) | (28) | (12) | 0 | (12) | (7) |
| **Cyfanswm Rheoleiddio** | **9,885** | **9,763** | **(122)** | **0** | **(122)** | **(14)** |

## Crynodeb Rheoleiddio

**Prif Faterion:-**

**Rheolaeth Datblygu -** yn yr ail chwarter fe gymeradwyodd y Cabinet i drosglwyddo (£100k) o'r tanwariant o (£105k) a ragwelwyd ar y pryd i gyllideb wrth gefn y Cyngor. Bellach fe welir fod y perfformiad cryf ar y pennawd yma yn parhau, ac yn dangos tanwariant net o (£112k) ac yn cynnwys yn bennaf derbyniad incwm ffioedd ychwanegol ynghyd â thanwariant ar gostau gweithredu.

**Cynnal Adeiladweithiau -** rhagwelir gorwariant o £154k ar y pennawd yma, hefo'r Adran wedi manteisio ar sefyllfa ffafriol a welir ar sawl pennawd arall i ychwanegu at y gwariant ar Adeiladweithiau yn dilyn problemau yn sgil y llifogydd diweddar.

**Gwasanaethau Parcio -** fe ragwelwyd tanwariant o (£204k) ar y pennawd yma yn yr ail chwarter, ac fe gymeradwyodd y Cabinet drosglwyddiad (£200k) i gyllideb wrth gefn y Cyngor. Bellach fe welir fod y sefyllfa incwm ffafriol yn parhau, ynghyd â thanwariant mewn costau gweithredol, a'r tanwariant net diweddar wedi codi i (£83k).

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Ymgynghoriaeth** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg | (291) | (409) | (118) | 0 | (118) | 51 |
| Gwasanaethau Uned Rheoli Risg Llifogydd | 865 | 865 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Adeiladu | 287 | 268 | (19) | 0 | (19) | (42) |
| **Cyfanswm Ymgynghoriaeth** | **861** | **724** | **(137)** | **0** | **(137)** | **9** |

## Crynodeb Ymgynghoriaeth

**Prif Faterion:-**

**Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg** - fe ragwelwyd diffyg gros o £151k yn yr ail chwarter, yn bennaf o ostyngiad mewn incwm ffioedd am eleni ac fe fwriadwyd, pe byddai'r sefyllfa yn bodoli hyd at ddiwedd y flwyddyn, i ddefnyddio adnodd wrth gefn i liniaru ar y sefyllfa. Bellach, yn dilyn cynnydd yn y lefel gwaith a dderbyniwyd, mae'r darlun wedi gwell yn sylweddol, hefo'r rhagolygon diweddaraf yn dangos gweddill posib o (£118k).

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

| **Crynhoad Sefyllfa Adrannau Canolog** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 665 | 635 | (30) | 0 | (30) | (45) |
| Cyllid | 1,007 | 938 | (69) | 0 | (69) | (60) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 555 | 459 | (96) | 0 | (96) | (89) |
| **Cyfanswm Adnoddau** | **2,227** | **2,032** | **(195)** | **0** | **(195)** | **(194)** |

## Crynhoad Sefyllfa Adrannau Canolog

**Prif Faterion**

**Cyllid** - fe ragwelir sefyllfa tanwariant o (£69k) am y tro, yn bennaf o ganlyniad i arbedion ar swyddi, sydd yn gyfuniad o arbedion a wireddwyd yn fuan, ynghyd ag arbedion oherwydd trosiant staff.

**Cefnogaeth Gorfforaethol** - mân gynnydd o (£7k) yn y tanwariant o (£89k) a ragwelwyd yn yr ail chwarter, i fyny i (£96k) ac yn cynnwys tanwariant o (£31k) gan y Gwasnaeth Democratiaeth a Chefnogi Cyflawni, yn bennaf oherwydd arbedion trosiant staff ac hefyd mân orwariant ar rhai penawdau gwasanaethau a chyflenwadau. Yn ychwanegol fe ragwelir tanwariant o (£70k) ar Adnoddau Dynol, yn bennaf cyfuniad o dderbyniad o incwm ychwanegol, a gwireddu rhai arbedion staffio ymlaen llaw.

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER**

| **Crynhoad Sefyllfa Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Treth y Cyngor | * | * | (32) | | (32) | (105) |
| Budd-daliadau | * | * | (345) | 240 | (105) | (173) |
| Derbyniad Llog Net | * | * | 216 | | 216 | 169 |
| Eraill | * | * | (392) | 310 | (82) | (107) |
| **Cyfanswm Corfforaethol** | * | * | **(553)** | **550** | **(3)** | **(216)** |

## Crynodeb Corfforaethol

**Crynhoad**

Rhagwelir sefyllfa ffafriol o gasgliad uwch o (£32k) ar Treth y Cyngor, tanwariant o (£345k) ar Budd-daliadau a gostyngiad o £216k mewn Derbyniad Llôg Net. Yn ychwanegol, fe welir o dan "Eraill" cyfuniad o sawl pennawd ac yn arbennig bidiau gwerth (£206k) na ddefnyddwyd gan adrannau eleni, ac felly yn cael ei drosglwyddo i Corfforaethol ar sail unwaith ac am byth, ynghyd â sawl cynllun arbedion a wireddwyd yn rhannol ymlaen llaw eleni â gwerth (£153k).

**Argymhelliad**

Argymhellir trosglwyddo (£240k) o'r tanwariant a'r Budd-daliadau ynghyd â (£310k) o'r tanwariant a gynhwysir o dan "Eraill" uchod i gronfa penodol wrth gefn i gynorthwyo sefyllfa'r Strategaeth Ariannol ar gyfer 2016/17 (ariannu bidiau un tro).

# Eitem 6

---

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **11 CHWEFROR 2016** |
| TEITL: | **RHAGLEN GYFALAF 2015/16 –<br>ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER** |
| PWRPAS: | **ADRODDIAD MONITRO AR WARIANT AC ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn yr wybodaeth, ac ystyried y risgiau ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

---

**1.** Cyflwynir yr adroddiad atodol (adolygiad trydydd chwarter o'r rhaglen gyfalaf) i'r Cabinet ar 16 Chwefror ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â'r rhaglen ddiwygiedig a'i ariannu.

**2.** Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi cytuno i'w ystyried cyn i ni gyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet.

**3.** Bwriedir cyflwyno unrhyw sylwadau fydd gan y Pwyllgor Archwilio "ar y bwrdd" yng nghyfarfod y Cabinet ar 16 Chwefror.

**4.** Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor, a sylwebu fel bo angen.

**ADRODDIAD I'R CABINET**
16 Chwefror 2016

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Peredur Jenkins – Aelod Cabinet Adnoddau

**Pwnc:** Rhaglen Gyfalaf 2015/16 - Adolygiad Trydydd Chwarter (31 Ragfyr 2015)

**Swyddog Cyswllt:** Dafydd L Edwards – Pennaeth Cyllid

---

**Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y trydydd chwarter (sefyllfa 31 Ragfyr 2015) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 2 o'r adroddiad, sef:

- cynnydd £132,000 mewn defnydd o fenthyca heb gefnogaeth
- cynnydd £276,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- cynnydd £350,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- cynnydd £268,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- lleihad £151,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
- cynnydd £133,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu

---

## 1. Cyflwyniad / Crynodeb

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o broses monitro'r gyllideb 2015/16. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen ddiwygiedig a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae'r adroddiad mewn 2 prif ran, gyda'r argymhelliad yn rhan 3:

Rhan 1: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £82.66m am y 3 blynedd 2015/16 – 2017/18.

Rhan 2: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £1.0m ers yr adolygiad diwethaf.

Y Cabinet sydd wedi'i awdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 1) a'i ariannu (rhan 2).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth:

- Atodiad A: Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu
- Atodiad B: Symudiadau o 2015/16 i 2016/17
- Atodiad C: Gwariant 9 mis cyntaf 2015/16.

## 2. Prif Gasgliadau:

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw -

- Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi dros £42m yn 2015/16, gyda £16m wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.

- Llwyddodd y Cyngor i wario bron i £27m, sef dros 64% o'r gyllideb ar gynlluniau cyfalaf yn ystod y 9 mis cyntaf o 2015/16, o'i gymharu â 58% yn y cyfnod cyfatebol llynedd.
- Ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

**3. Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2015/16 - 2017/18.

**4. Ystyriaethau perthnasol**

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

**5. Camau nesaf ac amserlen**

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

---

**Barn yr Aelod Lleol**
Dim yn berthnasol.

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Mae'n dda gweld bod y canran gwariant hyd yma eleni yn well na'r un adeg y flwyddyn diwethaf. Fodd bynnag, mae angen parhau i fod yn wyliadwrus i sicrhau nad oes llithriad y mae modd ei osgoi rhwng nawr a diwedd y flwyddyn ariannol.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiad**
Adroddiad manwl yn rhan 1-3, Atodiadau A,B a C

## 1 RHAGLEN GYFALAF 2015/16 i 2017/18

**1.1** Gweler isod y rhaglen gyfalaf arfaethedig hyd at ddiwedd Ragfyr 2015:

| ADRAN | ADOLYGIAD DIWEDD RHAGFYR | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | CYFANSWM | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Addysg | 13,512 | 16,608 | 7,959 | 38,079 | - |
| Cyllid | 706 | 650 | - | 1,356 | 12 |
| Economi a Chymuned | 4,954 | 2,148 | - | 7,102 | 39 |
| Tai | 4,643 | 2,367 | - | 7,010 | 5 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 677 | 638 | 155 | 1,470 | 50 |
| Plant a Theuluoedd | 99 | - | - | 99 | 89 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 4,133 | 3,634 | 2,413 | 10,180 | 51 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 366 | 101 | - | 467 | - |
| Rheoleiddio | 12,827 | 3,679 | 51 | 16,557 | 753 |
| Ymgynghoriaeth | 111 | 23 | - | 134 | 9 |
| Corfforaethol | - | 202 | - | 202 | - |
| **CYFANSWM** | **42,028** | **30,050** | **10,578** | **82,656** | **1,008** |

## 2 NEWIDIADAU I'R FFYNONELLAU ARIANNU

**2.1** Mae cynnydd o £1.008m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers sefyllfa'r adolygiad diwethaf. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

| ARIANNU | ADOLYGIAD DIWEDD RHAGFYR | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | CYFANSWM | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 6,637 | 6,637 | 2,817 | 16,091 | - |
| Benthyca heb gefnogaeth | 6,268 | 8,025 | 1,620 | 15,913 | 132 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 15,816 | 8,639 | 3,222 | 27,677 | 276 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1,617 | 921 | - | 2,538 | 350 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 4,716 | 1,281 | 300 | 6,297 | 268 |
| Cronfa Cyfalaf | 2,384 | 1,660 | 155 | 4,199 | (151) |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 4,590 | 2,887 | 2,464 | 9,941 | 133 |
| **CYFANSWM** | **42,028** | **30,050** | **10,578** | **82,656** | **1,008** |

## 3 ARGYMHELLIAD

**Gofynnir i'r Cabinet:**

- **dderbyn y rhaglen gyfalaf diwygiedig ar gyfer 2015/16 i 2017/18, a**
- **chymeradwyo'r ffynonellau ariannu berthnasol (para. 2.1 uchod).**

---------------------------

**PRIF NEWIDIADAU FESUL FFYNHONNELL ARIANNU:**

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynhonellau ariannu yn ystod y chwarter diwethaf:

| | 2015/16 £'000 | 2016/17 £'000 | 2017/18 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Benthyca Heb Gefnogaeth** | | | |
| Cynlluniau Rheoli Carbon - benthyciad gan gwmni SALIX (cwmni annibynnol sydd yn defnyddio arian cyhoeddus i ddarparu benthyciadau i'r sector gyhoeddus) ar gyfer prosiectau effeithlonrwydd ynni (Adran Rheoleiddio/Uned Eiddo) | 132 | - | - |
| **Grantiau a Chyfraniadau** | | | |
| Cronfa Trafnidiaeth Leol - grant gan y Llywodraeth i ddarparu systemau trafnidiaeth cynaliadwy (Adran Rheoleiddio) | 144 | - | - |
| Cynllun Llwybr yr Arfordir - grant gan Gyfoeth Naturiol Cymru at wedd nesaf o'r cynllun yma(Adran Rheoleiddio) | 122 | - | - |
| **Derbyniadau Cyfalaf** | | | |
| Cynllun A499 Aberdesach i Lanaelhaearn (defnydd llawn o'r derbyniad cyfalaf o werthiant Plas Cae Pwsan ar ran y Llywodraeth i ariannu costau'r cynllun uchod) (Adran Rheoleiddio) | 200 | - | - |
| Addasiad Technegol – Cynllun Strategol (defnyddio derbyniadau cyfalaf o gynllun Mynwy yn hytrach na ariannu'r cynlluniau drwy refeniw) – gweler Cronfa Cyfalaf isod | 151 | - | - |
| **Refeniw Adrannol** | | | |
| Llyn Celyn – cynllun i ddarparu ffensys diogelwch o amgylch y llyn (Adran Rheoleiddio) | 100 | - | - |
| Ail wynebu Maes Parcio Bala (Adran Rheoleiddio) | 140 | - | - |
| **Cronfa Cyfalaf** | | | |
| Addasiad Technegol – Cynllun Strategol (defnyddio derbyniadau cyfalaf o gynllun Mynwy yn hytrach na ariannu'r cynlluniau drwy refeniw) – gweler Derbyniadau Cyfalaf uchod | (151) | - | - |
| **Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill** | | | |
| Cynlluniau Rheoli Carbon – Prosiectau Solar (Adran Rheoleiddio/Uned Eiddo) | 76 | - | - |
| Depos – Portacabins (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) | 31 | - | - |

---------------------------

**AIL-BROFFILIO CYLLIDEB – PRIF GYNLLUNIAU:**

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi'w hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

| | 2015/16 £'000 | 2016/17 £'000 | 2017/18 £'000 |
|---|---|---|---|
| Ysgolion Ganrif 21 (Adran Addysg) | (2,631) | 2,631 | - |
| Cerbydau'r Cyngor (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) | (1,501) | 1,501 | - |
| Adfywio Tref a Glannau Caernarfon (Adran Economi a Chymuned) | (422) | 422 | - |
| Dosbarthiadau Dros Dro mewn Ysgolion (Adran Addsyg) | (307) | 307 | - |
| Cynllun EDRMS ('*electronic document and records management system*') (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) | (233) | 233 | - |

**NODER:**
Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.
Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau cyfredol heb eu gwella.

---------------------------

**ATODIAD C**

**GWARIANT CYFALAF 9 MIS CYNTAF 2015/16**

| CRYNODEB | RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LLAWN (adolygwyd Rhagfyr) 2015/16 £'000 | GWIR WARIANT Y 9 MIS HYD AT 31/12/2015 £'000 |
|---|---|---|
| Addysg | 13,512 | 8,493 |
| Cyllid | 706 | 443 |
| Economi a Chymuned | 4,954 | 4,279 |
| Tai | 4,643 | 1,498 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 677 | 331 |
| Plant a Theuluoedd | 99 | 8 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 4,133 | 2,974 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 366 | 196 |
| Rheoleiddio | 12,827 | 8,743 |
| Ymgynghoriaeth | 111 | 31 |
| | - | |
| **CYFANSWM** | 42,028 | 26,996 |

**Noder:** Er gwaethaf yr ail broffilio, mae'r gyfran sydd wedi'i wario eleni yn gyfatebol uwch na'r sefyllfa adeg yma'r llynedd.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD** | **11 CHWEFROR 2016** |
| **TEITL** | **RHEOLAETH TRYSORLYS**<br><br>**DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS, STRATEGAETH DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW A STRATEGAETH FUDDSODDIAD FLYNYDDOL AR GYFER 2016/17** |
| **AWDUR** | **DAFYDD L EDWARDS - PENNAETH CYLLID** |
| **AELOD CABINET** | **Y CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

**Cyflwyniad a Chefndir**

**1.** Mae Cod Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi Datganiad Polisi a phapurau ymarfer ynghyd ag atodlen fanwl yn nodi bwriad y Cyngor wrth ymdrin â'i holl weithrediadau trysorlys. Prif ofyniad y Cod yw i'r Cyngor llawn gymeradwyo'r Datganiad Polisi, y papurau ymarfer a'r atodlen. Fe gymeradwywyd rhain gan y Cyngor (parthed 2015/16) yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth 2015.

2. Mae Cyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol ("y Cyfarwyddyd") yn gorfodi'r Cyngor, fel rhan o'i swyddogaeth rheolaeth trysorlys, i baratoi Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Mae'r Cyfarwyddyd yn datgan gall awdurdodau gyfuno'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol mewn un adroddiad. Mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu'r syniad hwnnw, felly mae'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol wedi'i chynnwys yn rhan 5 o **Atodiad A**.

3. Yn ôl y Cod a'r cyfarwyddyd, rhaid i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR) a Strategaeth Fuddsoddi Blynyddol cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Manylir ar y strategaeth ar gyfer 2016/17 yn **Atodiad A.**

4. Fel Awdurdod Gweinyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd mae'r Cyngor yn darparu swyddogaethau rheolaeth trysorlys ar ei gyfer trwy uno arian dros ben y Cyngor ac arian dros ben y Gronfa Bensiwn at ddibenion buddsoddi dyddiol. Mae'r Gronfa Bensiwn yn gofyn am  hyn bob blwyddyn gan fod y dychweliadau a dderbynnir yn well ac mae'r risgiau wedi eu lleihau wrth uno'r arian gyda chronfeydd y Cyngor. Bydd y Pwyllgor Pensiynau yn cymeradwyo'r elfennau perthnasol y Datganiad Strategaeth hwn a gofyn i barhau gyda'r trefniadau pwl ar gyfer 2016/17 yn ei gyfarfod ar 17 Mawrth 2016.

5. Yn ychwanegol, cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol 2003 fframwaith darbodus ar gyfer buddsoddiad cyfalaf awdurdodau lleol. Roedd y trefniadau newydd, oedd yn weithredol o'r 1af o Ebrill 2004, yn cyflwyno system lywodraethu ar gyfer gwariant cyfalaf awdurdodau lleol, sy'n bennaf seiliedig ar hunan reolaeth. Datblygwyd y "Prudential Code for Capital Finance in Local Authorities" ('y Cod') gan CIPFA fel cod ymarfer proffesiynol, gyda chefnogaeth statudol, i gefnogi awdurdodau lleol wrth gymryd penderfyniadau i wario cyfalaf. Amcanion allweddol y Cod yw sicrhau bod cynlluniau buddsoddi cyfalaf awdurdodau lleol yn fforddiadwy, darbodus a chynaliadwy. Mynna'r Cod bod awdurdodau lleol, cyn cychwyn pob blwyddyn ariannol, yn gosod rhai dangosyddion darbodus penodol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a blynyddoedd dilynol. Yn dilyn o'r adolygiad diweddaraf mae CIPFA wedi cyflwyno un dangosydd darbodus newydd, "Terfynau uchaf ar gyfran ddyled net i ddyled gros", er mwyn tynnu sylw at sefyllfa ble mae'r Cyngor yn bwriadu benthyca cyn i'r angen godi. Mae'r dangosyddion yma, sy'n seiliedig ar gynigion ar gyfer y cyllidebau refeniw a chyfalaf sydd mewn adroddiadau eraill ar y rhaglen, wedi'u cynnwys yma yn **Atodiad B.**

6. Yn weithredol o'r 31ain o Fawrth 2008, cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2008 [y "Rheoliadau Diwygiedig"]. Mae'r rheoliadau yma yn cyflwyno newidiadau penodol i'r rhai a gafodd eu cyflwyno yn 2003 [y "Rheoliadau Gwreiddiol"] fel rhan o weithredu'r gyfundrefn Benthyca Ddarbodus. Ymhlith y newidiadau sydd wedi'u cyflwyno mae'r gofyn am Ddatganiad Polisi Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (DLlR) blynyddol.

7. Mae'r Rheoliadau Gwreiddiol yn gosod allan sail statudol a fformiwla gymhleth ar gyfer cyfrifo'r DLlR. Mae'r Rheoliadau Diwygiedig ond yn gofyn am dal sydd yn 'ddarbodus', ac mae awdurdodau yn cael defnyddio fwy o ddisgresiwn yn nhermau'r tal a godwyd, serch fod hyn o fewn rhai paramedrau. Mae **Atodiad C** yn cynnwys y Datganiad DLlR Blynyddol ar gyfer 2016/17.

8. Gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor Archwilio a'r Aelod Cabinet dros Adnoddau i gyfarfod briffio ar 28 Ionawr 2016 gydag Arlingclose, ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor, i drafod Rheolaeth Trysorlys. Atgoffwyd aelodau o God Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys, ynghyd a'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau am weithgaredd Rheolaeth Trysorlys. Amlygodd yr ymgynghorwyr wahanol risgiau cyfredol i'r trysorlys, a thrafodwyd mewn manylder risgiau credyd, risgiau gyda gwrthbartion, risgiau cyfraddau llog a risg cyfradd chwyddiant. Hefyd, trafodwyd portffolio dyled y Cyngor, y sefyllfa benthyca net, a'r dangosyddion darbodus.

## Argymhelliad

**9. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio argymell i'r Cyngor Llawn 5 Mawrth fabwysiadu'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi Flynyddol am 2016/17 (Atodiad A), y Dangosyddion Darbodus (Atodiad B), y Datganiad Darpariaeth Lleiafswm Refeniw (Atodiad C) a'r trefniant uno gyda'r Gronfa Bensiwn ar gyfer buddsoddi llif arian dyddiol.**

**ATODIAD A**

# Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2016/17

## 1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Mawrth 2011 fe wnaeth yr Awdurdod fabwysiadu *Cod Ymarfer Rhifyn 2011): Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus* y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifiaeth (Cod CIPFA) sy'n gofyn i'r Awdurdod gymeradwyo strategaeth rheolaeth trysorlys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol.

1.2 Yn ogystal, fe wnaeth Llywodraeth Cymru (LlC) gyhoeddi canllaw diwygiedig a elwir y *Canllaw ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol* ym mis Ebrill 2010 sy'n gofyn i'r Awdurdod gymeradwyo strategaeth fuddsoddi cyn dechrau pob blwyddyn ariannol.

1.3 Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni cyfrifoldeb cyfreithiol yr Awdurdod dan *Ddeddf Llywodraeth Leol 2003* i roi ystyriaeth i'r ddau beth hyn, sef Cod CIPFA a Chanllaw LlC.

1.4 Mae'r Awdurdod wedi benthyca a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac mae felly'n agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli cronfeydd a fuddsoddwyd ac effaith refeniw cyfraddau llog sy'n newid. Felly, mae adnabod, monitro a rheoli risgiau'n llwyddiannus yn greiddiol i strategaeth rheolaeth trysorlys yr Awdurdod.

## 2. Y Cyd-destun Allanol

### 2.1 Y Cefndir Economaidd

Mae galw domestig wedi cynyddu'n arw, wedi'i gefnogi gan dwf incwm real wedi'i gynnal a gostyngiad graddol mewn arbedion sector preifat. Roedd prisiau isel olew a nwyddau yn nodwedd amlwg o 2015 a chyfrannodd hyn at y gostyngiad yn y chwyddiant CPI blynyddol i 0.1% ym mis Hydref. Mae cyflogau'n tyfu 3% bob blwyddyn, ac mae'r gyfradd diweithdra wedi gostwng i 5.4%. Mae nifer y morgeisi sy'n cael eu cymeradwyo wedi cynyddu i 70,000 y mis ac mae'r twf pris tai blynyddol oddeutu 3.5%. Mae'r ffactorau hyn wedi rhoi hwb i hyder cwsmeriaid, gan gynorthwyo i danategu gwariant ac o ganlyniad dwf mewn GDP, oedd yn 2.3% y flwyddyn yn nhrydydd chwarter 2015. Er y bu i ddatganiadau gan aelodau Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) Banc Lloegr roi awgrym bod rhai yn fodlon cefnogi cyfraddau llog uwch, dal cyfraddau polisi ar 0.5% wnaeth yr MPC am yr 81fed mis yn olynol yn ei bwyllgor ym mis Tachwedd 2015. Mae QE wedi'i gynnal ar £375bn ers mis Gorffennaf 2012.

Bu i ganlyniad etholiad cyffredinol y DU, a frwydrwyd i raddau helaeth dros agwedd y pleidiau ar sut i ddelio â'r diffyg mewn arian cyhoeddus, arwain at newidiadau mawr yn y tirwedd gwleidyddol. Rhoddodd hyn y prif fater o berthynas y DU gyda'r UE yng nghalon gwleidyddiaeth y dyfodol. Gallai'r ansicrwydd ynghylch canlyniad y refferendwm sydd ar y gorwel roi pwysau tuag at i lawr, ar dwf GDP y DU ac ar gyfraddau llog.

Mae twf China wedi arafu ac mae economi'r wlad yn perfformio'n is na'r disgwyliadau, gan leihau galw'r byd am nwyddau a chyfrannu at wendid y farchnad. Cynyddu wnaeth twf domestig yr UD ond arafu bu hanes y sectorau o economi'r UD sy'n rhyngwladol sensitif. Fodd bynnag, mae data marchnad llafur cryf yr UD a dangosyddion economaidd eraill yn awgrymu nad yw'r cynnwrf rhyngwladol diweddar wedi effeithio ar adferiad America. Cynyddodd y Gronfa Ffederal y cyfraddau polisi i 0.5% yn ystod ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2015. I'r gwrthwyneb, aeth Banc Canolog Ewrop (ECB) ati i wneud QE yn 2015 er mwyn gwrthsefyll y peryglon o ddatchwyddiant.

## 2.2 Rhagolygon credyd

Mae ffawd amrywiol gwahanol rannau o'r economi byd-eang yn cael eu hadlewyrchu yn nangosyddion y farchnad o risg credyd. Gwelodd Banciau'r DU sydd yn gweithredu yn y Dwyrain Pell a rhannau o dir mawr Ewrop, gynnydd yn eu risg, tra bod y rhai sydd â ffocws mwy domestig, yn parhau i ddangos gwelliant. Mae gwerthiant y rhan fwyaf o gyfran y Llywodraeth yn Lloyds, a'r gwerthiant cyntaf o'u cyfranddaliadau yn RBS, yn gyffredinol wedi cael eu gweld yn gredyd positif.

Mae deddfwriaeth *"bail-in"*, sydd wedi ei weithredu'n llawn yn y DU, yr UDA a'r Almaen, yn sicrhau mai buddsoddwyr mawr gan gynnwys awdurdodau lleol fydd yn achub banciau sy'n methu yn y dyfodol, yn hytrach na threthdalwyr. Bydd gweddill yr Undeb Ewropeaidd yn dilyn yr un drefn yn Ionawr 2016, tra bod Awstralia, Canada a'r Swistir, yn mynd rhagddynt yn dda gyda eu cynlluniau eu hunain. Yn y cyfamser mae newidiadau i Gynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol y DU a chynlluniau Ewropeaidd tebyg yng Ngorffennaf 2015, yn golygu bod y rhan fwyaf o fuddsoddwyr y sector breifat yn awr wedi eu heithrio'n rhannol neu'n llawn o gyfrannu tuag at "bail-in". Mae'r risg credyd sy'n gysylltiedig â gwneud adneuon banc heb eu gwarantu, felly, wedi cynyddu yn gymharol a'r risg o opsiynau buddsoddi eraill sydd ar gael i'r Awdurdod; tra bod yr enillion ar adneuon arian parod, fodd bynnag, yn parhau i fod yn isel iawn.

## 2.3 Rhagolygon Cyfraddau Llog

Mae Arlingclose ymgynghorwyr trysorlys yr Awdurdod, yn amcan y bydd y cynnydd cyntaf o 0.25% yng nghyfradd Banc y DU yn nhrydydd chwarter 2016, gan godi 0.5% y flwyddyn ar ôl hynny, gan setlo rhwng 2% a 3% mewn tipyn o flynyddoedd. Mae chwyddiant isel parhaus, twf byd-eang isel a phryderon posibl am sefyllfa y DU yn Ewrop yn golygu bod y risgiau i'r rhagolwg yma yn cael eu pwysoli tuag at i lawr.

Rhagwelir mai llwybr bâs ar i fyny fydd ar gyfer cynnyrch gilt tymor canolig, gan fod pryderon parhaus am Ardal yr Ewro, marchnadoedd sy'n datblygu a digwyddiadau geo-wleidyddol eraill yn pwyso ar archwaeth risg, tra bod y disgwyliadau chwyddiant yn parhau i fod yn isel. Mae Arlingclose yn amcan y bydd cynnyrch y gilt 10 mlynedd yn codi o'i lefel presennol o 2.0% o tua 0.3% y flwyddyn. Mae'r ansicrwydd ynghylch amseriad y cynnydd yng nghyfraddau llôg y DU a'r UDA yn debygol o ysgogi anweddolrwydd tymor-byr yng nghynnyrch

2.4 Mae rhagolwg economaidd a chyfraddau llôg mwy manwl a ddarparwyd gan ymgynghorydd rheolaeth trysorlys yr Awdurdod i'w weld yn ***Atodiad A***.

2.5 Er diben gosod y gyllideb, tybiwyd y bydd buddsoddiadau newydd yn cael eu gwneud ar gyfradd o 0.63% ar gyfartaledd, ac na fydd angen unrhyw fenthyciadau tymor hir newydd.

**3. Y Cyd-destun Lleol**

3.1 Roedd yr Awdurdod wedi benthyca £111.5m ac roedd ganddo werth £55.5m o fuddsoddiadau ar ddiwedd 31 Rhagfyr 2015. Mae hyn wedi'i egluro mewn mwy o fanylder yn ***Atodiad B***. Mae tabl 1 isod yn ddadansoddiad o'r fantolen sy'n dangos y newidiadau a ragwelir i'r symiau hyn.

**Tabl 1: Crynodeb Mantolen a'r Rhagolwg**

| | **31.3.15 Gwir £'000** | **31.3.16 Amcangyfrif £'000** | **31.3.17 Amcangyfrif £'000** | **31.3.18 Amcan-gyfrif £'000** | **31.3.19 Amcan-gyfrif £'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Benthyca CFR** | **174,889** | **178,384** | **182,183** | **180,378** | **180,378** |
| Llai: Benthyca allanol * | (113,575) | (111,467) | (109,545) | (106,389) | (106,389) |
| **Benthyca mewnol** | **61,314** | **66,917** | **72,638** | **73,989** | **73,989** |
| Llai: Cronfeydd defnyddiadwy | (63,727) | (59,042) | (54,528) | (52,528) | (52,528) |
| Llai: Cyfalaf gweithio | (54,259) | (22,311) | (22,041) | (21,771) | (21,500) |
| **Buddsoddiadau** | **(56,672)** | **(14,436)** | **(3,931)** | **(310)** | **(39)** |

*yn dangos dim ond benthyciadau y mae'r Awdurdod wedi ymrwymo iddynt, heb gynnwys ail gyllido dewisol


3.2 Caiff yr angen sylfaenol i fenthyca er dibenion cyfalaf ei fesur gan y Gofyn Benthyca Cyfalaf (CFR), tra mai'r cronfeydd defnyddiadwy a'r cyfalaf gweithio yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Strategaeth gyfredol yr Awdurdod yw cynnal benthyciadau a buddsoddiadau islaw eu lefelau sylfaenol, a elwir weithiau yn benthyca mewnol.

Mae Tabl 1 yn dangos nid oes angen i'r Cyngor fenthyg yn ystod y tair mlynedd nesaf.

3.3 Mae'r *Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol* gan CIPFA yn argymell y dylai cyfanswm dyledion yr Awdurdod fod yn is na'i CFR uchaf posib yn ôl y rhagolygon dros y tair blynedd nesaf. Dengys Tabl 1 fod yr Awdurdod yn disgwyl cydymffurfio â'r argymhelliad hwn yn ystod 2016/17.

3.4 Er mwyn cynorthwyo gyda'i strategaeth rheoli trysorlys hirdymor, mae'r Awdurdod a'i ymgynghorwyr wedi creu meincnod rhwymedigaeth, sy'n rhagweld anghenion benthyca'r Awdurdod dros gyfnod o 50 mlynedd. Gan ddilyn o'r rhagolygon tymor canolig yn nhabl 1 uchod, mae'r meincnod yn rhagdybio:

- gwariant cyfalaf wedi'i ariannu gan fenthyciadau o £5m y flwyddyn
- lleiafswm darpariaeth refeniw ar wariant cyfalaf newydd yn seiliedig ar gyfnod oes ased o 25 mlynedd.
- cynnydd o 2.5% chwyddiant y flwyddyn ar incwm, gwariant a reserfau




Mae'r siart yn dangos bod benthyciadau yn llawer is na'r CFR a bod gan y Cyngor arian i fuddsoddi. Ar sail y tybiaethau a nodir uchod dyma'r sefyllfa sydd yn debyg i barhau yn y tymor hir.

## 4. Y Strategaeth Fenthyca

4.1 Mae'r Awdurdod ar hyn o bryd yn dal £110 miliwn o fenthyciadau, yn unol â'r flwyddyn flaenorol, fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf y blynyddoedd cynt. Mae rhagolygon y fantolen a welir yn nhabl 1 yn dangos nad yw'r Awdurdod yn disgwyl bod angen benthyca yn 2016/17. Fodd bynnag, hwyrach y bydd yr Awdurdod angen benthyca i ariannu gofynion y blynyddoedd i ddod ymlaen llaw, cyn belled nad yw hyn yn fwy na'r terfyn awdurdodedig ar gyfer benthyca, sef £190 miliwn.

4.2 Prif amcan yr Awdurdod wrth fenthyca arian yw cael cydbwysedd priodol o risg isel rhwng sicrhau costau llog isel a chyflawni sicrwydd cost dros y cyfnod y mae angen yr arian. Yn ail amcan i hyn yw'r hyblygrwydd i ail negodi benthyciadau pe bai cynlluniau tymor hir yr Awdurdod yn newid.

4.3 Yn wyneb y toriadau sylweddol i wariant cyhoeddus, ac yn arbennig i'r cyllid ar gyfer llywodraeth leol, mae strategaeth fenthyca'r Awdurdod yn parhau i fynd i'r afael â'r mater allweddol o fforddiadwyedd heb beryglu sefydlogrwydd tymor hir y portffolio

dyledion. Gan fod cyfraddau llog tymor byr yn llawer is na chyfraddau tymor hir, mae'n debygol o fod yn fwy effeithiol yn y tymor byr i un ai defnyddio adnoddau mewnol, neu i fenthyg benthyciadau tymor byr yn lle hynny.

4.4 Drwy wneud hynny, gall yr Awdurdod leihau costau benthyca net (er gwaethaf yr incwm rhagdybiedig o fuddsoddiadau) a lleihau'r risg cyffredinol i'r trysorlys. Bydd y buddion o fenthyca mewnol yn cael eu monitro'n rheolaidd yn erbyn y potensial o greu costau ychwanegol trwy ohirio benthyca tan y dyfodol, pan ragwelir y bydd cyfraddau benthyca tymor hir yn codi. Bydd Arlingclose yn cynorthwyo'r Awdurdod gyda'r 'gost cario' a'r dadansoddiad elw. Gall yr allbwn o hwn bennu p'un a fydd yr Awdurdod yn benthyca symiau ychwanegol ar gyfraddau sefydlog hirdymor yn 2016/17 gyda'r bwriad o gadw costau llôg y dyfodol yn isel, hyd yn oed os bydd hyn yn creu cost ychwanegol yn y tymor byr.

4.5 Fel arall, gall yr Awdurdod drefnu benthyciadau sy'n cychwyn yn y dyfodol yn 2016/17, ble mae'r gyfradd llôg yn cael ei gosod ymlaen llaw, ond nid yw'r arian yn cael ei dderbyn tan flynyddoedd yn ddiweddarach. Byddai hyn yn arwain at sicrwydd cost heb ddioddef cost yn y cyfnod cyfamserol.

Yn ogystal â hyn, mae'n bosib y bydd yr Awdurdod yn benthyca benthyciadau tymor byr (hyd at un mis fel arfer) i gwrdd â diffygion annisgwyl yn y llif arian.

4.6 Dyma'r ffynonellau sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer benthyciadau tymor byr a thymor hir:

- Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) ac unrhyw gorff olynol
- unrhyw sefydliad a gymeradwywyd ar gyfer buddsoddi (gweler paragraff 5.4 isod)
- unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladau arall sydd wedi'u hawdurdodi i weithredu yn y DU
- Awdurdodau Lleol y DU
- *UK Municipal Bonds Agency* a chwmnïau i bwrpas arbennig a grëwyd i alluogi cyhoeddi bondiau ar y cyd rhwng awdurdodau lleol.

Yn ogystal, gellir codi cyllid cyfalaf drwy'r dulliau a ganlyn nad ydynt yn fenthyciadau, ond y gellir eu cyfrif fel rhwymedigaethau dyledion eraill.

- prydlesau gweithredu ac ariannu
- hurbryniant
- Menter Cyllid Preifat
- gwerthu ac adlesu

Yn flaenorol mae'r Awdurdod wedi codi'r rhan fwyaf o'i fenthyciadau tymor hir gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB), ond mae'n bosib y bydd yn ystyried ffynonellau cyllid eraill, megis benthyciadau gan awdurdodau lleol a benthyciadau banc, all fod ar gael ar gyfraddau mwy ffafriol.

4.7 **Asiantaeth Bondiau'r Gymdeithas Llywodraeth Leol**
Sefydlwyd y *UK Municipal Bonds Agency* yn 2014 gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) fel dewis arall i'r PWLB. Mae'n bwriadu cyhoeddi bondiau ar y

marchnadoedd cyfalaf a rhoi benthyciadau ar yr enillion i awdurdodau lleol. Bydd yn ffynhonnell gyllid sy'n fwy cymhleth na'r PWLB am ddau rheswm, sef:

- efallai y bydd yn rhaid i'r awdurdodau sy'n benthyca ddarparu gwarant ar y cyd ac yn unigol i fuddsoddwyr y bondiau, ar y risg bychan y gallai benthycwyr awdurdodau lleol eraill fethu â thalu eu benthyciadau;
- bydd cyfnod arweiniol o sawl mis rhwng ymrwymo i fenthyca a chael gwybod beth fydd y gyfradd llôg sy'n daladwy;

Bydd unrhyw benderfyniad i fenthyca gan yr Asiantaeth felly'n destun adroddiad ar wahân i'r Cyngor llawn.

4.8 Mae'r Awdurdod yn dal £16.2m fel benthyciad LOBO (*Lender's Option Borrower's Option*) lle mae gan y sawl sy'n rhoi'r benthyciad y dewis i gynnig cynnydd yn y gyfradd llôg ar ddyddiadau penodedig, a byddai gan yr Awdurdod wedyn y dewis o un ai derbyn y gyfradd newydd neu ad-dalu'r ddyled heb unrhyw gost ychwanegol. Nid oes dewis yn ystod 2016/17. Bydd y cyfanswm a fenthycir trwy fenthyciadau LOBO wedi'i gyfyngu i £16.2m.

4.9 Mae benthyciadau tymor byr a rhai â chyfradd llôg amrywiol yn gadael yr Awdurdod yn agored i'r risg o gynnydd tymor byr yn y gyfradd llôg, a thrwy hynny'n destun i derfyn uchaf net cyfraddau llog amrywiol y dangosyddion rheolaeth trysorlys isod.

4.10 **Aildrefnu Dyledion**

Mae'r PWLB yn caniatáu i awdurdodau ad-dalu benthyciadau cyn iddynt aeddfedu, ac un ai talu premiwm neu dderbyn disgownt yn unol â fformwla a osodwyd yn seiliedig ar gyfraddau llôg presennol. Hwyrach y bydd benthycwyr eraill yn barod i drafod telerau adbrynu cynnar. Gall yr Awdurdod gymryd mantais o hyn ac amnewid rhai benthyciadau am fenthyciadau newydd, neu ad-dalu benthyciadau heb eu hamnewid, lle y disgwylir y bydd hyn yn arwain at arbediad cyffredinol neu leihad cyffredinol mewn risg.

## 5. Y Strategaeth Fuddsoddi

5.1 Mae'r Awdurdod yn dal cronfeydd sydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn gwariant ynghyd â'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn y 12 mis diwethaf, mae balans buddsoddiadau'r Awdurdod wedi amrywio rhwng £39 a £77 miliwn, a disgwylir cynnal lefelau tebyg am y flwyddyn sydd i ddod.

Mae hyn yn cynnwys balansau arian Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd yn cael eu pwlio gyda chronfeydd y Cyngor at ddibenion buddsoddi. Mae'r Gronfa Bensiwn yn gofyn am hyn bob blwyddyn gan fod y dychweliadau a dderbynnir yn well ac mae'r risgiau wedi eu lleihau wrth uno'r arian gyda chronfeydd y Cyngor. Bydd y Pwyllgor Pensiynau yn cymeradwyo'r elfennau perthnasol y Datganiad Strategaeth hwn a gofyn i barhau gyda'r trefniadau pwl ar gyfer 2016/17 yn ei gyfarfod ar 17 Mawrth 2016.

5.2 **Amcanion**

Mae Cod CIPFA a Chanllaw LlC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod fuddsoddi ei gronfeydd yn ddarbodus, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau

cyn ceisio'r gyfradd enillion uchaf, neu'r cynnyrch uchaf. Amcan yr Awdurdod wrth fuddsoddi arian yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng risg ac enillion, gan leihau'r risg o beri colledion o fuddsoddiadau'n diffygdalu a'r risg o dderbyn incwm sy'n anaddas o isel ar fuddsoddiadau.

5.3 **Strategaeth**
O ystyried y cynnydd yn y risgiau a'r parhad yn yr enillion isel o fuddsoddiadau byrdymor ansicredig, mae'r Awdurdod yn bwriadu arallgyfeirio i ddosbarthiadau o asedau sy'n fwy sicr a/neu sy'n cynnig enillion uwch yn ystod 2016/17. Ar hyn o bryd mae'r rhan helaeth o'r arian parod sydd dros ben gan yr Awdurdod wedi'i fuddsoddi mewn adneuon banc anwarantedig, tystysgrifau adneuon a chronfeydd marchnadoedd arian. Bydd yr arallgyfeirio felly'n cynrychioli newid sylweddol yn y strategaeth dros y flwyddyn i ddod.

5.4 Gall yr Awdurdod fuddsoddi'r cronfeydd dros ben sydd ganddo gydag unrhyw fath o'r gwrthbartïon yn nhabl 2 isod, yn amodol ar y cyfyngiadau arian (mesul gwrthbarti) a'r cyfyngiadau amser a ddangosir.

**Tabl 2: Gwrthbartïon Buddsoddi sydd wedi'u Cymeradwyo**

| Cyfradd Credyd | Banciau Ansicredig | Banciau â Sicrwyd | Llywodraeth | Corfforaethau | Darparwyr Cofrestredig |
|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth DU | d/b | d/b | £ diderfyn<br>50 mlynedd | d/b | d/b |
| AAA | 5%<br>5 mlynedd | 10%<br>20 mlynedd | 10%<br>50 mlynedd | 5%<br>20 mlynedd | 5%<br>20 mlynedd |
| AA+ | 5%<br>5 mlynedd | 10%<br>10 mlynedd | 10%<br>25 blynedd | 5%<br>10 blynedd | 5%<br>10 blynedd |
| AA | 5%<br>4 blynedd | 10%<br>5 mlynedd | 10%<br>15 blynedd | 5%<br>5 blynedd | 5%<br>10 blynedd |
| AA- | 5%<br>3 blynedd | 10%<br>4 blynedd | 10%<br>10 mlynedd | 5%<br>4 blynedd | 5%<br>10 blynedd |
| A+ | 5%<br>2 flynedd | 10%<br>3 blynedd | 5%<br>5 mlynedd | 5%<br>3 blynedd | 5%<br>5 blynedd |
| A | 5%<br>13 mis | 10%<br>2 flynedd | 5%<br>5 mlynedd | 5%<br>2 flynedd | 5%<br>5 blynedd |
| A- | 5%<br>6 mis | 10%<br>13 mis | 5%<br>5 mlynedd | 5%<br>13 mis | 5%<br>5 blynedd |
| BBB+ | 2.5%<br>100 diwrnod | 5%<br>6 mis | 2.5%<br>2 flynedd | 2.5%<br>6 mis | 2.5%<br>2 flynedd |
| BBB | 2.5%<br>Diwrnod nesaf yn unig | 5%<br>100 diwrnod | d/b | d/b | d/b |
| Dim | £1m<br>6 mis | d/b | 10%<br>25 blynedd | £50,000<br>5 mlynedd | 5%<br>5 mlynedd |
| Cronfeydd wedi eu cyfuno | 10% mesul gronfa | | | | |
| Benthyciadau i Fusnesau Lleol* | | | Cyfanswm o £3m<br>10 blynedd | | |

* Bydd rhoi'r benthyciadau hyn yn cael eu cymeradwyo trwy'r broses y manylir arni ym mharagraff 5.9 isod. Nid yw gwerthuso'r Benthyciadau Busnes yn rhan o'r cyngor na'r gwasanaethau a dderbynnir gan ymgynghorwr trysorlys y Cyngor.

5.5 **Statws Credyd**

Gwneir penderfyniadau buddsoddi drwy gyfeirio at y statws credyd hirdymor isaf sydd wedi'i gyhoeddi gan Fitch, Moody's neu Standard & Poor's. Defnyddir y statws credyd sy'n berthnasol i'r buddsoddiad penodol neu'r dosbarth o fuddsoddiad pan fo hwnnw ar gael, ac fel arall defnyddir statws credyd y gwrthbartïon.

5.6 **Banciau Ansicredig**

Cyfrifon, adneuon, tystysgrifau adneuon a bondiau ansicredig uwch gyda banciau a chymdeithasau adeiladu, ac eithrio banciau datblygu amlochrog. Mae'r buddsoddiadau'n agored i risg o golli credyd drwy gyfrwng '*bail-in'* petai'r rheoleiddiwr yn penderfynu bod banc yn methu neu'n debygol o fethu. Mae buddsoddiadau ansicredig gyda banciau â ganddynt statws BBB wedi'u cyfyngu i adneuon dros nôs ym manc cyfrif cyfredol yr Awdurdod Barclays Bank plc.

5.7 **Banciau â Sicrwydd**

Bondiau gorchuddiedig, cytundebau adbrynu o chwith a threfniadau gyda sicrwydd cyfochrog gyda banciau a chymdeithasau adeiladu. Mae'r buddsoddiadau hyn wedi'u sicrhau ar asedau'r banc, sy'n cyfyngu'r colledion potensial petai methdaliad, er bod hynny'n annhebygol, ac mae'n golygu eu bod wedi'u heithrio rhag '*bail-in'.* Tra nad oes unrhyw statws credyd penodol ar gyfer y buddsoddiad, bydd statws credyd yn bodoli ar gyfer y sicrwydd cyfochrog sy'n sail i'r buddsoddiad. Defnyddir y statws uchaf o'r statws credyd sicrwydd cyfochrog a'r statws credyd gwrthbarti i benderfynu ar y cyfyngiadau o ran arian parod ac amser. Ni fydd cyfanswm y buddsoddiadau â sicrwydd a'r buddsoddiadau ansicredig mewn unrhyw un banc yn fwy na'r cyfyngiad arian parod ar gyfer buddsoddiadau â sicrwydd.

5.8 **Llywodraeth**

Benthyciadau, bondiau a biliau a gyhoeddir neu a warantir gan lywodraethau cenedlaethol, rhanbarthol, awdurdodau lleol a banciau datblygu amlochrog. Ni fyddai'r buddsoddiadau hyn yn destun *'bail-in'*, a bychan iawn yw'r risg o fethdalu. Nid oes cyfyngiad ar faint y buddsoddiadau y gellir eu gwneud gyda Llywodraeth Canolog y DU am hyd at 50 mlynedd.

5.9 **Corfforaethau**

Benthyciadau, bondiau a phapur masnachol a gyhoeddir gan gwmnïau ac eithrio banciau a darparwyr cofrestredig. Nid yw'r buddsoddiadau hyn yn destun *'bail-in'* ond maent yn agored i'r risg y gallai'r cwmni ddod yn fethdalwr. Dim ond fel rhan o bŵl amrywiol y gwneir benthyciadau i gwmnïau heb statws er mwyn lledaenu'r risg yn eang.

5.10 **Darparwyr Cofrestredig**

Benthyciadau a bondiau a gyhoeddir, neu a warantir gan, neu sydd wedi'u sicrhau ar asedau Darparwyr Tai Cymdeithasol Cofrestredig, a elwid gynt yn Gymdeithasau Tai. Caiff y cyrff hyn eu rheoleiddio'n llym gan yr Asiantaeth Tai a Chymunedau ac fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, maent yn debygol iawn o barhau i dderbyn cymorth gan y llywodraeth os bydd angen.

5.11 **Cronfeydd wedi'u cyfuno**

Cyfranddaliadau mewn dulliau buddsoddi amrywiol sy'n cynnwys unrhyw un o'r mathau o fuddsoddiadau a restrwyd uchod, ynghyd â chyfranddaliadau ecwiti ac eiddo. Y fantais i'r rhain yw bod y risgiau buddsoddi wedi'u gwasgaru'n ehangach, a bod gwasanaethau rheolwr proffesiynol y gronfa ar gael drwy dalu ffi. Bydd Cronfeydd Marchnadoedd Arian tymor byr sy'n cynnig diddymu ar yr un diwrnod ac anweddolrwydd isel neu dim o gwbl yn cael eu defnyddio fel dewis amgen i gyfrifon banc lle ceir mynediad ar unwaith, tra bydd cronfeydd wedi'u cyfuno y mae eu gwerth yn newid yn ôl prisiau'r farchnad ac/neu a chanddynt gyfnod rhybudd yn cael eu defnyddio ar gyfer cyfnodau buddsoddi hirach.

Mae cronfeydd bondiau, ecwiti ac eiddo yn cynnig gwell enillion hirdymor, ond maent yn fwy anwadal yn y tymor byr. Mae'r rhain yn caniatáu i'r Awdurdod ehangu i ddosbarthiadau o asedau heblaw am arian parod heb yr angen i fod yn berchen ar y buddsoddiadau gwaelodol a'u rheoli. Gan nad oes dyddiad aeddfedu pendant ar gyfer y cronfeydd hyn, maent ar gael i'w tynnu allan ar ôl cyfnod o rybudd, bydd eu perfformiad a'u haddasrwydd i gwrdd ag amcanion buddsoddi'r Awdurdod yn cael eu monitro'n gyson.

5.12 **Cronfa Benthyciadau Lleol**

Mae'r Cyngor wedi sefydlu Cronfa Benthyciadau Lleol, fydd yn rhoi benthyciadau i fusnesau lleol. Mae'r buddsoddiadau hyn wedi'u cynnwys yn y tabl o Fuddsoddiadau Amhenodedig uchod, a byddant am gyfnod uchafswm o 10 mlynedd. Mae cyfanswm gwerth y gronfa ar gyfer buddsoddiadau o'r fath yn £3 miliwn. Ni fydd ceisiadau am fenthyciadau dan y cynllun hwn yn rhan o'r asesiad credyd arferol i ddibenion buddsoddiadau rheolaeth trysorlys, ond yn hytrach byddant yn cael eu hasesu gan ymgynghorwyr wedi'u penodi, a'r Panel Buddsoddi ar gyfer y cynllun fydd yn gwneud unrhyw benderfyniad i fenthyg yr arian.

5.13 **Asesu Risg a Statws Credyd**

Mae ymgynghorwyr trysorlys yr Awdurdod yn derbyn ac yn monitro'r graddfeydd credyd, a byddant yn hysbysu unrhyw newid yn y statws wrth iddynt ddigwydd. Pan fo statws credyd endid yn cael ei israddio, ac yn methu â diwallu'r meini prawf ar gyfer buddsoddi:

- ni wneir unrhyw fuddsoddiadau newydd;
- bydd unrhyw fuddsoddiadau presennol yn cael eu hadalw neu eu gwerthu os gellir gwneud hynny heb unrhyw gost, a
- rhoddir ystyriaeth lawn i adalw neu werthu'r holl fuddsoddiadau presennol eraill gyda'r gwrthbarti a effeithiwyd.

Pan fo asiantaeth sy'n graddio credyd yn cyhoeddi bod statws credyd rhyw sefydliad yn cael ei adolygu er mwyn ei israddio o bosib (gelwir hyn hefyd yn "*rating watch negative*" neu "*credit watch negative*") fel y gall ddisgyn islaw'r meini prawf cymeradwy ar gyfer y statws credyd, yna dim ond buddsoddiadau y gellir eu tynnu allan ar y diwrnod gwaith nesaf fydd yn cael eu gwneud gyda'r sefydliad hwnnw hyd nes y cyhoeddir canlyniad yr adolygiad. Ni fydd y polisi hwn yn berthnasol i ragolygon negatif, sy'n awgrymu newid cyfeiriad yn yr hir dymor yn hytrach na newid statws credyd ar unwaith.

5.14 **Gwybodaeth Arall ar Ddiogelwch Buddsoddiadau**

Mae'r Awdurdod yn deall bod graddau statws credyd yn broffwydi da, ond nid perffaith, ar gyfer buddsoddiadau'n diffygdalu. Rhoddir ystyriaeth lawn felly i wybodaeth arall sydd ar gael ar ansawdd credyd y sefydliadau y mae'n buddsoddi ynddynt, gan gynnwys prisiau cyfenwid diffygion credyd, datganiadau ariannol, gwybodaeth ar gymorth posib gan y llywodraeth ac adroddiadau yn y wasg ariannol. Ni wneir unrhyw fuddsoddiadau gyda sefydliad os oes amheuon cadarn ynghylch ei ansawdd credyd, hyd yn oed os yw'n cwrdd â'r meini prawf statws credyd.

Pan fo amodau'n dirywio yn y farchnad ariannol ac yn effeithio ar ansawdd credyd yr holl sefydliadau, fel a ddigwyddodd yn 2008 ac yn 2011, nid yw'r elfen hon ar y cyfan yn cael ei hadlewyrchu mewn graddau statws credyd, ond gellir ei gweld mewn mesurau marchnad eraill. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd yr Awdurdod yn cyfyngu ei fuddsoddiadau i'r sefydliadau hynny a chanddynt ansawdd credyd uwch, ac yn lleihau ar gyfnod hiraf ei fuddsoddiadau er mwyn cynnal y lefel diogelwch angenrheidiol. Bydd graddau'r cyfyngiadau hyn yn unol â'r amodau presennol yn y farchnad ariannol. Os yw'r cyfyngiadau hyn yn golygu nad oes digon o sefydliadau masnachol o ansawdd credyd uchel ar gael i fuddsoddi balansau arian yr Awdurdod, yna caiff yr arian dros ben ei adneuo gyda Llywodraeth y DU, trwy'r Swyddfa Rheoli Dyledion er enghraifft, neu gydag awdurdodau lleol eraill. Bydd hyn yn peri gostyngiad yn lefel yr incwm a geir ar fuddsoddiadau, ond bydd yn diogelu'r prif swm a fuddsoddwyd.

5.15 **Buddsoddiadau Penodedig**

Mae Canllaw LlC yn diffinio buddsoddiadau penodedig fel rhai:

- sydd ar ffurf punnoedd sterling,
- sy'n ddyledus i gael eu had-dalu o fewn 12 mis o'r trefniant,
- na chânt eu diffinio fel gwariant cyfalaf yn ôl y ddeddfwriaeth, a
- rhai a fuddsoddwyd gydag un o'r canlynol:
  - Llywodraeth y DU,
  - awdurdod lleol, cyngor plwyf neu gyngor cymuned yn y DU, neu
  - gyda chorff neu gynllun buddsoddi o "ansawdd credyd uchel".

Mae'r Awdurdod yn diffinio sefydliadau sydd ag "ansawdd credyd uchel" fel y rheini sydd â statws credyd o A- neu uwch, sy'n preswylio yn y DU neu mewn gwlad dramor sydd â statws sofran o AA+ neu uwch. Ar gyfer cronfeydd marchnad arian a chronfeydd cyfunedig eraill diffinnir "ansawdd credyd uchel" fel y rhai sydd gyda chyfradd credyd A- neu uwch.

5.16 **Buddsoddiadau Amhenodedig**
Mae unrhyw fuddsoddiad nad yw'n bodloni'r diffiniad ar gyfer buddsoddiad penodedig yn cael ei gategoreiddio fel buddsoddiad amhenodedig. Nid yw'r Awdurdod yn bwriadu gwneud unrhyw fuddsoddiadau mewn arian gwlad tramor. Bydd buddsoddiadau amhenodedig felly'n gyfyngedig i fuddsoddiadau tymor hir h.y. y rheini sydd i fod i aeddfedu 12 mis neu hwy ar ôl dyddiad y trefniant; y rheini gaiff eu diffinio fel gwariant cyfalaf yn ôl y ddeddfwriaeth, megis cyfranddaliadau mewn cronfeydd marchnad arian a chronfeydd cyfunedig eraill; a buddsoddiadau gyda chyrff a rhaglenni nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o ansawdd credyd uchel. Mae'r cyfyngiadau ar fuddsoddiadau amhenodedig i'w gweld yn nhabl 3 isod.

**Tabl 3: Cyfyngiadau ar Fuddsoddiadau Amhenodedig**

| | **Cyfyngiad arian** |
|---|---|
| Cyfanswm buddsoddiadau tymor hir | £40m |
| Cyfanswm y cyfranddaliadau mewn Cronfeydd Marchnad Arian | £40m |
| Cyfanswm y cyfranddaliadau mewn cronfeydd cyfunedig | £8m |
| Cyfanswm y buddsoddiadau heb statws credyd neu gyda statws sy'n is na [A-] | £8m |
| Cyfanswm y buddsoddiadau (heblaw cronfeydd cyfunedig) mewn gwledydd tramor sydd â statws sy'n is na [AA+] | £8m |
| Cyfanswm y buddsoddiadau amhenodedig | £80m |

5.17 **Cyfyngiadau Buddsoddi**
Rhagwelir y bydd cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod ac arian y Gronfa Bensiwn sydd ar gael i gyfarch colledion ar fuddsoddiadau yn £56 miliwn ar 31 Mawrth 2016. Er mwyn sicrhau na fydd mwy na 15% o'r cronfeydd wrth gefn sydd ar gael yn cael eu rhoi mewn perygl pe bai un buddsoddiad sengl yn diffygdalu, yr uchafswm fydd yn cael ei fenthyg i unrhyw sefydliad unigol (ar wahân i Lywodraeth y DU) fydd £8 miliwn. Bydd grŵp o fanciau dan yr un berchnogaeth neu grŵp o gronfeydd dan yr un rheolwyr yn cael eu trin fel sefydliad unigol er dibenion cyfyngiadau. Rhoddir cyfyngiadau hefyd ar fuddsoddiadau yng nghyfrifon enwebedig broceriaid (e.e. King & Shaxson), gwledydd tramor a sectorau diwydiant fel a ganlyn. Nid yw buddsoddiadau mewn cronfeydd cyfunedig a banciau datblygu amlochrog yn cyfri yn erbyn cyfyngiad i unrhyw gwlad tramor unigol, gan bod y risg wedi ei amryfalu dros nifer o wledydd.

**Tabl 4: Cyfyngiadau Buddsoddi**

| | **Cyfyngiad arian** |
|---|---|
| Unrhyw sefydliad unigol, ar wahân i Lywodraeth y DU | £8m yr un |
| Llywodraeth Ganolog y DU | anghyfyngedig |
| Unrhyw grŵp o sefydliadau dan yr un berchnogaeth | £8m fesul grŵp |
| Unrhyw grŵp o gronfeydd cyfunedig dan yr un rheolwyr | £20m fesul rheolwr |
| Offerynnau y mae'n bosib eu cyfnewid a ddelir yng nghyfrif enwebedig brocer | £40m fesul brocer |
| Gwledydd tramor | £8m fesul gwlad |
| Darparwyr Cofrestredig | Cyfanswm o £20m |
| Buddsoddiadau Ansicredig gyda Chymdeithasau Adeiladu | Cyfanswm o £8m |
| Benthyciadau i fusnesau bach | Cyfanswm o £8m |
| Cronfeydd Marchnad Arian | Cyfanswm o £40m |

5.18 **Rheoli hylifedd**

Mae'r Awdurdod yn defnyddio technegau rhagolwg darbodus ar gyfer llif arian er mwyn pennu'r cyfnod hwyaf y gellir ymrwymo cronfeydd yn ddarbodus.

## 6. Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys

Mae'r Awdurdod yn mesur ac yn rheoli pa mor agored ydyw i risgiau rheolaeth trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion a ganlyn.

### 6.1 Diogelwch

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg credyd trwy fonitro sgôr credyd cyfartalog yn ôl cyfran amser ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo trwy roi sgôr i bob buddsoddiad (AAA=1, AA+=2, ac ati) a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, gan bwyso'r cyfartaledd yn ôl maint pob buddsoddiad. Neilltuir sgôr ar gyfer buddsoddiadau heb eu graddio yn seiliedig ar eu risg canfyddedig.

| | **Targed** |
|---|---|
| Sgôr credyd cyfartalog y portffolio | 6.0 |

6.2 **Hylifedd**

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei sensitifrwydd i risg hylifedd trwy fonitro faint o arian sydd ar gael i gwrdd â thaliadau annisgwyl mewn cyfnod penodol, heb fenthyca ychwanegol.

| | **Target** |
|---|---|
| Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis | £10m |

6.3 **Risg Cyfraddau Llôg**

Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Awdurdod i risg cyfraddau llôg. Bydd y terfynau uchaf ar risgiau cyfraddau llôg sefydlog a chyfnewidiol, a fynegir fel cyfran o'r prif swm net a fenthyciwyd, fel a ganlyn:

| | **2016/17** | **2017/18** | **2018/19** |
|---|---|---|---|
| Y terfyn uchaf ar gyfer cyfraddau llôg sefydlog | 100% | 100% | 100% |
| Y terfyn uchaf ar gyfer cyfraddau llôg cyfnewidiol | 50% | 50% | 50% |

Buddsoddiadau a benthyciadau cyfradd sefydlog yw'r rhai gyda cyfradd llôg sefydlog am o leiaf 12 mis, wedi ei mesur o ddechrau'r flwyddyn ariannol neu dyddiad y trafodyn os yn hwyrach. Mae unrhyw offerynnau eraill yn cael eu categoreiddio fel rhai cyfradd gyfnewidiol.

6.4 **Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau**

Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Awdurdod i risg ail gyllido. Bydd y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau cyfradd sefydlog fel a ganlyn:

| | **Uchaf** | **Isaf** |
|---|---|---|
| Dan 12 mis | 25% | 0% |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 25% | 0% |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 50% | 0% |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 75% | 0% |
| 10 mlynedd ac o fewn 20 mlynedd | 100% | 0% |
| 20 mlynedd ac o fewn 30 mlynedd | 100% | 0% |
| 30 mlynedd ac o fewn 40 mlynedd | 100% | 0% |
| 40 mlynedd ac o fewn 50 mlynedd | 100% | 0% |
| 50 mlynedd a mwy | 100% | 0% |

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedrwydd ar fenthyciadau yw'r dyddiad cynharaf y gall y sawl sydd wedi rhoi'r benthyciad fynnu bod y benthyciad yn cael ei ad-dalu.

6.5 **Prif Symiau a Fuddsoddir am Gyfnodau sy'n Hwy na 364 diwrnod**
Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Awdurdod i'r risg o fynd i golledion trwy geisio ad-daliadau buan ar ei fuddsoddiadau. Bydd y terfynau ar gyfanswm y prif swm tymor hir a fuddsoddir i aeddfedu'n derfynol tu hwnt i ddiwedd y cyfnod fel a ganlyn:

| | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|
| Y terfyn ar y prif swm a fuddsoddwyd tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn | £40m | £20m | £10m |

**7. Eitemau Eraill**

7.1 Mae nifer o eitemau ychwanegol y mae'n rhaid i'r Awdurdod eu cynnwys yn ei Strategaeth Rheolaeth Trysorlys, yn ôl CIPFA neu Lywodraeth Cymru.

7.2 **Polisi ar Ddefnyddio Cytundebau Deilliadau**
Yn absenoldeb unrhyw rym cyfreithiol i wneud hynny, ni fydd yr Awdurdod yn defnyddio cytundebau ariannol annibynnol (megis cytundeb cyfenwid, cytundeb ymlaen, cytundeb dyfodol a chytundeb opsiwn). Mae'n bosib y bydd cytundebau sydd wedi'u hymgorffori mewn benthyciadau a buddsoddiadau, gan gynnwys cronfeydd wedi eu cyfuno a thrafodion sy'n dechrau yn y dyfodol, yn cael eu defnyddio, a bydd y risgiau sydd ynghlwm â hwy yn cael eu monitro yn unol â'r risg cyffredinol i'r strategaeth rheolaeth trysorlys.

7.3 **Hyfforddiant Buddsoddi**
Caiff anghenion staff rheolaeth trysorlys yr Awdurdod am hyfforddiant mewn rheolaeth buddsoddi eu hasesu bob blwyddyn fel rhan o'r broses gwerthuso staff, ac yn ychwanegol i hynny pan fydd cyfrifoldebau aelodau staff unigol yn newid.

Mae staff yn mynychu cyrsiau hyfforddi, seminarau a chynadleddau a ddarperir gan Arlingclose a CIPFA yn rheolaidd. Caiff staff perthnasol eu hannog hefyd i astudio cymwysterau proffesiynol gan CIPFA a sefydliadau priodol eraill.

7.4 **Ymgynghorwyr Buddsoddi**
Mae'r Awdurdod wedi penodi Arlingclose Limited fel ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys ac mae'n derbyn cyngor penodol ar faterion buddsoddi, dyledion a chyllid cyfalaf. Mae ansawdd y gwasanaeth hwn yn cael ei fonitro gan Bennaeth yr Adran Gyllid a'r Rheolwr Buddsoddi yn rheolaidd.

7.5 **Buddsoddi Arian a Fenthyciwyd cyn i'r Angen Godi**
O bryd i'w gilydd, hwyrach y bydd yr Awdurdod yn benthyca arian cyn i'r angen godi, pan ddisgwylir mai hyn fydd yn rhoi'r gwerth am arian gorau yn y tymor hir. Gan y bydd y symiau a fenthycir yn cael eu buddsoddi hyd nes caiff yr arian ei wario, mae'r Awdurdod yn ymwybodol y bydd yn agored i'r risg o golli'r symiau a fenthyciwyd, a'r risg y bydd cyfraddau llog ar fuddsoddiadau a benthyciadau yn newid yn y cyfamser. Bydd y risgiau hyn yn cael eu rheoli fel rhan o reolaeth gyffredinol yr Awdurdod o'i risgiau trysorlys.

Ni fydd y cyfanswm a fenthycir yn uwch na'r terfyn benthyca awdurdodedig o £195 miliwn. Disgwylir mai dwy flynedd fydd y cyfnod mwyaf rhwng benthyca a gwario'r arian, serch hyn, nid oes gofyn i'r Awdurdod gysylltu benthyciadau penodol gydag eitemau gwariant penodol.

**8. Goblygiadau Ariannol**

Y gyllideb ar gyfer yr incwm buddsoddi yn 2016/17 yw £0.44 miliwn, yn seiliedig ar gyfartaledd portffolio buddsoddi o £70.5 miliwn ar gyfradd llog o 0.63%. Y gyllideb ar gyfer y llog ar ddyledion yn 2016/17 yw £6.4 miliwn, yn seiliedig ar gyfartaledd portffolio dyledion o £109.6 miliwn ar gyfradd llog o 5.70%. Os bydd lefelau gwirioneddol y buddsoddiadau a'r benthyciadau a'r cyfraddau llog yn wahanol i'r rhagolygon, yna bydd gwahaniaeth cyfatebol yn y perfformiad yn erbyn y gyllideb.

**9. Ystyried Opsiynau Eraill**

Nid yw Canllawiau Llywodraeth Cymru na Chod CIPFA yn pennu unrhyw strategaeth rheoli trysorlys penodol i'w fabwysiadu gan awdurdodau lleol. Ar ôl ymgynghori gyda'r Aelod Cabinet Adnoddau, mae'r Pennaeth Cyllid yn credu fod y strategaeth uchod yn cynnig cydbwysedd addas rhwng rheoli risgiau a chost-effeithiolrwydd. Isod, rhestrir rhai strategaethau eraill, ynghyd â'u hoblygiadau o ran rheoli risgiau.

| Dewis Arall | Effaith ar incwm a gwariant | Effaith ar reoli risgiau |
|---|---|---|
| Buddsoddi mewn amrediad mwy cyfyng o wrthbartïon ac/neu am gyfnod byrrach | Bydd incwm ar y llôg yn is | Llai o berygl o golledion o ganlyniad i ddiffygdalu'n ymwneud â chredyd, er byddai unrhyw golledion yn fwy |
| Buddsoddi mewn amrediad ehangach o wrthbartïon ac/neu am gyfnod hirach | Bydd incwm ar y llôg yn uwch | Mwy o risg o golledion o ganlyniad i ddiffygdalu'n ymwneud â chredyd, er byddai unrhyw golledion yn llai |
| Benthyca symiau ychwanegol ar gyfraddau llôg sefydlog hirdymor | Bydd costau llôg dyledion yn codi; mae'n annhebygol y gellid gwrthbwyso hyn drwy incwm buddsoddi uwch | Balans buddsoddi uwch yn arwain at fwy o effaith petai ddiffygdalu; fodd bynnag byddai'r costau llôg hirdymor yn fwy sicr |
| Benthyciadau byr-dymor newidiol yn hytrach na chyfraddau hirdymor sefydlog | Bydd costau llôg dyledion yn is i gychwyn | Bydd y cynnydd yn y costau llôg ar ddyledion yn cael eu gwrthbwyso i raddau helaeth gan y cynnydd yn yr incwm buddsoddi yn y tymor canolig, ond bydd mwy o ansicrwydd am y costau hirdymor |
| Lleihau lefel y benthyciadau | Mae'r arbediad ar lôg y ddyled yn debygol o fod yn fwy na'r incwm buddsoddi a gollir<br><br>Gallai'r premiymau uchel am ad-dalu'r ddyled fod yn uwch nag unrhyw arbedion | Balans buddsoddi is yn arwain at lai o effaith petai diffygdalu; fodd bynnag byddai'r costau llôg hirdymor yn llai sicr |

**Atodiad A – Rhagolygon Economaidd a Chyfraddau Llog Arlingclose, Ionawr 2015**

**Rhagdybiaethau sylfaenol:**

- Meddalu fu hanes twf economaidd y DU yn Ch3 2015 ond bu iddo barhau'n gymharol gadarn; yr amcan cyntaf ar gyfer y chwarter oed 0.5% a syrthiodd twf flwyddyn ar ôl blwyddyn rhyw fymryn i 2.3%. Cafodd deilliant negyddol mewn adeiladu ei osod yn erbyn deilliant cymharol gryf mewn gwasanaethau, fodd bynnag, mae'r rhagolygon yn awgrymu y gallai pethau wella yn y maes adeiladu yn y dyfodol.
- Gwariant aelwydydd sydd wedi gweithredu fel prif yrrwr twf mewn GDP yn ystod 2014 a 2015 ac mae'n parhau'n allweddol i dwf. Bydd treuliant yn parhau i gael ei gefnogi gan dwf mewn cyflogau real ac incwm gwario.
- Yn y tri mis hyd Awst, bu i enillion cyfartalog (yn cynnwys enillion bonws) gynyddu 3.0%. O ystyried y lefel chwyddiant isel, mae gwir enillion a thwf incwm yn parhau ar lefelau cymharol gryf ac fe allai hyn fwydo'n uniongyrchol at gostau uned llafur ac incwm gwario aelwydydd. Gallai gwella twf cynhyrchedd gefnogi'r twf mewn cyflogau yn y tymor canolig. Un o'r ffactorau sy'n cael eu monitro'n ofalus gan yr MPC yw datblygiad twf cyflogau.
- Mae dangosyddion buddsoddi busnes yn parhau i roi awgrym o dwf cryf. Fodd bynnag, efallai y bydd y rhagolygon ar gyfer buddsoddiadau busnes yn cael eu heffeithio yn sgil refferendwm yr UE sydd ar y gweill, gan gynyddu'r ansicrwydd sy'n bodoli ynghylch twf byd-eang a'r digwyddiadau annisgwyl diweddar yn y farchnad ariannol.
- Mae chwyddiant yn hynod isel ar hyn o bryd, a chyda gostyngiad arall mewn prisiau nwyddau, mae'n debygol y bydd hyn yn parhau dros y 12 mis nesaf. Mae'n debygol y bydd y gyfradd CPI yn cynyddu tua diwedd 2016.
- Mae twf China wedi arafu ac mae economi'r wlad yn perfformio'n is na'r disgwyl; yn ei dro bydd hyn yn effeithio ar y gweithgarwch mewn gwledydd sydd â chyswllt economaidd agos â China; bydd yr arafwch a'r gwendid yn y farchnad yn lleihau'r galw am ei nwyddau. Bydd ymyriadau eraill yn dilyn dadbrisiad diweddar China yn cadw sterling yn gryf yn erbyn sawl arian arall ac yn gwasgu ar chwyddiant mewnforio.
- Mae data marchnad lafur yr UD a dangosyddion economaidd yn awgrymu nad yw'r cynni byd-eang diweddar wedi effeithio ar adferiad America. Roedd cynnydd cyfraddau llog swyddogol gan y Gronfa Ffederal i 0.5% ym mis Rhagfyr 2015.
- Bydd cyfraddau mwy hirdymor yn cael eu heffeithio gan ansicrwydd rhyngwladol a phwysau chwyddiant byd-eang gwannach.

**Rhagolygon:**

- Mae Arlingclose yn rhagweld y gwelir y cynnydd cyntaf yng Nghyfradd Banc y DU yn Ch3 2016. Mae gwendid pellach mewn chwyddiant, a disgwyliadau'r MPC ar ei gyfer, yn awgrymu na fydd polisïau'n cael eu tynhau hyd nes ail hanner y flwyddyn. Mae risgiau'n parhau ar yr ochr negyddol. Mae Arlingclose yn rhagweld cynnydd araf yn y Gyfradd Banc, ac y bydd y lefel briodol yn is na'r norm blaenorol ac y bydd rhwng 2% a 3%.
- Rydym yn rhagweld y bydd enillion gilt yn dilyn llwybr bas am i fyny yn y tymor canolig, oherwydd pryderon parhaus am Ardal yr Ewro, marchnadoedd sydd ar ddyfod a digwyddiadau daear-wleidyddol eraill, gan bwyso i mewn ar beryglon, tra bod disgwyliadau chwyddiant yn parhau'n isel.

- Mae’n debyg y bydd yr ansicrwydd yn ymwneud ag amseriad cynnydd yng nghyfraddau llog y DU a’r UDA, a'r gwendid mewn twf byd-eang, yn ysgogi anweddolrwydd byrdymor mewn enillion gilt.

| | Dec-15 | Mar-16 | Jun-16 | Sep-16 | Dec-16 | Mar-17 | Jun-17 | Sep-17 | Dec-17 | Mar-18 | Jun-18 | Sep-18 | Dec-18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Official Bank Rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 |
| Arlingclose Central Case | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 1.00 | 1.00 | 1.25 | 1.25 | 1.50 | 1.50 | 1.75 | 1.75 |
| Downside risk | | | | -0.25 | -0.25 | -0.50 | -0.50 | -0.75 | -0.75 | -1.00 | -1.00 | -1.25 | -1.25 |
| 3-month LIBID rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.20 | 0.30 | 0.30 | 0.30 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 |
| Arlingclose Central Case | 0.55 | 0.60 | 0.70 | 0.80 | 0.95 | 1.05 | 1.15 | 1.30 | 1.40 | 1.55 | 1.65 | 1.80 | 1.85 |
| Downside risk | | -0.20 | -0.30 | -0.45 | -0.55 | -0.65 | -0.80 | -0.90 | -1.05 | -1.10 | -1.20 | -1.20 | -1.20 |
| 1-yr LIBID rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.25 | 0.35 | 0.35 | 0.35 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.40 | 0.45 | 0.45 | 0.45 | 0.45 | 0.45 |
| Arlingclose Central Case | 1.10 | 1.20 | 1.35 | 1.45 | 1.55 | 1.70 | 1.80 | 1.95 | 2.00 | 2.10 | 2.15 | 2.15 | 2.15 |
| Downside risk | -0.15 | -0.25 | -0.35 | -0.50 | -0.60 | -0.70 | -0.85 | -0.95 | -1.10 | -1.15 | -1.25 | -1.25 | -1.25 |
| 5-yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.40 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 |
| Arlingclose Central Case | 1.50 | 1.55 | 1.60 | 1.70 | 1.80 | 1.90 | 2.00 | 2.10 | 2.20 | 2.25 | 2.30 | 2.35 | 2.35 |
| Downside risk | -0.35 | -0.45 | -0.55 | -0.60 | -0.70 | -0.80 | -0.90 | -1.00 | -1.10 | -1.15 | -1.20 | -1.25 | -1.25 |
| 10-yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.40 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 |
| Arlingclose Central Case | 2.00 | 2.05 | 2.10 | 2.20 | 2.30 | 2.40 | 2.50 | 2.60 | 2.65 | 2.70 | 2.75 | 2.80 | 2.80 |
| Downside risk | -0.35 | -0.45 | -0.55 | -0.60 | -0.70 | -0.80 | -0.90 | -1.00 | -1.10 | -1.15 | -1.20 | -1.25 | -1.25 |
| 20-yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.40 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 |
| Arlingclose Central Case | 2.45 | 2.50 | 2.55 | 2.55 | 2.60 | 2.65 | 2.70 | 2.75 | 2.80 | 2.85 | 2.90 | 2.95 | 2.95 |
| Downside risk | -0.30 | -0.40 | -0.50 | -0.55 | -0.65 | -0.75 | -0.85 | -0.95 | -1.05 | -1.10 | -1.15 | -1.20 | -1.20 |
| 50-yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.40 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.55 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 | 0.60 |
| Arlingclose Central Case | 2.45 | 2.50 | 2.55 | 2.60 | 2.65 | 2.70 | 2.75 | 2.80 | 2.85 | 2.90 | 2.95 | 3.00 | 3.00 |
| Downside risk | -0.25 | -0.35 | -0.45 | -0.50 | -0.60 | -0.70 | -0.80 | -0.90 | -1.00 | -1.05 | -1.10 | -1.15 | -1.15 |

**Atodiad B – Sefyllfa Bresennol y Portffolio Buddsoddiadau a Dyledion**

| | **31.12.15**<br><br>**Portffolio Gwirioneddol**<br><br>**£m** | **9 mis i 31.12.15**<br><br>**Cyfradd Cyfartalog**<br><br>**%** |
|---|---|---|
| **Benthyca Allanol:**<br><br>PWLB – Cyfradd Sefydlog<br><br>Benthyciadau LOBO | <br><br>94.3<br><br>16.2 | <br><br>6.06<br><br>4.22 |
| **Cyfanswm Dyledion Allanol Gros** | **110.5** | **5.80** |
| **Buddsoddiadau:**<br><br>Buddsoddiadau tymor hir<br><br>Buddsoddiadau tymor byr | <br><br>2.2<br><br>53.3 | |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **55.5** | 0.70 |
| **Dyledion Net** | **55.0** | |

**Atodiad B – Dangosyddion Darbodus 2016/17**

## 1. Cefndir

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i'r Awdurdod roi ystyriaeth i'r Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (y Cod Darbodus) gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) wrth bennu faint o arian a all fforddio ei fenthyg. Amcanion y Cod Darbodus yw sicrhau, o fewn fframwaith clir, fod cynlluniau buddsoddi cyfalaf awdurdodau lleol yn fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaliadwy, ac y gwneir penderfyniadau rheolaeth trysorlys yn unol ag arfer broffesiynol dda. Er mwyn dangos bod yr Awdurdod wedi bodloni'r amcanion hyn, mae'r Cod Darbodus yn gosod y dangosyddion a ganlyn, ac mae'n rhaid eu gosod a'u monitro'n flynyddol.

## 2. Amcangyfrifon o Wariant Cyfalaf

Gellir crynhoi gwariant cyfalaf a chyllido'r Awdurdod fel a gynlluniwyd fel hyn.

| **Gwariant Cyfalaf a Chyllido** | **2015/16 Diwygiedig £'000** | **2016/17 Amcangyfrif £'000** | **2017/18 Amcangyfrif £'000** | **2018/19 Amcangyfrif £'000** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **38,604** | **27,736** | **17,006** | **10,940** |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1,528 | 659 | 835 | 115 |
| Grantiau'r Llywodraeth | 15,669 | 10,702 | 5,733 | 2,511 |
| Refeniw | 11,457 | 5,513 | 4,498 | 4,285 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 4,126 | 4,126 | 3,826 | 3,526 |
| Benthyca heb gefnogaeth | 5,824 | 6,736 | 2,114 | 503 |
| **Cyfanswm Cyllido** | **38,604** | **27,736** | **17,006** | **10,940** |

## 3. Amcangyfrifon o'r Gofyn Cyllido Cyfalaf

Mae'r Gofyn Cyllido Cyfalaf (CFR) yn mesur angen sylfaenol yr Awdurdod i fenthyca at ddibenion cyfalaf.

| **Gofyn Cyllido Cyfalaf** | **31.03.16 Diwygiedig £'000** | **31.03.17 Amcangyfrif £'000** | **31.03.18 Amcangyfrif £'000** | **31.03.19 Amcangyfrif £'000** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm CFR** | 178,384 | 182,183 | 180,378 | 177,006 |

Rhagwelir y bydd y CFR yn cynyddu o £1.994m dros y tair blynedd nesaf wrth i wariant cyfalaf a ariennir trwy ddyled gynyddu'n uwch na'r adnoddau a roddwyd o'r neilltu i ad-dalu'r ddyled.

**4. Dyled Gros a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf**

Er mwyn sicrhau mai dim ond at ddibenion cyfalaf y bydd y ddyled dros y tymor canolig, dylai'r Awdurdod sicrhau nad yw'r ddyled, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyn cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol, ynghyd â'r amcangyfrifon ar gyfer unrhyw gynnydd ychwanegol yn y gofyn cyllido cyfalaf ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Mae hwn yn ddangosydd allweddol o ba mor ddarbodus yw rhywbeth.

| **Dyled** | **31.03.16 Diwygiedig £'000** | **31.03.17 Amcangyfrif £'000** | **31.03.18 Amcangyfrif £'000** | **31.03.19 Amcangyfrif £'000** |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 111,467 | 109,545 | 106,389 | 106,389 |
| Lesoedd cyllid | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rhwymedigaethau PFI | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Dyledion** | 111,467 | 109,545 | 106,389 | 106,389 |

Disgwylir y bydd cyfanswm y ddyled yn aros islaw'r CFR yn ystod y cyfnod rhagweld.

**5. Ffin Weithredol ar gyfer Dyledion Allanol**

Mae'r ffin weithredol yn seiliedig ar amcangyfrif yr Awdurdod o'r sefyllfa fwyaf tebygol h.y. darbodus, ar gyfer dyledion allanol, yn hytrach na'r sefyllfa waethaf bosib. Mae'n cysylltu'n uniongyrchol ag amcangyfrifon yr Awdurdod o wariant cyfalaf, y gofyn cyllido cyfalaf a gofynion llif arian, ac mae'n declyn rheoli allweddol ar gyfer monitro trwy gydol y flwyddyn. Mae rhwymedigaethau eraill tymor hir yn cynnwys lesoedd cyllid, Menter Gyllid Breifat a rhwymedigaethau eraill nad ydynt yn fenthyca ond sy'n ffurfio rhan o ddyled yr Awdurdod.

| **Ffin Weithredol** | **2015/16 Diwygiedig £'000** | **2016/17 Amcangyfrif £m** | **2017/18 Amcangyfrif £m** | **2018/19 Amcangyfrif £m** |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 180,000 | 180,000 | 190,000 | 190,000 |
| Rhwymedigaethau tymor hir eraill | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Dyledion** | **180,000** | **180,000** | **190,000** | **190,000** |

**6. Y Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyledion Allanol**

Y terfyn awdurdodedig yw'r terfyn benthyca fforddiadwy a bennir yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2003. Dyma'r uchafswm all yr Awdurdod fod mewn dyled yn

gyfreithiol. Mae'r terfyn awdurdodedig yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol uwchlaw'r ffin weithredol ar gyfer symudiadau arian anarferol.

| **Y Terfyn Awdurdodedig** | **2015/16 Diwygiedig £'000** | **2016/17 Amcangyfrif £m** | **2017/18 Amcangyfrif £m** | **2018/19 Amcangyfrif £m** |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 190,000 | 190,000 | 200,000 | 200,000 |
| Rhwymedigaethau tymor hir eraill | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Dyledion** | **190,000** | **190,000** | **200,000** | **200,000** |

**7. Cymhareb Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net**

Dangosydd o fforddiadwyedd yw hwn, ac mae'n amlygu'r goblygiadau refeniw ar gyfer gwariant cyfalaf presennol ac arfaethedig trwy adnabod cyfran y gyllideb refeniw sydd ei hangen i gwrdd â chostau cyllido net o'r incwm buddsoddi.

| **Cymhareb Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net** | **2015/16 Diwygiedig %** | **2016/17 Amcangyfrif %** | **2017/18 Amcangyfrif %** | **2018/19 Amcangyfrif %** |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol | **5.88** | **5.91** | **5.60** | **5.47** |

**8. Effaith Gynyddol Penderfyniadau ynghylch Buddsoddiadau Cyfalaf**

Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â fforddiadwyedd ac mae'n dangos effaith penderfyniadau ynghylch buddsoddi cyfalaf ar lefelau'r Dreth Gyngor. Yr effaith gynyddol (*incremental impact*) yw'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm gofyn cyllideb refeniw y rhaglen gyfalaf gymeradwy bresennol a'r gofyn cyllideb refeniw sy'n deillio o'r rhaglen gyfalaf arfaethedig.

| **Effaith Gynyddol Penderfyniadau ynghylch Buddsoddiadau Cyfalaf** | **2016/17 Amcangyfrif £** | **2017/18 Amcangyfrif £** | **2018/19 Amcangyfrif £** |
|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol – cynnydd mewn Treth Gyngor band D blynyddol | **0** | 0 | 0 |

**9. Mabwysiadu Cod Rheolaeth Trysorlys CIPFA**

Fe wnaeth yr Awdurdod fabwysiadu *Cod Ymarfer (Rhifyn 11): Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus* CIPFA yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 3 Mawrth 2011.

**Atodiad C – Datganiad Darpariaeth Lleiafswm Refeniw Blynyddol 2016/17**

Pan fo'r Awdurdod yn ariannu gwariant cyfalaf trwy ddyled, rhaid iddo roi adnoddau o'r neilltu er mwyn ad-dalu'r ddyled yn ddiweddarach. Mae'r swm gaiff ei godi ar y gyllideb refeniw ar gyfer ad-dalu'r ddyled yn cael ei adnabod fel y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (MRP), er nad oes lleiafswm statudol wedi bod ers 2008. Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i'r Awdurdod roi ystyriaeth i Ganllaw Llywodraeth Cymru ar y Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (Canllaw LlC) a gyhoeddwyd ddiwethaf yn 2010.

Nod cyffredinol Canllaw LlC yw sicrhau y caiff y ddyled ei had-dalu dros gyfnod sydd naill ai'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod y mae'r gwariant cyfalaf yn darparu buddion ynddo, neu, yn achos benthyca gaiff ei gefnogi gan Grant Cynnal Refeniw'r Llywodraeth, dros gyfnod sy'n cyfateb yn rhesymol i'r cyfnod sydd dan sylw wrth bennu'r grant.

Mae Canllaw LlC yn gofyn i'r Awdurdod gymeradwyo Datganiad MRP Blynyddol bob blwyddyn, ac yn argymell nifer o opsiynau ar gyfer cyfrifo swm darbodus o MRP. Mae'r datganiad a ganlyn yn ymgorffori opsiynau a argymhellir yn y Canllaw yn ogystal â dulliau darbodus a benderfynwyd yn lleol.

> Ar gyfer gwariant cyfalaf a wnaed cyn 1 Ebrill 2008, ac ar gyfer gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi a wnaed ar y dyddiad hwnnw neu wedi hynny, caiff yr MRP ei bennu yn unol â'r rheoliadau blaenorol oedd yn berthnasol ar 31 Mawrth 2008.
>
> Ar gyfer gwariant cyfalaf heb ei gefnogi a wnaed ar ôl 31 Mawrth 2008, caiff yr MRP ei bennu trwy godi'r gwariant dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr asedau perthnasol mewn taliadau hafal yn cychwyn yn y flwyddyn ar ôl i'r ased ddod yn weithredol. Caiff MRP ar dir rhydd-ddaliadol a brynir ei godi dros 50 mlynedd. Caiff MRP ar wariant nad yw'n perthyn i asedau sefydlog ond sydd yn wariant cyfalaf yn ôl rheoliadau neu gyfarwyddiadau ei godi dros 20 mlynedd.
>
> Ar gyfer asedau a geir trwy lesoedd cyllid neu'r Fenter Gyllid Preifat, pennir bod yr MRP yn hafal i'r elfen o rent neu ffi gaiff ei hysgrifennu'n erbyn y rhwymedigaeth ar y fantolen.
>
> Pan wneir benthyciadau i gyrff eraill ar gyfer eu gwariant cyfalaf, ni chodir MRP. Fodd bynnag, bydd y derbyniadau cyfalaf a grëir gan yr ad-daliadau blynyddol ar y benthyciadau hynny yn cael eu rhoi o'r neilltu i ad-dalu dyledion.
>
> Ni fydd gwariant cyfalaf a wneir yn ystod 2016/17 yn destun ffi MRP hyd nes 2017/18.

Yn seiliedig ar amcangyfrif yr Awdurdod o'i Ofyn Cyllido Cyfalaf ar 31 Mawrth 2016, mae'r gyllideb ar gyfer MRP wedi'i osod ar £5.47m.

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **11 CHWEFROR 2016** |
| TEITL | **HAWLIADAU YSWIRIANT YN ERBYN Y CYNGOR** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **RHOI CYFLE I'R PWYLLGOR ARCHWILIO GRAFFU TREFNIADAU'R CYNGOR AR GYFER DELIO Â HAWLIADAU YSWIRIANT** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR REFENIW A RISG** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Ymddangosodd erthyglau yn y wasg yn ddiweddar yn rhoi sylw penodol i hawliadau yswiriant llwyddiannus (Atebolrwydd Cyhoeddus ac Atebolrwydd Cyflogwr) yn erbyn Cyngor Gwynedd.

1.2 Roedd rhai o'r penawdau hyn yn hynod o drawiadol, megis:

"Gwynedd Council's £13,000 compensation payout for 'hands stinging after doing washing up'" (*Daily Post, 21 Ionawr 2016*)

"Council pays out hundreds of thousands in compensation claims. Gwynedd Council has spent hundreds of thousands of pounds in compensation on several curious claims." (*Cambrian News, 26 Ionawr 2016*)

1.3 Y Pwyllgor Archwilio sy'n gyfrifol am ddelio â materion yn ymwneud â risg, ac mae ymdrin â hawliadau yswiriant yn rhan o hynny. Felly, er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau fel "y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu", mae angen i'r Pwyllgor Archwilio:

- **Dderbyn yr adroddiad yma sy'n egluro'r trefniadau o fewn Cyngor Gwynedd er mwyn delio gyda hawliadau yswiriant.**
- **Craffu'r drefn sydd yn ei le, er mwyn bod yn glir fod gan y Cyngor drefniadau yn eu lle er mwyn sicrhau fod taliadau yswiriant yn briodol.**

## 2. CEFNDIR

2.1 Ym Medi 2015, ysgrifennodd y grŵp ymgyrchu TaxPayers' Alliance at bob awdurdod lleol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn gofyn y canlynol:

> Yr wyf yn ysgrifennu i ofyn am wybodaeth ynghylch yr holl hawliadau am iawndal a wnaed yn erbyn yr awdurdod lleol yn 2013-14 a 2014-15.
>
> Yn benodol hoffwn yr wybodaeth wedi ei dorri i lawr fesul:
>
> (a) gwerth pob taliad neu setliad
>
> (b) Natur neu fanylion wedi ei grynhoi am bob hawliad
>
> Peidiwch â chynnwys unrhyw fanylion personol os gwelwch yn dda.

2.2 Gan fod rhai o'r cwestiynau hyn ychydig yn annelwig, ysgrifennwyd at y TaxPayers' Alliance yn gofyn iddynt am eglurhad am rai o'r cwestiynau. Mae'r cwestiynau hyn, a'r atebion a roddwyd, wedi eu rhestru isod:

> C: Ydych chi angen gwybodaeth yn ymwneud â difrod i eiddo a hawliadau anafiadau personol gan aelodau o'r cyhoedd? A: Ydym
>
> C: Ydych chi angen gwybodaeth yn ymwneud â hawliadau anafiadau personol gan staff? A: Ydym
>
> C: Ydych chi am wybodaeth sy'n ymwneud â hawliadau nad ydynt wedi bod yn llwyddiannus neu dim ond y rhai sydd wedi derbyn iawndal? A: Dim ond y rhai llwyddiannus
>
> C: Oes angen y wybodaeth ar gyfer hawliadau a gyflwynwyd yn 2013-14 a 2014-15, neu'r rheini sydd â dyddiad digwyddiad yn y blynyddoedd hynny? A: Hawliadau a setlwyd (yn llwyddiannus) yn y blynyddoedd hynny waeth pryd gododd y digwyddiad

2.3 Anfonwyd rhestr yn cynnwys hawliadau a setlwyd lle bu taliad.

2.4 Gwnaeth y TaxPayers' Alliance ddatganiad i'r wasg ar 21 Ionawr 2016 dan y pennawd "Bill for council compensation payments tops £100 million". Maent wedi nodi ar eu gwefan fod dros £104 miliwn wedi cael ei dalu mewn iawndal gan yr holl gynghorau perthnasol. Roedd yr wefan yn cynnwys dadansoddiad o wybodaeth a anfonwyd gan y gwahanol gynghorau, gan gynnwys cyfanswm o £483,378 gan Cyngor Gwynedd – £425,203 yn 2013/14 a £58,175 yn 2014/15.

2.5 Fodd bynnag, wrth i ni ddadansoddi'r canlyniadau daeth yn amlwg fod gwahanol gynghorau wedi dehongli'r cais am wybodaeth mewn ffyrdd gwahanol, tra bod eraill heb ateb o gwbl. Nid oedd y TaxPayers' Alliance wedi dehongli ffigyrau Cyngor Gwynedd yn gywir chwaith. **Gwir ffigyrau Cyngor Gwynedd yw £484,828 yn 2013/14 a £206,605 yn 2014/15**.

2.6 Dim ond rhan o'r costau yn ymwneud â hawliad yswiriant ydi'r iawndal ei hun, gan fod costau eraill megis costau cyfreithwyr. Nid swm yr iawndal yw'r ffigyrau a ddyfynnir uchod, ond holl gost yr achosion, boed hynny wedi ei dalu gan y Cyngor yn uniongyrchol neu gan ein yswirwyr. Mae'r erthyglau newyddion dilynol wedi camddeall hyn, gan ddatgan fod yr holl swm a nodir wedi cael ei dalu fel iawndal i'r dioddefwr, lle nad yw hyn yn gywir.

2.7 Mae'r ffigyrau a gyhoeddwyd ar gyfer Cyngor Gwynedd yn sylweddol uwch nag unrhyw gyngor arall yn y rhanbarth. Rydym yn argyhoeddedig fod gwahanol gynghorau wedi dehongli'r cais rhyddid gwybodaeth mewn ffyrdd gwahanol, ac yn sicr yn wahanol i Cyngor Gwynedd.

2.8 Nid yw'n rhesymol, felly, cymharu canlyniadau gwahanol gynghorau gan nad oes sicrwydd y byddwn yn cymharu tebyg gyda thebyg.

## 3. TREFNIADAU CYNGOR GWYNEDD O DDELIO Â HAWLADAU YSWIRIANT

3.1 Pwrpas yr Uned Yswiriant a Risg yw:

***Cefnogi adrannau'r Cyngor wrth iddynt asesu'r bygythiadau a chyfleon all eu hwynebu wrth ddarparu eu gwasanaethau a blaenoriaethu eu gweithgareddau ar sail yr asesiad. Amddiffyn buddiannau trethdalwyr drwy sicrhau trefniadau yswiriant priodol ac ymdrin â hawliadau***

3.2 Mae dau swyddog yn gweithio yn yr Uned, sef y Rheolwr Cydlynu Risg ac Yswiriant, a Swyddog Yswiriant

3.3 Fel y gwelir yn rhan 2 yr adroddiad yma, roedd y cais rhyddid gwybodaeth wedi ei gyfyngu i'r hawliadau oedd wedi eu setlo gyda chost. Nid oedd ddiddordeb yn llwyddiannau'r awdurdodau lleol wrth amddiffyn hawliadau yn eu herbyn.

3.4 Mae'r tabl sydd wedi ei gynnwys y Atodiad 1 yn cynnwys manylion yr holl hawliadau yswiriant a setlwyd yn 2013-14 a 2014-15. Yr hawliadau a welir yn yr Atodiad gyda'r statws "Setlwyd gyda cost", yw'r rhai a anfonwyd fel ymateb i'r cais rhyddid gwybodaeth.

3.5 O gofio pwrpas yr Uned, prif fesur perfformiad ein bod yn cyflawni ein pwrpas yw **Amddiffyn budd ariannol y trethdalwr: canran o hawliadau atebolrwydd cyhoeddus a wadwyd (setlwyd am £0)**.

3.6 Mae dadansoddiad o'r holl hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus ac Atebolrwydd Cyflogwr at setlwyd yn 2013-14 a 2014-15 yn dangos y canlynol:

**Atebolrwydd Cyhoeddus**

| | **2013/14** | **2014/15** |
|---|---|---|
| Nifer hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus wedi eu cau, gyda costau | 33 **(26%)** | 26 **(22.2%)** |
| Nifer hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus wedi cau, heb gostau | 94 **(74%)** | 91 **(77.8%)** |
| Cyfanswm nifer yr hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus wedi eu cau | 127 | 117 |

**Atebolrwydd Cyflogwr**

| | **2013/14** | **2014/15** |
|---|---|---|
| Nifer hawliadau Atebolrwydd Cyflogwr wedi eu cau, gyda costau | 5 **(55.6%)** | 3 **(43%)** |
| Nifer hawliadau Atebolrwydd Cyflogwr wedi cau, heb gostau | 4 **(44.4%)** | 4 **(57%)** |
| Cyfanswm nifer yr hawliadau Atebolrwydd Cyflogwr wedi eu cau | 9 | 7 |

**Atebolrwydd Cyhoeddus ac Atebolrwydd Cyflogwr gyda'i gilydd**

| | **2013/14** | **2014/15** |
|---|---|---|
| Nifer hawliadau Atebolrwydd wedi eu cau, gyda costau | 38 **(28%)** | 29 **(23.4%)** |
| Nifer hawliadau Atebolrwydd wedi cau, heb gostau | 98 **(72%)** | 95 **(76.6%)** |
| Cyfanswm nifer yr hawliadau Atebolrwydd wedi eu cau | 136 | 124 |

3.7 **Hynny yw, yn 2013/14 setlwyd 72%, ac yn 2014/15 76.6%, o hawliadau atebolrwydd yn erbyn Cyngor Gwynedd heb gostau.**

## 4. RÔL Y CWMNI YSWIRIANT

4.1 Roedd pob un o'r achosion sydd wedi eu rhestru yn yr Atodiad yn destun "excess" o £25,000 (ag eithrio dau achos yn dyddio cyn 1 Ebrill 2006, lle roedd yr "excess" yn £10,000). Cyngor Gwynedd oedd yn talu unrhyw gostau ar yr hawliadau unigol hyd at y trothwy yma, a'n cwmni yswiriant yn talu unrhyw symiau uwchben hynny.

4.2 Fodd bynnag, dylid bod yn ymwybodol hyd yn oed yn yr achosion hynny lle 'roedd yr yswirwyr yn ysgwyddo'r gost, byddai effaith ariannol ar y Cyngor yn y pendraw fel canlyniad i gostau premiwm uwch.

4.3 Er mwyn talu'r costau sydd yn daladwy yn uniongyrchol, mae'r Cyngor yn cynnal Cronfa Yswiriant Fewnol y mae pob un o wasanaethau'r Cyngor yn cyfrannu iddi yn flynyddol. Mae lefel y cyfraniadau yn amrywio, yn ddibynnol ar y lefel cronfa yr ydym yn gredu y byddai'n ddarbodus i'w gadw. Wrth i'r Pwyllgor Archwilio ystyried lefelau holl Gronfeydd y Cyngor ym Mehefin 2015, adroddwyd y gellid dychwelyd £1,000,000 o'r Gronfa Fewnol yn ôl i falensau, gan gadw lefel o £1,674,296. Penderfyniad y Pwyllgor oedd nodi'r sefyllfa a'r risgiau yng nghyswllt cronfeydd y Cyngor, gan gefnogi'r polisi perthnasol.

## 5. PENDERFYNIAD I SETLO

5.1 Er mwyn i'r Uned Yswiriant a Risg allu amddiffyn hawliadau yswiriant yn llwyddiannus, mae angen arddangos fod trefniadau yn eu lle o fewn y Cyngor i liniaru risgiau i lefel rhesymol. Gwelir ein bod wedi gallu gwneud hynny yn y mwyafrif helaeth o achosion, ac mae cydweithio da rhwng yr Uned Yswiriant a Risg a holl adrannau'r Cyngor wedi ein cynorthwyo i wneud hynny.

5.2 Er mwyn bod yn llwyddiannus mewn hawliad yn erbyn y Cyngor, rhaid i'r hawlydd ddangos fod y Cyngor wedi bod yn esgeulus mewn rhyw ffordd. Wrth gwrs, nid yw atebolrwydd yn glir ym mhob achos, ac mae ambell hawliad yn mynd cyn belled â'r llysoedd sifil am benderfyniad. Tra fod yr Uned Yswiriant a Risg yn benderfynol o amddiffyn buddiannau'r Cyngor cyn belled â phosib, mewn rhai achosion rhaid derbyn nad oes modd amddiffyn ymhellach, yn enwedig os oes barn gyfreithiol yn cynghori hynny.

5.3 Fel rhan o gyfundrefn rheoli perfformiad yr Uned, byddwn yn dadansoddi hawliadau sydd wedi bod yn llwyddiannus er mwyn ceisio adnabod os oes patrymau, neu lefydd o fewn unedau sydd angen sylw penodol, boed hynny'n hyfforddiant, newid gweithdrefnau ayb.

5.4 Ym mhob un o'r achosion lle bu'n rhaid setlo gyda chost, gwnaethpwyd hynny am fod yr Uned Yswiriant a Risg, efallai ar y cyd â'r Yswirwyr a'u cyfreithwyr, ac adrannau perthnasol y Cyngor, wedi dod i'r casgliad fod y Cyngor wedi cyfrannu at anaf personol neu ddifrod i eiddo personol oherwydd esgeulustra neu gamgymeriad.

5.5 Gwneir hyn gan ystyried canlyniadau achosion llys blaenorol, sydd yn sylfaen i'r system gyfreithiol.

**6. TREFNIADAU O EBRILL 2016**

6.1 Mae cytundeb ein darparwyr yswiriant presennol, Zurich Municipal, yn dod i ben ar 31 Mawrth 2016 ac yn dilyn proses dendro yn ystod tymor hydref 2015 mae cytundebau yswiriant newydd wedi cael eu dyfarnu ar gyfer 1 Ebrill 2016 ymlaen. Bydd Zurich Municipal yn parhau i ddarparu gwarchodaeth Atebolrwydd Cyhoeddus ac Atebolrwydd Cyflogwr, sef testun yr adroddiad yma. Fodd bynnag, bydd darparwyr gwarchodaeth mewn meysydd eraill yn newid. O 1 Ebrill 2016, yn dilyn y broses dendro, bydd darparwyr gwarchodaeth yswiriant y Cyngor yn newid fel a ganlyn:

- Yswiriant Eiddo – symud i Travelers
- Yswiriant Cerbydau – symud i Maven
- Yswiriant Gwarant Ffydd a Trosedd - symud i RMP

6.2 Fel rhan o'r broses o brofi'r farchnad, penderfynwyd y byddai "excesses" ein polisïau Atebolrwydd Cyhoeddus ac Atebolrwydd Cyflogwr yn cynyddu i £50,000 o fis Ebrill 2016 ymlaen. Ar sail dadansoddiad fanwl o'n hawliadau yn y gorffennol, daeth yr Adran Gyllid i'r casgliad y byddai'n gam resymol i gynyddu'r "excesses" yn y ffordd yma er mwyn manteisio ar y premiwm llawer is a fyddai'n deillio o hynny er fod posibilrwydd, wrth gwrs, y gallai ein costau gynyddu petai nifer yr hawliadau llwyddiannus yn ein herbyn yn cynyddu.

6.3 Bydd felly yn her barhaus, ar y cyd â holl wasanaethau'r Cyngor, i reoli ein risgiau yswiriadwy er mwyn lleihau damweiniau a chyhuddiadau o esgeulustod, nid yn unig am resymau ariannol, ond er lles ein cydweithwyr a'r cyhoedd.

**7. ARGYMHELLIAD**

7.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio:

- **Dderbyn yr adroddiad yma sy'n egluro'r trefniadau ar gyfer delio gyda hawliadau yswiriant.**
- **Craffu'r drefn sydd yn ei le, er mwyn bod yn glir fod gan y Cyngor drefniadau yn eu lle er mwyn sicrhau fod taliadau yswiriant yn briodol.**

## Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus a gaewyd yn 2013/14

| Rhif | Dyddiad y digwyddiad | Manylion | Canlyniad | Iawndal | Uned Adfer Iawndal (CRU) | Costau Cyfreithiol y Cyngor | Costau Cyfreithiol yr Hawlydd | Ffioedd Eraill | Cyfanswm Costau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 17/03/2011 | Honiad fod yr hawlydd wedi baglu ar dwll ffordd ar dir yr ysgol | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 2 | 27/03/2012 | Honiad fod yr hawlydd wedi syrthio oddi ar feic a dioddef anaf oherwydd twll ffordd / ymylfaen rhydd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 3 | 01/02/2012 | Honiad fod yr hawlydd wedi syrthio a dioddef anaf | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 4 | 16/09/2011 | Honiad fod y hawlydd wedi colli balans a syrthio tra'n ymgeisio i gael ei hun i dioled ar ôl i alwadau am gymorth fynd heb eu hateb | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 5 | 30/06/2011 | Honiad fod troed yr hawlydd wedi llithro ar ymyl llwybr oedd wedi ei guddio gan ddail, gan achosi anaf | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 6 | 22/09/2012 | Honiad fod wyneb anwastad wedi achosi i'r hawlydd syrthio a dioddef anaf a cholled | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 7 | 10/07/2012 | Hawlydd wedi camu o'r ffordd ar ymylfaen anniogel gan achosi iddo droi ei figwrn a'i benglin | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 8 | 29/09/2012 | Difrod i olwyn aloi beic modur oherwydd dirwasgiad yn y ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 9 | 28/09/2012 | Honiad fod yr hawlydd wedi llithro ar olew ar y wyneb, gan achosi anaf | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 10 | 09/11/2012 | Difrod i deiar car o twll honedig yn y ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 11 | 22/11/2012 | Llifogydd mewn eiddo oedd wedi ei achosi gan ddraen wedi ei flocio (glaw eithriadol yn yr ardal) | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 12 | 22/11/2012 | Honiad o difrod dŵr i eiddo gan fod y Cyngor wedi agor llifddor | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 13 | 24/08/2012 | Difrod o gerbyd ar ôl i ffens chwythu drosodd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 14 | 16/04/2012 | Hawlydd wedi syrthio a diddef anaf oherywdd pafin diffygiol - Cefnffordd (cyfeirio i N&MWTRA) | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 15 | 22/11/2012 | Glaw eithriadol yng Ngwynedd ar y dyddiad hwn, gan arwain at lifogydd. Llifogydd i eiddo – honiad fod malurion wedi eu rhoi mewn pibell draen ar wal | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 16 | 22/11/2012 | Difrod i deiars car pan ddymchwelodd y ffordd oherwydd difrod llifogydd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 17 | 22/11/2012 | Honiad fod draen wyneb wedi ei flocio gan achosi llifogydd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 18 | 22/11/2012 | Honiad fod methiant i glirio draeniau y tu allan i'r eiddo bron ag achosi dŵr llif rhag dod i mewn i'r eiddo (gwariant yn osgoi dŵr rhag dod i mewn) | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 19 | 22/11/2012 | Cerbyd wedi ei lifo a'i ddinistrio oherwydd methiant honedig i gau'r ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |

Atodiad 1

| Rhif | Dyddiad y digwyddiad | Manylion | Canlyniad | Iawndal | Uned Adfer Iawndal (CRU) | Costau Cyfreithiol y Cyngor | Costau Cyfreithiol yr Hawlydd | Ffioedd Eraill | Cyfanswm Costau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 20 | 19/11/2012 | Ffens fetel wedi chwythu drosodd mewn gwynt a tharo ffenstr flaen y car yr oedd yr hawlydd yn ei yrru. Difrod cyhyrrol i'r fraich dde & ysgwydd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 21 | 22/11/2012 | Difrodd llifogydd i gerbyd, yn honedig fel canlyniad i fethiant i glirio draeniau a chau'r ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 22 | 29/11/2012 | Difrod na ellid ei drwsio i deiar oherwydd twll ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 23 | 22/11/2012 | Cangen iach wedi ei rhwygo oddi ar goeden iach mewn gorwynt a tharo car yn teithio i fyny'r ffordd. Cangen wedi mynd trwy'r ffenest flaen. | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 24 | 31/12/2012 | Difrod honedig i gar oherwydd twll yn y ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 25 | 09/11/2012 | Honiad fod yr hawlydd wedi syrthio i llawr grisiau oherwydd diffyg golau | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 26 | 03/12/2012 | Difrod i gerbyd oherwydd diffyg gafael ar gornel am fod tannwydd wedi ei golli ar y ffordd. | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 27 | 12/12/2012 | Difrod i olwyn cerbyd oherywdd bricsen ar y ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 28 | 31/10/2012 | Difrod gan ddŵr wedi dianc, yn honedig oherwydd fod gorlif uchel wedi ei rwystro | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 29 | 22/11/2012 | Honiad fod penderfyniad i agor llifddor i ryddhau llifogydd ar yr A55 wedi achosi difrod yn yr eiddo | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 30 | 21/12/2012 | Hawlydd wedi troi ei droed a syrthio oherwydd nam ar y pafin | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 31 | 22/11/2012 | Difrod llifogydd i'r eiddo yn dilyn glaw eithafol. Honiad fod system ddraenio annigonol wedi methu ymdopi â chyfaint y dŵr | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 32 | 31/12/2012 | Difrod i olwyn oherwydd twll yn y ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 33 | 25/01/2013 | Difrod i gerbyd oherwydd twll yn y ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 34 | 21/10/2012 | Hawlydd wedi baglu dros bolard tua 5 modfedd o uchder | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 35 | 17/10/2012 | Honaid fod yr hawlydd wedi sythio oherwydd twll ffodd / ymylfaen ar goll neu wedi erydu | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 36 | 16/01/2013 | Hawlydd wedi baglu a syrthio oherwydd twll ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 37 | 22/11/2012 | Glaw eithafol yng Ngwynedd ar y dyddiad hwn, gan arwain at lifogydd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 38 | 22/11/2012 | Glaw eithafol yng Ngwynedd ar y dyddiad hwn, gan arwain at lifogydd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 39 | 20/01/2013 | Difrod i gerbyd wedi ei achosi gan fethiant honedig i raeanu ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |

| Rhif | Dyddiad y digwyddiad | Manylion | Canlyniad | Iawndal | Uned Adfer Iawndal (CRU) | Costau Cyfreithiol y Cyngor | Costau Cyfreithiol yr Hawlydd | Ffioedd Eraill | Cyfanswm Costau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 40 | 16/02/2013 | Difrod i deiar cerbyd oherwydd twll yn y ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 41 | 01/02/2013 | Difrod honedig i gerbyd oherwydd twll yn y ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 42 | 18/03/2013 | Difrod honedig i gerbyd yr hawlydd wedi ei achosi gan waith ailwynebu ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 43 | 18/03/2013 | Hawlydd wedi llithro ar ddiffyg honedig | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 44 | 26/03/2013 | Difrod honedig i ffenestr wedi ei achosi gan waith ailwynebu ffordd gerllaw | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 45 | 31/03/2013 | Difrod i olwyn beic oherwydd twll yn y ffordd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 46 | 22/11/2012 | Glaw eithafol yng Ngwynedd ar y dyddiad hwn, gan arwain at lifogydd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| 47 | 22/11/2012 | Glaw eithafol yng Ngwynedd ar y dyddiad hwn, gan arwain at lifogydd | Setlwyd heb gostau | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
4.6 Mae'r Bil Drafft yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio adolygu ymateb yr Awdurdod i adroddiadau ac argymhellion a wnaethpwyd o dan yr asesiadau hyn ac, os yw'n briodol, i wneud argymhellion i'r Awdurdod. Ni fyddai hynny yn symud i ffwrdd o'r hyn yr ydym eisoes wedi ei sefydlu yn y Cyngor yma.

4.7 Mae'r Bil hefyd yn mynnu fod traean o aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio yn aelodau lleyg, ac fod Cadeirydd y Pwyllgor yn aelod lleyg.

4.8 Mae'r ddogfen ymgynghorol yn y cynnwys y cwestiwn canlynol:

**Cwestiwn 5.4: A oes gennych unrhyw sylwadau am rôl arfaethedig y Pwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio mewn perthynas ag ymateb yr Awdurdod Lleol i'r hunanasesiad, yr asesiad gan gymheiriaid, yr asesiad cyfun a'r adolygiad llywodraethu?**

4.9 Mae ymateb drafft y Cyngor i'r Bil, fel a drafodwyd gan y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar 4 Chwefror, yn nodi:

1. Nid oes unrhyw broblem o ran y dyletswydd ar lywodraethu - Dylai hynny fod yn rhan naturiol o waith pob cyngor. Un pwynt y mae'r Cyngor wedi ei wneud yn gyson yw'r angen i leihau'r baich rheoleiddio allanol. Os yw'r drefn hunan-asesu a'r adolygiad cymheiriaid yn hwyluso hynny, byddai i'w groesawu ar yr amod nad yw'r trefniadau o gwmpas hynny yn rhy feichus a biwrocrataidd. Ar ben hynny, mae'r trefniadau sydd yn cael eu hawgrymu ar gyfer derbyn cwynion am hyn yn codi risg amlwg o drefn allai gael ei ddefnyddio i ddibenion maleisus.

2. Mae'r syniad o roi'r cyfrifoldeb llywodraethu corfforaethol yn glir yn maes llafur un pwyllgor yn un da ond mae'r Cyngor am bwysleisio y dylid gadael materion fwy manwl fel lle i drafod mater i fyny i gynghorau unigol yn hytrach na datgan hynny mewn statud.

**4.10 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio gadarnhau ei fod yn cytuno â'r sylwadau ym mharagraff 4.9, ychwanegu iddynt, neu gynnig sylwadau amgen.**

**Atodiad 1**

## Cwestiwn 1.7: A oes gennych unrhyw sylwadau cyffredinol am y darpariaethau yn adran 16 ac Atodlen 3 i'r Bil Drafft sy'n ymwneud â chyllid Llywodraeth Leol?

Ynddo'i hunain, mae Adran 16 ac Atodlen 3 ill dau yn rhesymol ac fel y buasem yn ei ddisgwyl, gan roi trefniadau yn eu lle ar gyfer uno rhestrau Treth Cyngor, rhestrau Trethi Annomestig a Cronfeydd cynghorau mewn paratoad at sefydlu'r awdurdodau newydd. Yn y cyd-destun yma, nid oes gennym wrthwynebiad i'w cynnwys.

Ni fyddem yn dymuno creu rhagor o gymhlethdodau cyn sefydlu'r awdurdodau newydd, ond fel y mae Adran 22C newydd o Ddeddf 1992 (fel y'i cynigir) yn ei amlygu, digwyddodd yr ailbrisiad Dreth Gyngor cyffredinol diwethaf ar gyfer 1 Ebrill 2005. Mae hyn yn golygu y bydd y rhestrau cyffredinol ar sefydlu awdurdodau newydd yn 15 mlwydd oed.

Rhaid i Lywodraeth Cymru gydweithio ag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau fod y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus yn cyfrannu'n deg tuag atynt. Credwn y byddai cynnal ymarferiad ailbrisio llawer mwy rheolaidd, gydag ail-fandio cyson, yn rhoi mwy o hyder i'r cyhoedd am gadernid, tryloywder a thecwch y drefn.

Hefyd, mae angen adolygiad llawn o'r trefniadau eithriadau a disgowntau. Mae'r trefniadau cyfredol yn flerwch, a rhaid eu diweddaru. Mae rhai o'r eithriadau presennol yn hynafol, neu yn methu adlewyrchu sefyllfaoedd y cynghorau erbyn hyn.

Ar hyn o bryd, mae'r Treth Cyngor yn cael ei ystyried yn dreth sydd ar Eiddo a Phobl yn gyfartal. Efallai fod lle i ystyried newid y balans cyfredol (h.y. 50% eiddo a 50% y 2 berson cyntaf yn yr eiddo), neu hyd yn oed rhoi'r hawl i gynghorau lleol addasu'r gyfran yma i adlewyrchu gofynion lleol.

Felly, gellid dadlau fod y Bil drafft yn cynrychioli colli cyfle i ddiweddaru'r gyfundrefn drethiant lleol, ond rydym yn derbyn nad dyma yw diben y Bil penodol yma.

## Cwestiwn 1.8: Sut y gallai Llywodraeth Cymru fesur y nifer sy'n osgoi talu Ardrethi Annomestig ar hyn o bryd?

Mae gwybodaeth leol yn hanfodol yn hyn o beth. Rydym hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn rhannu gwybodaeth yn well gydag awdurdodau lleol.

Credwn fod y gyfundrefn trethi busnes yn gweithio'n dda yn gyffredinol. Rydym yn credu fod meithrin perthynas dda gyda Swyddfa'r Prisiwr, wrth iddynt hwythau gyflawni eu gwasanaeth arbenigol wrth gynnal y rhestr drethiant, wedi cyfrannu at hyn. Yng ngŵydd hynny, rydym yn argyhoeddedig fod cadw trefniadau casglu Trethi Busnes yn lleol yn allweddol er mwyn gallu manteisio ar y wybodaeth lleol sydd ar gael.

Yn ein profiad ni, mae ymweliadau rheolaidd gan swyddogion y cyngor i safleoedd busnes, gan ddefnyddio technoleg briodol a rhaglen yn seiliedig ar risg, yn rhoi cyfle i weld "yn y cnawd" os oes busnesau newydd wedi eu sefydlu. Mae hyn eto yn dangos y fantais gref o gael gwybodaeth leol a chasglu lleol. Byddai grantiau penodol i gefnogi datblygiad technegau newydd gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf, ac i gyflogi swyddogion ymweld, yn helpu awdurdodau lleol i weithio gyda Llywodraeth Cymru i fesur y lefel bresennol o osgoi ardrethi annomestig

## Cwestiwn 1.9: A oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch sut y gallai deddfwriaeth yn y dyfodol helpu i leihau'r nifer sy'n osgoi talu Ardrethi Annomestig?

Rydym yn rhannu'r gred mae un maes lle'r ydym o'r farn fod y pwrs cyhoeddus yn dioddef fel canlyniad i osgoi talu Ardrethi Annomestig yw gallu busnesau i osgoi trethi busnes ar eiddo gwag. Mae'r Ddeddf Ardrethu (Eiddo Gwag) 2007 yn datgan na fydd eiddo diwydiannol sydd wedi bod yn wag am fwy na chwe mis yn derbyn ryddhad ardrethi, ac yn hytrach bydd eiddo gwag yn atebol am 100% o'r gyfradd sylfaenol busnes brysur.

Fodd bynnag, mae hefyd yn nodi os yw eiddo mewn defnydd eto ("rateable occupation") am gyfnod o fwy na chwe wythnos cyn dod yn wag unwaith eto, bydd yr eiddo yn cael eithriad pellach am chwe mis. Mae'r un sefyllfa yn wir am unedau manwerthu, ond mai am hyd at 3 mis y ceir yr eithriad pellach yn yr achosion hynny.

Mae achosion llys diweddar (e.e. Makro v Nuneaton & Bedworth DC) wedi llacio'r diffiniad o "rateable occupation" i'r fath raddau fel ein bod o'r farn fod angen ail-ysgrifennu'r ddeddfwriaeth. Er enghraifft, rydym bellach yn gweld sefyllfaoedd ble mae cadw ychydig o ffeiliau neu flwch rhyngrwyd yn ddigonol i ystyried bod safle "wedi ei feddiannu" o ran atebolrwydd am ardrethi. Gellir yn hawdd sefydlu a datgymalu "meddiannu minimal" o'r fath i gymryd mantais o raddfa ardreth gychwynnol cymharol isel sy'n ymwneud â llai na 42 diwrnod o feddiannaeth, yna cyfnod pellach a hirach o eithriad (boed hynny'n 3 mis manwerthu neu 6 mis diwydiannol), ar adael. Credwn nad dyma oedd bwriad y ddeddfwriaeth pan y'i ysgrifennwyd, a mae angen rhoi sylw arbennig i hyn os am sicrhau fod trethi busnes yn gweithio'n llawer mwy effeithiol. Byddai cynyddu'r cyfnod "rateable occupation" o 42 diwrnod i 3 mis (neu hyd yn oed 6 mis) cyn caniatáu rhyddhad eiddo gwag yn mynd llawer o'r ffordd i gau'r "loophole" sydd yn bodoli ar hyn o bryd.

Dylai'r Llywodraeth hefyd gymryd camau i atal osgoi drwy "Phoenixism". Hyn yw'r ymarferiad o greu olyniaeth o gwmnïau cyfyngedig lle mae'r broses o ymgorffori yn anghyflawn, ac ychydig neu ddim ymdrech sydd i atal darparwyr cyfleustodau ac awdurdodau lleol rhag cronni dyledion. Unwaith y bydd y broses adfer yn dechrau caiff yr hen gwmni ei ddiddymu ac mae cwmni newydd yn ymddangos.

I'r cyhoedd ac i gwsmeriaid mae'r busnes yn ymddangos yn barhaus – mae swyddogion a gweithwyr y cwmni yn union yr un fath, ar adegau efallai y bydd y manylion a roddwyd i Dŷ'r Cwmnïau yn wahanol. Nid yw'r lefel o golledion a grëwyd byth yn ddigon i achosi Tŷ'r Cwmnïau i ymchwilio i ymddygiad y Cyfarwyddwyr.

## Cwestiwn 1.10: Ym mha ffyrdd eraill y gallai Llywodraeth Cymru alluogi Llywodraeth Leol i leihau'r nifer sy'n osgoi talu ac sy'n twyllo'r system Ardrethu Annomestig?

Rydym yn teimlo y byddai trefniadau casglu yn cael eu cryfhau petai gan y cynghorau yr un hawl statudol i ysgrifennu i gael gwybodaeth gan fusnesau wrth weinyddu Trethi Busnes ag sydd ganddynt ar gyfer Treth Cyngor.

## PENNOD 7

PWYLLGORAU LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL AC ARCHWILIO

### 148 Ailenwi pwyllgorau archwilio

(1) Yn adran 81 o Fesur 2011 (awdurdodau lleol i benodi pwyllgorau archwilio), yn is-adran (1), yn lle "("pwyllgor archwilio")" rhodder "("pwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio")".

(2) Mae Atodlen 9 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Fesur 2011 sy'n ymwneud ag ailenwi pwyllgorau archwilio.

### 149 Swyddogaethau pwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio

(1) Ar ôl adran 81 o Fesur 2011 mewnosoder—

**"81A Darpariaeth bellach ynghylch swyddogaethau pwyllgorau**

(1) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan adran 81(1) rhaid i bwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio awdurdod lleol asesu, yn benodol—

(a) gallu'r awdurdod i gydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan adran 111 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2017;

(b) gallu'r awdurdod i wneud cynnydd o ran y blaenoriaethau a nodir yn y datganiad sydd wedi ei gynnwys yn ei gynllun corfforaethol o dan adran 112(2) o'r Ddeddf honno;

(c) y trefniadau a wnaed gan yr awdurdod—

(i) o ran hunanasesiadau o dan adran 116 o'r Ddeddf honno;

(ii) o dan adran 118 o'r Ddeddf honno (asesiadau gan gymheiriaid), a

(d) gallu'r awdurdod lleol i ymdrin yn effeithiol â chwynion.

(2) Rhaid i'r pwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio adrodd i'r awdurdod lleol ar asesiad o dan is-adran (1).

(3) Mae gan bwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio hefyd swyddogaethau o dan—

(a) adran 117 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2017 (adroddiadau hunanasesu);

(b) adran 121 o'r Ddeddf honno (ymatebion i adroddiadau ar asesiadau gan gymheiriaid);

(c) adran 126 o'r Ddeddf honno (ymatebion i adroddiadau ar asesiadau cyfun);

(d) adran 134 o'r Ddeddf honno (ymatebion i adroddiadau ar adolygiad llywodraethu)."

**150 Aelodaeth pwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio**

(1) Mae adran 82 o Fesur 2011 (aelodaeth) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (2)—

(a) ym mharagraff (a) hepgorer y geiriau "o leiaf";

(b) yn lle paragraff (b) rhodder—

"(b) bod un rhan o dair o aelodau'r pwyllgor hwnnw yn bersonau lleyg;".

(3) Ar ôl is-adran (5) mewnosoder—

"(5A) Mae pwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio i benodi—

(a) aelod o'r pwyllgor yn gadeirydd arno ("cadeirydd y pwyllgor"), a

(b) aelod o'r pwyllgor yn ddirprwy i gadeirydd y pwyllgor ("yr is-gadeirydd").

(5B) Rhaid i'r aelod a benodir yn gadeirydd y pwyllgor fod yn berson lleyg.

(5C) Ni chaiff yr aelod a benodir yn is-gadeirydd fod yn aelod o weithrediaeth yr awdurdod lleol."

(4) Hepgorer is-adran (6).

**151 Ystyr person lleyg**

Yn adran 87 o Fesur 2011 (dehongli), hepgorer y diffiniad o "aelod lleyg" a mewnosoder —

"ystyr "person lleyg" ("*lay person*") yw person—

(a) nad yw'n aelod nac yn swyddog o unrhyw awdurdod lleol,

(b) nad yw, ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o ddeuddeg mis sy'n dod i ben â'r dyddiad y penodir y person hwnnw, wedi bod yn aelod nac yn swyddog o unrhyw awdurdod lleol, ac

(c) nad yw'n briod nac yn bartner sifil i aelod na swyddog o unrhyw awdurdod lleol.".

**152 Trafodion etc.**

(1) Mae adran 83 o Fesur 2011 (trafodion) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle is-adrannau (1) a (2) rhodder—

"(1) Mae cyfarfod o bwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio i'w gadeirio—

(a) gan gadeirydd y pwyllgor, neu

(b) os yw cadeirydd y pwyllgor yn absennol, gan yr is-gadeirydd.

(2) Os yw cadeirydd y pwyllgor a'r is-gadeirydd ill dau yn absennol caiff y pwyllgor benodi aelod arall o'r pwyllgor (na chaiff fod yn aelod o weithrediaeth yr awdurdod lleol) i gadeirio'r cyfarfod."

(3) Hepgorer is-adran (8).

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **11 CHWEFROR 2016** |
| TEITL | **ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **ADRODD AR Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 19 IONAWR 2016** |
| AWDUR | **JOHN PUGHE ROBERTS, CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD AC YSTYRIED YR ARGYMHELLION** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwynwyd crynodebau gweithredol 6 o adroddiadau i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2015, sef adroddiadau oedd wedi eu rhyddhau'n derfynol rhwng 14 Medi 2015 hyd at 31 Hydref 2015. Derbyniodd 3 o'r adroddiadau hyn farn 'C'. Yn ogystal, rhoddwyd manylion am archwiliad ymatebol a gynhaliwyd ar Ganolfan y Gwystl.

## 2. CYFARFOD Y GWEITHGOR

2.1 Cynhaliwyd cyfarfod y Gweithgor ar 19 Ionawr 2016 gyda Chadeirydd y Pwyllgor a'r Cynghorwyr Angela Russell, John Brynmor Hughes a Michael Sol Owen, a Luned Fôn Jones, Rheolwr Archwilio yn bresennol.

2.2 Yr adroddiadau a dderbyniodd sylw'r Gweithgor oedd:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN |
|---|---|---|---|
| Canolfan Hamdden Plas Ffrancon | Economi a Chymuned | Hamdden | C |
| Cefn Rodyn, Dolgellau | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | C |
| Canolfan y Gwystl | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | - |
| Trafnidiaeth Gyhoeddus | Rheoleiddio | Trafnidiaeth a Gofal Stryd | C |

2.3 Mynychodd swyddogion i drafod yr adroddiadau.

## 2.4 Canolfan Hamdden Plas Ffrancon

2.4.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

> *Y pryderon mwyaf a ddarganfuwyd yn ystod yr archwiliad oedd y diffyg rheolaeth dros drefniadau bancio, a'r methiant o godi anfonebau ar gyfer cwsmeriaid sy'n llogi cyfleusterau'r Ganolfan.*
>
> *Un o feysydd mwyaf arwyddocaol yr archwiliad oedd y drefn bancio ar ddiwedd y diwrnod gwaith, ble gwelwyd fod llawer o gamgymeriadau ar draws yr amrywiol ddogfennau sy'n cael eu creu wrth gyflawni'r dasg. Gwelwyd bod llawer o ddefnydd o gyfeireb Gwarged/Diffyg y cyfriflyfr (cod 8264, cod byr 'J'), er bod y balans terfynol yn isel ar ddiwedd 2014/15. Disgwylir nad oes llawer o ddefnydd o'r gyfeireb hon ymysg y canolfannau, ac yn ddelfrydol ni fyddai llawer o eitemau â gwerth mwy na +/-£3.00 i'w gweld arno. Wrth edrych ar y trafodion unigol, gwelir fod yna bron i 300 ohonynt ar y cyfriflyfr ar gyfer 2014/15, a dros 70 ar gyfer 2015/16 hyd at ddechrau Gorffennaf 2015. Golyga hyn bod nifer o gamgymeriadau yn cael eu gwneud yn y Ganolfan.*
>
> *Ystyriwyd hefyd y defnydd o gyfrifiaduron y Ganolfan fel rhan o'r archwiliad. Defnyddir y system Gladstone ac fe gynhyrchir adroddiadau mewn-/allgofnodi o'r system yn fisol ers Ionawr 2015. Wrth archwilio'r adroddiadau, gwelwyd bod angen tynhau ar achosion ble mae staff yn mewngofnodi ar fwy nag un peiriant, ac o bosib ddim yn allgofnodi ar ddiwedd pob shifft. Wrth ymweld â'r Ganolfan ni lwyddwyd i dderbyn tystiolaeth bod trefniadau cadarn wedi eu sefydlu ar gyfer anfonebu defnyddwyr y Ganolfan am ddefnydd o'r gwasanaethau.*
>
> *Archwiliwyd hefyd y trefniadau wrth ddelio gyda phecynnau debydau uniongyrchol aelodau'r Ganolfan. Mae'r pecynnau'n cynnwys manylion y cwsmeriaid, ac fe'u hystyrir i fod yn wybodaeth o natur sensitif. Cedwir y manylion mewn cwpwrdd dan glo yn y Ganolfan. Fodd bynnag, nid oes trefn mewn bodolaeth o anfon y wybodaeth i Gaernarfon gan ddefnyddio gwasanaeth 'danfoniad wedi ei gofnodi', er bod y wybodaeth yn bersonol a sensitif.*
>
> *Mae gan y Ganolfan set o asesiadau risg cyfredol, sy'n cynnwys fersiynau penodol ar gyfer y gwahanol ystafelloedd, gweithgareddau a chategorïau o bobl, a gwelir bod y rhain yn cynnwys y manylion a ddisgwylir. Gwelwyd hefyd fod gan y Gwasanaeth Cymunedau Iach gofrestr risg ar wahân, sy'n cyfeirio at y risgiau sy'n gysylltiedig â'r canolfannau hamdden. Gwelir fod bylchau yn y wybodaeth a gyflwynir yn y gofrestr, ond eglurwyd bod bwriad i'w diweddaru ddiwedd y flwyddyn.*

2.4.2 Croesawyd Mark Williams, Rheolwr Ardal Bangor/Bethesda a Carwyn Williams, Rheolwr ar Ddyletswydd, Canolfan Hamdden Plas Ffrancon i'r cyfarfod i drafod archwiliad Canolfan Hamdden Plas Ffrancon.

2.4.3 Cyflwynwyd crynodeb o ddarganfyddiadau'r archwiliad gan y Rheolwr Archwilio. Mynegodd bod derbyn categori barn "C" yn bryder, yn enwedig wrth ystyried nad oedd llawer o welliant wedi ei arddangos ers yr arolwg diwethaf. Eglurodd bod rheolaethau dros weithdrefnau a phrosesu derbyn a bancio incwm yn wan a bod y gor-ddefnydd o gyfeireb "Gwarged/Diffyg" yn peri pryder. Eglurodd y Rheolwr Archwilio bod yr Archwilwyr yn ystod eu hymweliad â'r Ganolfan wedi cael argraff o ddiffyg ysgogiad ymysg rhai aelodau o'r staff.

2.4.4 Eglurodd Rheolwr Ardal Bangor/Bethesda eu bod wedi gweithredu ar bob un o'r argymhellion a wnaethpwyd yn yr adroddiad a bod rheolaethau gwell bellach mewn lle. Ymholodd aelod os mai problem o ddiffyg hyfforddiant oedd wedi arwain at y diffygion a amlygwyd yn yr archwiliad ac a oes gormodedd o staff rhan amser yn gyflogedig yn y Ganolfan. Dywedodd y Rheolwr Ardal mai ond 4 aelod staff sydd yn y Ganolfan a'u bod wedi cael hyfforddiant ar drefniadau ariannol erbyn hyn. Eglurwyd bod y Rheolwr ar Ddyletswydd wedi derbyn llawer o hyfforddiant ac ymhelaethodd ar yr hyfforddiant y bu iddo dderbyn. Pwysleisiodd aelod y pwysigrwydd o hyfforddiant parhaus.

2.4.5 Mynegodd y Rheolwr Ardal bod aelod newydd o staff ar dîm y Canolfannau Hamdden sydd yn gweithio mewn sawl canolfan i sicrhau bod trefniadau ariannol priodol yn bodoli ac i hyfforddi swyddogion ar sut i ddelio ag incwm.

2.4.6 Gofynnodd aelod i'r swyddogion os ydynt yn hyderus o beidio derbyn barn "C" eto. Mynegodd y ddau swyddog eu bod yn hyderus y bydd gwellhad.

2.4.7 Esboniodd y Rheolwr Archwilio nad yw'r Rheolwr Ardal yng Nghanolfan Plas Ffrancon fwy nac un diwrnod yr wythnos ac felly'r angen i ddirprwyo'n briodol. Eglurodd y Rheolwr Ardal bod y Rheolwr ar Ddyletswydd yn ymgymryd â'r gwaith ar hyn o bryd ond pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd bod angen i'r holl staff eraill wybod y trefniadau i sicrhau parhad yn absenoldeb y Rheolwr Ardal a'r Rheolwr ar Ddyletswydd.

2.4.8 Cytunodd y Gweithgor y dylid cynnal archwiliad dilyniant yn y chwe mis nesaf a mynegodd y Rheolwr Archwilio y gall yr archwiliad fod yn ymweliad dirybudd a fyddai yn rhoi gwir ddarlun o'r sefyllfa. Croesawyd hyn gan y swyddogion.

2.4.9 Dywedodd y Rheolwr Archwilio os oes angen help ar swyddogion y ganolfan neu os byddent yn teimlo eu bod yn colli eu ffordd unwaith eto, yna bydd y Gwasanaeth Archwilio yn fwy na bodlon i'w cynorthwyo ac i gynnig cyngor.

2.4.10 **Diolchwyd i'r Rheolwr Ardal Bangor/Bethesda a'r Rheolwr ar Ddyletswydd am fynychu'r cyfarfod ac am egluro'r camau gweithredol sydd wedi eu cymryd ers rhyddhau'r adroddiad i liniaru'r risgiau a adnabuwyd.**

### 2.5 Cefn Rodyn, Dolgellau

2.5.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Yn ystod yr archwiliad darganfuwyd enghreifftiau o ymarfer da mewn rhai o drefniadau'r Cartref. Fodd bynnag, ymddengys bod enghreifftiau o weithredu yn groes i drefniadau gweinyddol y Cyngor ac o ganlyniad i'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol. Roedd gwariant y cartref yn fwy na'r gyllideb a osodwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2014/15 yn y meysydd canlynol: eiddo; trafnidiaeth a gwasanaethau a chyflenwadau.*
*Nid oedd archebion yn cael eu defnyddio yn y modd cywir gan fod 5 wedi eu cwblhau ar ôl dyddiad yr anfoneb ac felly'n eu gwneud yn ddibwys. Nid oedd cofnod derbyn y nwyddau/gwasanaeth wedi ei nodi ar 2 o'r archebion ac nid oedd cost amcangyfrif wedi ei nodi o gwbl ar yr archebion yn y sampl. Gwelwyd bod rhai o'r blychau ar y ffurflenni TR252 yn cael eu cwblhau'n ddiangen e.e. blychau rhanbarth a stoc wedi eu harwyddo ar gyfer anfoneb cyflenwad trydan. Nid oedd stamp "derbyniwyd" ar yr anfonebau yn y sampl a ddetholwyd.*
*Mae'n ofynnol bod y taflenni 'Cofnod o Arian Preswylydd' yn cael eu llofnodi gan ddau berson ar gyfer pob gwariant o arian poced y preswylwyr. Roedd dau achos lle gwelwyd mai ond un person oedd wedi arwyddo'r daflen. Cymerwyd sampl o daflenni 'eitemau personol' o Gynlluniau Gofal 4 o'r preswylwyr a'u gwirio. Roedd llofnod a dyddiad ar ddwy o'r ffurflenni hyn yn unig.*

*Nid oedd cofnodion cyfrif mwynderau'r cartref yn gyflawn gan nad oedd yr holl incwm a dderbyniwyd wedi ei gofnodi. Gwelwyd bod costau trwydded teledu yn cael ei dalu o'r cyfrif mwynderau er bod cyfrif ar ei gyfer yng nghyllideb y cartref (4807 - Trwyddedau Cyffredinol). Gwiriwyd ffurflenni TR34 ar gyfer incwm a dderbyniwyd, a gwelwyd mai'r Clerc yn unig sydd yn eu llofnodi – nid oedd cofnod o wiriad gan ail-berson. Roedd un ffurflen heb lofnod o gwbl. Gwiriwyd cyfrif imprest y cartref ar gyfer 2014/15 a gwelwyd bod gwariant dros y lefel uchaf o'r cyfrif sef £170 wedi digwydd ddwywaith. Nid oedd derbynebau ar gyfer nifer o'r taliadau ond roedd ffurflen TR24b wedi ei defnyddio. Nid oedd y ffurflenni wedi eu harwyddo na'u hawdurdodi mewn sawl achos.*

*Gwelwyd rhai camgymeriadau yn hawliau gwyliau'r staff, gan amlaf oherwydd bod ganddynt dros 5 mlynedd o wasanaeth di-dor ond bod hyn heb ei ystyried wrth gyfrifo'r oriau. Hefyd, roedd gwyliau oriau ychwanegol yn cael ei gyfrifo'n anghywir.*

*Nid oedd rhai staff oedd â hawl i arwyddo am feddyginiaeth yn ymddangos ar y rhestr derbyn cymhwysedd i weinyddu meddyginiaeth. Nid oedd y daflen 'Rhestr o Enwau Staff Cyfrifol i Arwyddo am Feddyginiaeth' yn gyfredol. Gwiriwyd sampl o 6 taflen MAR (Medication Administration Record) unigol ac ni welwyd dau lofnod derbyn ar gyfer meddyginiaeth mewn sawl achos. Nid oedd y dos olaf wedi ei gofnodi ar y daflen MAR mewn un achos. Roedd y Rheolwr yn bresennol pan wiriwyd y cofnod. Nid yw tymheredd oergell Cartref Cefn Rodyn yn cyd-fynd gyda chanllawiau Polisi Meddyginiaeth y Cyngor. Ni welwyd cofnod o dymheredd ar gyfer 5/07/15 ar gyfer yr ystafell feddyginiaeth.*

2.5.2 Croesawyd Gwenno Williams, Uwch Reolwr Gweithredol, Gwasanaethau Darparu, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i'r cyfarfod.

2.5.3 Eglurodd y Rheolwr Archwilio bod yr archwiliad wedi ei gynnwys yn y Cynllun Archwilio yn sgil y penderfyniad i archwilio'r cartrefi preswyl mewn cylch o dair blynedd. Dywedodd bod y trefniadau ariannol o safbwynt gweithdrefnau archebu a phrosesau gweinyddol meddyginiaeth yn broblemus ond pwysleisiodd nad oedd derbyn barn "C" ar y trefniadau hyn yn golygu o reidrwydd bod ansawdd y gofal yn wael.

2.5.4 Mynegodd yr Uwch Reolwr Gweithredol ei bod yn cytuno â chynnwys yr adroddiad a'u bod eisoes wedi gweithredu ar nifer o'r argymhellion. Eglurodd mai'r flaenoriaeth yn y cartref yw'r preswylwyr ac o ganlyniad fod gwaith papur weithiau yn flêr ond nad oedd risg ariannol yn bodoli yn y cartref. Dywedodd mai Rheolwr Dros Dro oedd yn Cefn Rodyn ar adeg yr archwiliad a oedd wedi derbyn dyrchafiad o fod yn Is-reolwr y cartref a bu iddi gymryd amser i addasu i'r swydd newydd. Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Gweithredol y bydd Rheolwr parhaol yn cael ei benodi/phenodi yn y dyfodol agos.

2.5.5 Ers rhyddhau'r adroddiad, eglurodd yr Uwch Reolwr Gweithredol bod y Rheolwyr Ardal wedi cael cyfarfod â'r Rheolwr Archwilio iddi deilwra cwrs "Trefniadau Ariannol" yn arbennig i anghenion rheolwyr cartrefi. Dywedodd y Rheolwr Archwilio y bydd y sesiynau hyfforddiant yn cael eu cynnal yn Arfon, Dwyfor a Meirionnydd.

2.5.6 Mynegodd aelod bod y ffaith bod 20 argymhelliad yn berthynol â'r archwiliad yn awgrymu bod rheolaethau yn llac ac o bwysigrwydd hyfforddiant. Ymholodd hefyd pan nad oedd Rheolwr Cefn Rodyn yn y Gweithgor. Eglurodd y Rheolwr Archwilio bod y gwahoddiad i fynychu'r Gweithgor Gwella Rheolaethau yn cael ei anfon at y Pennaeth neu'r Uwch Reolwr yn gyntaf ond ei fod yn opsiwn iddynt anfon cynrychiolydd arall. Cytunodd aelodau'r Gweithgor y byddai'n ymarfer da i'r rheolwyr perthnasol fynychu'r Gweithgor Gwella Rheolaethau yn y dyfodol ynghyd â'r Uwch Reolwr neu'r Pennaeth perthnasol.

2.5.7 Gofynnodd aelod a yw'n ymarfer cyffredin i gael rheolwyr dros dro yn y cartrefi preswyl oherwydd iddi gofio sefyllfa gyffelyb â chartref preswyl arall yn y gorffennol a oedd bryd hynny gyda Rheolwr dros dro. Atebodd yr Uwch Reolwr Gweithredol mai eithriad i'r drefn arferol oedd y ddau gartref.

2.5.8 Dywedodd aelod y dylid cymryd arwyddo dogfennaeth meddyginiaethau'n gywir yn flaenoriaeth. Eglurodd yr Uwch Reolwr Gweithredol bod trefniadau penodol ar gyfer meddyginiaethau a bod cyfrifoldeb i adrodd i'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru am unrhyw achlysur os oes camgymeriad mewn meddyginiaeth. (Rheoliad 38)

2.5.9 Esboniodd y Rheolwr Archwilio bod y rhaglen archwilio ar gyfer cartrefi preswyl wedi ei haddasu ac y caiff ei dilyn ar gyfer archwiliadau a gynhelir yn 2016/17. Dywedodd y bydd llai o bwyslais ar elfennau megis rhestri stoc a chynnal gwiriadau stoc er mwyn gallu rhoi mwy o sylw i faterion megis hyfforddiant perthnasol a gweinyddiaeth meddyginiaeth.

**2.5.10 Diolchwyd i'r Uwch Reolwr Gweithredol am egluro'r sefyllfa gyfredol a'r trefniadau arfaethedig sydd ar droed i wella gweithdrefnau yn y dyfodol agos.**

**2.6 Canolfan y Gwystl**

2.6.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Cynhaliwyd yr archwiliad ymatebol pan dderbyniwyd cais gan Reolwr Llety â Gofal Gwynedd i Archwilio Mewnol ei gynorthwyo i adnabod y rhesymau am y gorwariant sylweddol yng nghostau cyflogau Canolfan y Gwystl yn ystod blynyddoedd ariannol 2014/15 a 2015/16. Daeth y mater i'r amlwg pan dderbyniodd y Rheolwr Llety â Gofal Gwynedd gyfrifoldebau ychwanegol am wasanaethau dydd anableddau yn y flwyddyn gyfredol.*

*Edrychwyd ar wariant cyflogau ar gyfer 2014/15 a'r flwyddyn ariannol gyfredol hyd at Awst 2015 ynghyd â chymharu yr oriau a nodwyd yng nghytundebau cyflogaeth gweithwyr Canolfan y Gwystl yn erbyn manylion a echdynnwyd o'r system gyflogau/cyfriflyfr. Cymharwyd yn ogystal y rota ar gyfer swyddogion Canolfan y Gwystl yn erbyn yr oriau fel a nodir yn eu cytundebau cyflogaeth.*

*Mae rhai o'r ffactorau sydd wedi cyfrannu at y gorwariant fel a ganlyn:*

- *Darganfuwyd bod sawl un o'r swyddogion yn gweithio oriau sydd yn uwch na'u horiau safonol cytundebol yn rheolaidd ac y telir am yr oriau hyn ar sail amser a hanner.*
- *Gwelwyd bod tri Gweithiwr Cefnogol Achlysurol wedi eu cynnwys ar y rota wythnosol gydag oriau sefydlog, roedd un wedi ei nodi fel 37 awr, yr ail gyda 21.5 awr a'r trydydd yn gweithio un i un gyda defnyddiwr gwasanaeth penodol.*
- *Roedd y Gweithiwr Cefnogol Achlysurol a nodwyd ar y rota i weithio 37 awr wedi gweithio dros hynny mewn 70% o'r wythnosau a wiriwyd (45 allan o 64 wythnos).*

*Ni ddylai fod gweithwyr achlysurol yn cael eu cynnwys ar y rota ac yn sicr nid gydag oriau sefydlog. Pwrpas gweithwyr achlysurol yw gweithio ar sail llanw yn ôl y gofyn e.e. pan fo swyddog arall yn sâl neu ar wyliau. Ym marn yr archwiliwr, mae'r uchod wedi cyfrannu'n sylweddol at y gorwariant cyflogau.*

*Yn ogystal, gwelwyd bod gorwariant materol yn erbyn y gyllideb cludo. Awgrymwyd i'r Uwch Reolwr Gweithredol bod y Gwasanaeth yn ymchwilio i mewn i ddulliau o geisio lleihau'r gorwariant gan gynnwys ymchwilio i'r syniad o ddarparu'r gwasanaeth cludo'n fewnol.*

2.6.2 Roedd yr Uwch Reolwr Gweithredol yn bresennol i drafod yr eitem yma.

2.6.3 Eglurodd y Rheolwr Archwilio bod yr archwiliad wedi ei chynnal ar gais a dderbyniwyd gan Reolwr Llety â Gofal Gwynedd. Roedd y swyddog yma wedi etifeddu'r cyfrifoldeb am ganolfannau anableddau dysgu'r Cyngor yn ddiweddar, a bu iddo ddarganfod gorwariant sylweddol yng nghyllideb Canolfan y Gwystl.

2.6.4 Amlinellwyd prif ddarganfyddiadau'r archwiliad gan y Rheolwr Archwilio gan egluro mai'r prif resymau dros y gorwariant oedd gorwariant ar gyllideb gweithwyr oherwydd bod staff yn gweithio dros eu horiau cytundebol a staff achlysurol yn gweithio llawer o oriau, yn aml oddeutu 37 awr yr wythnos neu uwch. Hefyd, eglurodd bod costau trafnidiaeth megis tacsis hefyd wedi bod yn ffactor arwyddocaol.

2.6.5 Eglurodd yr Uwch Reolwr Gweithredol bod ail-strwythuro diweddar wedi arwain at un person yn rheoli'r ganolfan bellach yn hytrach na phedwar person yn rhannu'r cyfrifoldeb, gan fynegi y bydd hyn yn sicrhau gwell perchnogaeth dros drefniadau. Mynegodd eu bod eisoes yn ymchwilio i gostau trafnidiaeth ac yn ystyried y posibilrwydd o rannu cerbydau (tacsis) ynghyd â mewnoli'r gwasanaeth. Mynegodd hefyd bod y defnydd o staff achlysurol wedi lleihau ac yn sgil hynny mae effaith bositif ar y gyllideb.

2.6.6 Yn ogystal, eglurodd yr Uwch Reolwr Gweithredol bod y gwasanaeth wedi gwneud cais i'r Gweithwyr Cymdeithasol ail-asesu defnyddwyr y Ganolfan ar gyfer sicrhau bod y ddarpariaeth ar eu cyfer yn gwrdd â'u hanghenion cyfredol.

2.6.7 Diolchodd yr Uwch Reolwr Gweithredol swyddogion Archwilio Mewnol am eu cymorth a'u cydweithrediad parod bob amser.

**2.6.8 Diolchwyd i'r Uwch Reolwr Gweithredol am fynychu'r cyfarfod ac am egluro'r hyn sydd eisoes wedi ei gyflawni ac am amlinellu'r camau gweithredol sydd ar y gweill.**

### 2.7 Trafnidiaeth Gyhoeddus

2.7.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Gan fod cywirdeb cyfartaledd prisiau tocyn sengl i oedolyn mis Medi 2009 yn sylfaen i gywirdeb y taliadau hyd heddiw, mae'n hanfodol bod y ffigwr yma yn gywir. Fodd bynnag, dengys adroddiad archwilio 'Tocynnau Teithio Rhad 2013/14' na ellir rhoi sicrwydd bod y ffigyrau yma yn gywir. Argymhellwyd i ail-wneud yr ymarferiad yma er mwyn cael ffigyrau mwy diweddar, a thystiolaeth ddigonol i'w gyfiawnhau. Erbyn yr archwiliad yma, nid yw'r ymarferiad wedi ei gynnal ac o ganlyniad ni ellir rhoi sicrwydd bod y taliadau yn gywir.*

*Detholwyd sampl o hawliadau chwarter cyntaf pedwar cwmni bysus a gwelwyd fod yr adroddiadau disgwyliedig (adroddiadau Wayfarer sy'n cofnodi'r defnydd o docynnau mantais fesul llwybr) wedi eu cyflwyno i gefnogi yr hyn hawliwyd. Fodd bynnag, gwelwyd fod un cwmni yn gyson yn ceisio hawlio mwy o siwrneiau nag mae'r adroddiadau yn awgrymu y maent yn deilwng iddynt a bod gwiriadau'r Gwasanaeth yn golygu nad yw'r cwmni yn derbyn beth maent yn hawlio. Gwelwyd bod y Gwasanaeth wedi dod a hyn i sylw y cwmni.*

*Mae'r defnydd a wneir o gofnodi tocynnau gyda llaw yn gynhennus. Disgwylir bod dim mwy na 2% o ad-daliadau yn deillio o docynnau proseswyd gyda llaw, yn hytrach na drwy sganio tocyn i beiriant wrth i deithwyr gamu ar fws. Mae risg sylweddol o gamddefnyddio'r botwm yma, ac mae hyn eisoes wedi ei adnabod.*

*Mae'r Gwasanaeth yn cofnodi'r defnydd a wneir o docynnau a broseswyd gyda llaw drwy eu cofnodi mewn taenlen. Gan fod y canran o docynnau a broseswyd gyda llaw yn gyson dros 2%, gwelwyd fod y Gwasanaeth wedi bod yn rhagweithiol drwy dynnu hyn i sylw Llywodraeth Cymru ar y cyd gyda Chynghorau eraill Gogledd Cymru. Gofynnwyd am arweiniad os dylai'r cwmnïau dderbyn taliad am unrhyw docyn a broseswyd gyda llaw dros y 2%, a hyd yn hyn ni dderbyniwyd gwrthwynebiad gan Lywodraeth Cymru i dalu dros y trothwy. Ar amser yr archwiliad, mae un cwmni yn bryderus nad oedd eu peiriannau yn gweithio ('memory' llawn) ac felly bydd rhaid iddynt brosesu llawer o docynnau gyda llaw.*

*Yn ôl cymal 19 o ganllawiau 'Concessionary Travel Scheme: Guidance for Local Authorities' (1 Ebrill 2010), caiff y Cyngor hawlio costau gweinyddiaeth gan y Llywodraeth yn chwarterol, sy'n gyfatebol i £3 ar gyfer pob tocyn teithio rhad mewn cylchrediad yng Ngwynedd. Bydd y Cyngor yn nodi yn eu hawliad chwarterol faint o docynnau rhad sydd mewn cylchrediad, eu lluosi gyda £3, ac yna ei chwarteru, i adlewyrchu cyfnod yr hawliad. Gwirwyd hawliad chwarter 1 2015/16 a gwelwyd fod y costau gweinyddiaeth wedi eu cyfrifo'n gywir.*

*Gwelwyd fod y Gwasanaeth yn gosod pob cytundeb cludiant ar Sell2Wales, beth bynnag ei gwerth ac ystyrir hyn fel ymarfer da. Fodd bynnag, mae bwriad gan y Gwasanaeth i werthuso tendrau ar sail pris yn unig yn y dyfodol. Bydd rhan technegol, neu ansawdd y tendr, yn cael ei ddyfarnu ar sail 'pass/fail' yn hytrach na cyfrannu at sgôr y tendr.*

*Nid yw'r Gwasanaeth fel rheol yn cynnal gwiriadau ariannol ar y cwmnïau er mwyn sicrhau os ydynt yn hyfyw neu beidio. Gall yr Uned Caffael gynnal gwiriadau syml o'r fath, ac argymhellir i'r Gwasanaeth ystyried gwneud hynny fel rhan o'u proses gwerthuso, yn ogystal â derbyn prawf bod yr hyn gyflwynwyd yn y tendr yn gywir.*

2.7.2 Croesawyd Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Rheoleiddio dros dro i'r cyfarfod.

2.7.3 Eglurodd y Rheolwr Archwilio bod yr archwiliad wedi ei gynnwys yng nghynllun archwilio 2015-16 ar gais y Pennaeth Rheoleiddio (Dafydd Wyn Williams).

2.7.4 Cydnabu'r Pennaeth Rheoleiddio a'r Rheolwr Archwilio bod y maes hwn yn gynhennus oherwydd bod y Cyngor yn ddibynnol ar ddata a gaiff ei ddarparu gan y cyflenwyr, bod derbyn y data yn broblemus ac nad oes modd o allu darparu sicrwydd llawn am ei gywirdeb. Eglurodd y Pennaeth Rheoleiddio bod hyn yn broblemus wrth geisio cyfrifo cyfartaledd pris tocyn sengl i oedolyn.

2.7.5 Mynegodd y Rheolwr Archwilio eu bod wedi darganfod gwall mewn fformiwla taenlen ar gyfer sgorio'r elfen "ansawdd" ar gyfer cytundeb. Pwysleisiodd mai camgymeriad yn unig oedd hyn ac nad oedd ymgais o dwyll.

2.7.6 Dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio bod y trefniadau bellach wedi newid a bod cytundebau yn cael eu hasesu ar sail pris yn unig erbyn hyn ond ei bod yn ofynnol i gyrraedd meini prawf penodol ac os nad yw darparwr yn cwrdd â'r holl feini prawf gofynnol, yna caiff eu cynnig ei ddiystyru.

2.7.7 Ymholodd aelod beth oedd y trefniadau ar gyfer tocynnau a broseswyd gyda llaw. Eglurodd y Pennaeth Rheoleiddio eu bod wedi gwella trefniadau ac yn cadw cofnod manwl ar daenlen o'r holl fanylion er mwyn adnabod unrhyw dueddiad anghyffredin. Eglurodd bod y Cyngor yn cysylltu â Llywodraeth Cymru cyn gwneud unrhyw daliad dros y trothwy ac nad oedd Llywodaeth Cymru wedi gwrthwynebu i unrhyw daliad hyd yma ond nad oedd sicrwydd i'r dyfodol.

2.7.8 Ymholodd aelod os byddai monitro teledu cylch cyfyng o gymorth i adnabod unrhyw dueddiadau anghyffredin. Dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio ei fod yn broblemus derbyn data gan y cyflenwyr ac ategodd y Rheolwr Archwilio nad yw'n hanfodol i gael teledu cylch cyfyng ar deithiau masnachol, sydd yn ofyniad ar gyfer cludiant teithio disgyblion i'r ysgol.

2.7.9 Dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio ei fod yn croesawu'r adroddiad a'r dilyniant sydd eisoes wedi ei gynllunio a'i fod yn ddiolchgar i'r Gwasanaeth Archwilio am eu gwaith a'u cyd-weithrediad.

**2.7.10 Diolchwyd i'r Pennaeth Rheoleiddio am fynychu'r gweithgor ac am amlinellu'r datblygiadau ers rhyddhau'r adroddiad archwilio.**

# Eitem 12

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **11 CHWEFROR 2016** |
| TEITL | **CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 31 IONAWR 2016** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Tachwedd 2015 hyd at 31 Ionawr 2016.

**2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD**

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 31 Ionawr 2016:

| **Disgrifiad** | **Nifer** |
|---|---|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 15 |
| Adolygiadau Grant | 6 |
| Archwiliadau Dilyniant | 3 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 31 Hydref 2015, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Defnydd Ymgynghorwyr | Corfforaethol | | B | Atodiad 1 |
| Ymwybyddiaeth o Bolisi Canu'r Gloch – Gweithwyr Llaw | Corfforaethol | | B | Atodiad 2 |
| Grant Partneriaeth Ddysgu Gwynedd ac Ynys Môn – Cau i Lawr | Addysg | Adnoddau | A | Atodiad 3 |
| Modelu'r Gweithlu – Ysgol Baladeulyn | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 4 |
| Modelu'r Gweithlu – Ysgol Nebo | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 5 |
| Modelu'r Gweithlu – Ysgol Treferthyr | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 6 |
| Academi Hwylio | Economi a Chymuned | Prosiectau Sylweddol | B | Atodiad 7 |
| Canolfan Hamdden Arfon | Economi a Chymuned | Hamdden | C | Atodiad 8 |
| Gofal Cartref – Cyfathrebu â Gofalwyr Cymunedol | Oedolion, Iechyd a Llesiant | - | B | Atodiad 9 |
| Llywodraethu trefniadau cydweithio gyda'r 3ydd Sector | Oedolion, Iechyd a Llesiant | - | B | Atodiad 10 |
| Plas y Don | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | C | Atodiad 11 |
| Plas Hedd | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | C | Atodiad 12 |
| Hafod Mawddach | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | B | Atodiad 13 |
| Cynnal a Chadw Adeiladau a Safleoedd | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Fflyd | C | Atodiad 14 |

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Pont Briwet | Rheoleiddio | Trafnidiaeth a Gofal Stryd | D/B | Atodiad 15 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

**2.3 Grantiau**

2.3.1 Adolygwyd gweithdrefnau gweinyddol y grantiau canlynol yn ystod y cyfnod:

- Grant Addysg Ôl-16 *(Addysg)*
- Grant i Ysgolion Band 4 a 5 *(Addysg)*
- Grant y Gymraeg mewn Addysg *(Addysg)*
- Grant Amddifadedd Disgyblion *(Addysg)*
- Grant Effeithiolrwydd Ysgolion *(Addysg)*
- Grant Llwybrau Dysgu *(Addysg)*

2.3.2 Nid yw'r ffaith fod Archwilio Mewnol wedi adolygu'r grantiau yma yn golygu na fydd archwilwyr allanol yn cynnal archwiliadau o'r grantiau yma hefyd. Fodd bynnag, disgwylir fod y gwaith y mae Archwilio Mewnol, a'r sicrwydd y bu'n bosib ei ddatgan am yr amgylchedd reolaeth, yn golygu y bydd angen llai o waith archwilio gan y cyfundrefnau hyn. Bydd hyn, yn ei dro, yn golygu lleihad yn y ffioedd y bydd yn rhaid i'r Cyngor ei dalu am archwiliadau allanol.

## 2.4 Archwiliadau Dilyniant

2.4.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|---|
| System Swyddi | Corfforaethol | - | Derbyniol |
| Taliadau Cymorth Cyntaf | Corfforaethol | - | Annerbyniol |
| TG – Trefniadau wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth | Cyllid | Technoleg Gwybodaeth | Derbyniol |

2.4.2 Gosodir gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

**Rhagorol** - pob un o'r argymhellion wedi ei gweithredu yn unol â'r disgwyl.
**Derbyniol** - y rhan fwyaf o'r argymhellion, gan gynnwys y mwyafrif o'r argymhellion "hanfodol", wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.
**Anfoddhaol** - nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.
**Annerbyniol** - y mwyafrif o'r argymhellion (gan gynnwys argymhellion pwysig) heb ei gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol.

2.4.3 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2016**
Iechyd Diogelwch – Gweithio'n Unig
Cynllun Datblygu Amgueddfa ac Oriel Gwynedd
Costau Teithio Gweithwyr Gofal Cymunedol

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2016**
Arwystl ar Eiddo Preswylwyr Cartrefi
Terfynu Gweithwyr oddi ar Systemau TG
Trafnidiaeth Gyhoeddus

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Medi 2016**
Canolfan Hamdden Plas Ffrancon
Cefn Rodyn

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 1 Chwefror 2016.

**3.2 Archwiliadau yn mynd rhagddynt**

- Trefniadau Diogelu – Ymwybyddiaeth Staff o'r Polisi *(Corfforaethol)*
- Asesiad Corfforaethol *(Corfforaethol)*
- Rhoddion a Lletygarwch Swyddogion - Gwasanaethau Risg Uchel *(Corfforaethol)*
- Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol *(Corfforaethol)*
- Telerau Contractau – Trefniadau Diogelu *(Corfforaethol)*
- Llywodraethu Gwybodaeth – Deddf Diogelu Data *(Corfforaethol)*
- Y Fenter Twyll Genedlaethol *(Corfforaethol)*
- Arlwyaeth Ysgolion *(Addysg)*
- Modelu'r Gweithlu *(Addysg)*
- Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru
- Ysgolion – Iechyd a Diogelwch Ymweliadau Addysgol *(Cefnogaeth Gorfforaethol)*
- System Dyledwyr – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- System Taliadau – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- Cysoni Banc – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- System Gyflogau – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- Cronfa Bensiwn – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- Budd-daliadau – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- Treth Cyngor – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- Trethi Busnes – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- Rhaglenni Hyfforddiant Gweithwyr Gofal *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Arolygiadau *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Incwm Meysydd Parcio *(Rheoleiddio)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Tachwedd 2015 hyd at 31 Ionawr 2016, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

Atodiad 1

**DEFNYDD YMGYNGHORWYR**
**Corfforaethol**

**Cefndir**

Mae gwariant ar ymgynghorwyr yn fater cynhennus ac wedi derbyn cryn sylw yn y cyfryngau yn y gorffennol. Dengys adroddiadau gwariant ar god refeniw 'Ffioedd Ymgynghorwyr' bod y Cyngor yn gwario oddeutu £1.3m yn flynyddol ar ymgynghorwyr. Diffinnir 'Ymgynghorwr' yn y geiriadur fel "Un sy'n rhoddi cyngor (proffesiynol mewn maes arbenigol)". Mae Llawlyfr yr Uned Gaffael hefyd yn awgrymu mai cynnig "*cyngor arbenigol o fewn maes gwaith penodol"* mae ymgynghorwyr ond mae hefyd yn ychwanegu gallent "*llenwi unrhyw fylchau mewn sgiliau sy'n bodoli o fewn y maes penodol hwnnw"*, sydd yn ehangu cwmpas gwaith ymgynghorwyr yn sylweddol.

**Bwriad yr Archwiliad**

Bwriad yr archwiliad oedd adolygu trefniadau penodi a'r gwerth am arian a dderbynnir drwy benodi ymgynghorwyr.

**Cwmpas yr Archwiliad**

Roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio sampl o anfonebau a dalwyd ar godau gwariant ymgynghorwyr ar draws y Cyngor, gan ganolbwyntio bod y canlynol wedi ei sefydlu: trefniadau gwirio statws cyflogaeth, bodolaeth cynlluniau busnes a threfniadau cyllidol. Nid oedd yr archwiliad yn cwmpasu adolygu gwariant cyfalaf ar ddefnydd ymgynghorwyr nac ychwaith ar ddefnydd o weithwyr asiantaeth.

**Prif Ddarganfyddiadau**

Wrth ddadansoddi sampl o'r anfonebau a dalwyd ar cod gwariant refeniw 'Ffioedd Ymgynghorwyr', gwelwyd bod yr amrywiaeth o'r math o waith a elwir yn 'ymgynghoriaeth' yn eang. Darganfuwyd anfonebau ar gyfer gwaith ble mae codau gwariant penodol eraill ar eu cyfer, megis hyfforddiant swydd a chyfieithu. Petai rhywun, mewnol neu allanol, eisiau darganfod lefelau gwariant y Cyngor ar ymgynghorwyr, bydd echdynnu adroddiad o'r cyfriflyfr ariannol ar cod gwariant refeniw 'Ffioedd Ymgynghorwyr' yn debygol o awgrymu bod llawer mwy wedi ei wario ar ymgynghorwyr na sydd wedi ei wneud mewn gwirionedd, yn sgil cam-godio. Er enghraifft, roedd gwerth un o'r anfonebau ar cod gwariant 'Ffioedd Ymgynghorwyr' oedd, yn ôl cadarnhad y rheolwr, wedi ei gam-godio, yn £99,995. Trefnwyd i drosglwyddo'r costau yma i'r cod gwariant cywir.

Er hyn, gwelwyd bod gwaith 'ymgynghoriaeth' weithiau yn cael ei godio ar godau gwariant eraill, sy'n gwanhau dibynadwyedd ffigyrau'r cyfriflyfr hefyd, ac wrth reswm yn golygu na fyddent yn ymddangos ar adroddiadau gwariant perthnasol i bwrpas dethol sampl archwilio. Gwiriwyd y cyfriflyfr a detholwyd sampl o brosiectau ar draws y Cyngor er mwyn gwirio'r trefniadau penodi a'r gwerth am arian. Ni welwyd bod achos busnes ffurfiol wedi'i lunio ar gyfer y prosiectau a ddetholwyd yn y sampl. Fodd bynnag, gwelwyd bod dogfennau tebyg (fel briff) wedi'i llunio sy'n crynhoi'r prosiectau ac yn rhestru y disgwyliadau.

O’r sampl a ddetholwyd, gwelwyd fod y Cyngor wedi profi’r farchnad yn briodol, drwy ofyn am ddyfynbrisiau neu mynd i dendr, oni bai bod rheswm digonol dros beidio, e.e. diffyg amser. Yn ôl telerau'r grant oedd yn ariannu un o’r prosiectau yn y sampl, roedd angen cyflawni’r gwaith a gwario'r grant rhwng y 10/02/14 a’r 31/03/14. Yn sgil yr amserlen heriol, penderfynodd yr Aelod Cabinet ildio’r rheolau sefydlog contractau yn yr achos yma. Gweler o Daflen Penderfyniad Aelod Cabinet (18/02/14) fod y Prif Weithredwr, Swyddog Monitro a’r Prif Swyddog Cyllid yn cytuno gyda’r penderfyniad. Mynegwyd “*Oherwydd yr amserlen hynod o heriol sy’n wynebu’r Cyngor yn sgil dyfarniad Llywodraeth Cymru ac amodau a thelerau’r cyllid, credaf nad oes modd profi’r farchnad yn y ffordd arferol.*”

Disgwylir i reolwyr ystyried gwneud y gwaith yn fewnol cyn comisiynu cwmni allanol i’w gyflawni. Mynegodd nifer o’r rheolwyr yn y sampl bod cael cwmni allanol i gyflawni’r gwaith yn rhoi fwy o hygrededd i’r gwaith dan sylw, yn enwedig pan fod y mater dan sylw yn sensitif e.e. effaith toriadau.

Un o’r rhesymau bod ffioedd ymgynghorwyr yn fater cynhennus yw bod y ffioedd dyddiol yn dueddol o fod yn uwch na’r costau o gyflogi’n fewnol. Petai’r trefniant o gyflogi ymgynghorwyr yn un hir dymor, yna mae’n ymarfer da i swyddogion ystyried statws cyflogaeth yr ymgynghorwr gan werthuso'r costau a’r buddion o dalu'r ffioedd drwy *accounts payable*, neu drwy greu swydd dros dro a’u gosod ar y gyflogres. Gwelwyd enghraifft ble mae unigolyn ar gyflogres ysgol ond hefyd wedi anfonebu'r Cyngor am oriau ychwanegol ar gyfradd uwch. Er na gyfeirebwyd y gwariant yn erbyn ‘ffioedd ymgynghorwyr’ yn yr achos yma, amlygwyd gwendidau o safbwynt statws cyflogaeth gan nad oedd yr Uwch Reolwyr ar y pryd yn ymwybodol o’r trefniant ac nad oedd cytundeb mewn lle i gynnwys e.e. telerau gwaith, y defnydd a wneir o adnoddau yr ystafell a’r ysgol ayyb i bwrpas busnes yr unigolyn.

Gwelwyd enghraifft ble mae cyn-swyddog yn cyflawni gwaith ymgynghoriaeth ar ôl ymddeol yn 2009. Roedd hyn oherwydd pwysau gwaith o fewn y gwasanaeth a diffyg adnoddau mewnol wedi i nifer o swyddogion adael y Cyngor. Yn ogystal, gwelwyd bod un swyddog wedi gorfod gadael cyflogaeth y Cyngor ar sail yr angen i wireddu arbedion, ond fe’i gyflogwyd fel ‘ymgynghorwr’ yn fuan wedyn gan fod angen swyddog cymwysedig yn y maes i gyflawni gwaith perthnasol, tra bod swyddogion digymhwyster yn y broses o gymhwyso.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B)** **Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ‘Defnydd Ymgynghorwyr’ gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.**

Er bod y cyfriflyfr yn dangos bod ffioedd ymgynghorwyr oddeutu £1.3m yn flynyddol, dengys canlyniadau’r archwiliad nad yw hyn yn adlewyrchu gwariant yr Awdurdod ar ‘dderbyn cyngor arbenigol’ yn unig. O’r sampl a wiriwyd, gwelwyd bod llawer o’r gwariant ar wasanaethau amrywiol, sydd ym marn yr archwilwyr nid yn wariant ar ‘ymgynghorwyr. Yn ogystal, o’r sampl a ddetholwyd, gwelwyd bod sawl prosiect ‘ymgynghoriaeth’ wedi ei ariannu drwy grant allanol, ble mae’r gwariant wedi ei gymeradwyo gan y corff cyllido.

Atodiad 2

**YMWYBYDDIAETH O BOLISI CANU'R GLOCH - GWEITHWYR MAES**
**Corfforaethol**

**Cefndir yr Archwiliad**
Dosbarthwyd holiadur gan Archwilio Mewnol i weithwyr prif swyddfeydd y Cyngor fel rhan o archwiliad 'Trefniadau Datgelu - Ymwybyddiaeth o'r Polisi Canu'r Gloch' (Tachwedd 2014), gyda'r bwriad o ddarganfod pa mor gyfarwydd yw'r gweithwyr gyda Pholisi Datgelu a Chanu'r Gloch y Cyngor ynghyd â chanfod eu barn tuag at y polisi a'r trefniadau. Roedd yr archwiliad yn cwmpasu dylunio a dosbarthu holiadur electroneg i'r holl weithwyr oedd gyda chyfeiriad e-bost Cyngor Gwynedd. Fodd bynnag, gan fod Archwilio Mewnol yn cydnabod bod ymwybyddiaeth gweithwyr maes yn fater pwysig, penderfynwyd neilltuo adnoddau i gynnal adolygiad o ymwybyddiaeth gweithwyr maes o'r Polisi yn ystod 2015/16.

**Bwriad yr Archwiliad**
Bwriad yr archwiliad oedd cynnal adolygiad o ymwybyddiaeth gweithwyr maes y Cyngor am Bolisi Datgelu a Chanu'r Gloch y Cyngor ynghyd â chanfod barn y gweithwyr tuag at y polisi a'r trefniadau a pha mor debygol ydynt i'w ddefnyddio petai amgylchiadau yn codi.

**Cwmpas yr Archwiliad**
Roedd yr archwiliad yn cwmpasu dylunio a dosbarthu holiadur i sampl o weithwyr maes y Cyngor. Nid oedd gweithwyr maes Ysgolion yn syrthio i gwmpas yr archwiliad hwn. Mae cynllun blynyddol Archwilio Mewnol yn golygu cynnal nifer o ymweliadau allanol, a phenderfynwyd y buasai pob Archwiliwr yn dosbarthu'r holiadur tra ar ymweliadau ar gyfer Archwiliadau eraill drwy gydol y flwyddyn, megis Gofal Cartref, Cartrefi Preswyl, Traethau, Depos a Gweithdai ayyb. Roedd hyn yn galluogi arbed ar gostau, yn ogystal ag annog y gweithwyr i gwblhau'r holiadur a chynnig cyngor ac arweiniad fel bo'r angen. Llwyddwyd i dderbyn 86 holiadur yn ôl.

Rhaid cadw mewn cof bod atebion yr holiadur yn gwbl anhysbys. Golyga hyn nad oes modd i'r archwilwyr wirio cywirdeb unrhyw ymateb, ac felly wrth ddadansoddi'r atebion rhaid rhagdybio bod pob ateb a roddwyd yn gywir a gwir.

**Prif Ddarganfyddiadau**
Prif ddarganfyddiadau'r archwiliad yw'r ffaith bod ymwybyddiaeth o'r polisi yn uchel ymysg gweithwyr maes, gyda 81% yn mynegi eu bod yn ymwybodol o'r polisi. Yn ôl atebion yr holiadur, mae'r ymwybyddiaeth yma yn deillio o drafodaethau gyda rheolwyr llinell, cydweithwyr a sesiynau anwytho, ond canran isel iawn sydd wedi derbyn cerdyn cyswllt canu'r gloch – 16% yn unig. Awgrymwyd yn yr atebion bod ambell weithiwr wedi peidio canu'r gloch mewn sefyllfa o bryder am gamymarfer yn y gweithle yn seiliedig ar y ffaith nad oeddent yn ymwybodol bod trefniadau canu'r gloch mewn lle, sy'n atgyfnerthu'r angen i barhau i godi ymwybyddiaeth.

O'r holiaduron a ddychwelwyd, nododd 3 gweithiwr eu bod wedi canu'r gloch yn y gorffennol. Mynegodd 2 ohonynt eu bod yn hapus gyda sut y cafodd yr achosion eu trin, gydag un ohonynt yn nodi bod yr achos ei datrys, a'r llall wedi ei ddatrys i raddau. Ni chafodd y mater ei ddatrys yn yr achos ble mynegodd y gweithiwr nad oedd yn hapus gyda sut y deliwyd gyda'r achos.

Yn dilyn sylwadau o ddiffyg ffydd yn y drefn canu'r gloch yn holiadur 2014, gofynnwyd i'r gweithwyr maes roi sgôr ar ba mor hyderus ydynt hwy yn y drefn, ble mae 1 yn dynodi 'dim hyder' a 5 yn 'gwbl hyderus'. Mae sgôr o 5 yn awgrymu bod gan y gweithwyr ffydd y bydd cwynion yn cael eu cymryd o ddifri, bod rheolwyr yn gweithredu a hynny heb ragfarn yn erbyn y sawl sy'n canu'r gloch. Cyfartaledd y sgôr oedd 3.85 (o'i gymharu â 3.09 i weithwyr swyddfa), sy'n dynodi bod gweithwyr maes y Cyngor, yn gyffredinol, gyda hyder yn y drefn.

Rhestrodd yr holiadur enghreifftiau o amgylchiadau (wedi eu cymryd o'r polisi) ble dylai gweithwyr ganu'r gloch os ydynt yn dod ar eu traws yn y gweithle. Gofynnodd yr holiadur petai'r gweithwyr yn darganfod yr enghreifftiau yma yn y dyfodol, yn realistig, ar gyfer pa rai byddent yn debygol o ganu'r gloch, gyda'r opsiwn o ddewis unrhyw nifer o enghreifftiau y dymunent.

Dengys y canlyniadau buasai 93% o'r gweithwyr yn canu'r gloch petaent yn dod ar draws rhywbeth sy'n gyfystyr â cham-drin cleientiaid yn rhywiol, yn gorfforol neu yn emosiynol. Serch y canran uchel, disgwylir i bawb rannu unrhyw bryder mewn achosion o'r fath er mwyn cyd-fynd â "Pholisi Diogelu Plant ac Oedolion" y Cyngor. Dim ond 60% o weithwyr fynegodd y buasent yn canu'r gloch am rywbeth sydd yn achosi, neu sy'n debygol o achosi, niwed i'r amgylchedd. Roedd rhwng 81% a 92% o'r gweithwyr yn barod i ganu'r gloch yn yr enghreifftiau eraill.

Petai'r ymatebwyr yn datgan na fuasent yn canu'r gloch yn erbyn unrhyw un o'r enghreifftiau uchod, yna roedd gofyn iddynt egluro pam ddim. Rhoddir sampl o'r sylwadau isod:

*"Ofn, rhywun yn eich bwlio i beidio"*

*"Ofn i nhw nhrin i yn wahanol (rheolwr llinell). Ofn i nhw ddweud pwy sydd wedi dweud"*

*"Dibynnu ar faint o ddrwg ac faint o weithiau mae'n digwydd".*

Yn olaf, gofynnwyd i'r gweithwyr gynnig unrhyw sylwadau ychwanegol yr hoffent gyflwyno. Rhoddir sampl o'u sylwadau isod:

*"The whistleblowing policy is very reassuring re- service users and staff alike, to ensure a safe, happy environment to both work and live"*

*"Change the name. A lot of people don't like it"*

*"Deal with matters quicker"*

*"Due to my past experience I have no faith in the disciplinary procedure"*

*"Raise awareness to all staff - hold workshops in care homes".*

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb mewn ymwybyddiaeth o bolisi a threfniadau Canu'r Gloch gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid ail-ddosbarthu'r cardiau cyswllt canu'r gloch.**
- **Cynnwys trafodaeth ar bwysigrwydd Canu'r Gloch mewn cyfarfodydd gyda gweithwyr maes, er mwyn ymdrechu i geisio lleihau pryderon staff ynglŷ n â chanu'r gloch a cheisio ennyn eu hyder yn y trefniadau.**
- **Cynnal sesiynau/gweithdai hyfforddiant.**

Atodiad 3

**GRANT PARTNERIAETH DDYSGU GWYNEDD AC YNYS MÔN**
**Addysg**

**Cefndir**

Sefydlwyd Consortiwm Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn yn dilyn gwaith cefndirol ac ymgynghorol gydag Ysgolion a Cholegau lle adnabuwyd bod angen partneriaeth gadarn ar gyfer darparu gwasanaeth addysgol ôl-16 yn y ddwy Sir. Roedd y prosiect yn cael ei ariannu yn rhannol gan Ysgolion, Colegau, Awdurdodau Lleol a grant "European Social Fund" (ESF) gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.
Roedd cyllideb o £1.1m ar gyfer y prosiect oedd yn cael ei redeg o Ebrill 2013 i Hydref 2015. Fodd bynnag, ni fu i'r prosiect gychwyn ar amser oherwydd amryw o faterion yn codi. Yn y diwedd, fe gychwynnodd y prosiect yn ei gyfanrwydd ym Mawrth 2014 hyd at Hydref 2015.

**Bwriad yr Archwiliad**

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer cau lawr prosiect Grant Partneriaeth Ddysgu Gwynedd ac Ynys Môn.

**Cwmpas yr Archwiliad**

Gwirio trefniadau a dogfennau cau i lawr y prosiect.

**Prif Ddarganfyddiadau**

Gwelwyd bod enghreifftiau cryf iawn o ymarfer da a rheolaeth gadarn mewn lle ar gyfer cau lawr prosiect Grant Partneriaeth Ddysgu Gwynedd ac Ynys Môn, er mwyn lliniaru ystod o risgiau yng ngweinyddiaeth a rheolaeth y prosiect.
Roedd ystyriaeth wedi cael ei roi i'r materion canlynol:

- **Bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer cau'r prosiect i lawr, gyda pherson dynodedig yn gyfrifol am gyflwyno'r cais grant terfynol a sicrhau bod y taliad grant terfynol yn cael ei dderbyn.**
- **Bod trefniadau priodol ar gyfer cau'r swyddfa a delio gydag eiddo a chynnwys y swyddfa.**
- **Bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer talu am unrhyw anfonebau dyledus ar ôl i'r swyddfa gau.**
- **Bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer dargadw dogfennau yn unol â chanllawiau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO).**
- **Bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer delio gyda staff sy'n ymwneud â'r Grant Partneriaeth Ddysgu Gwynedd ac Ynys Môn lle mae'r swyddfa'n cau.**

Cafwyd cadarnhad gan y Swyddogion yn ystod yr archwiliad bod Consortiwm Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn wedi derbyn cymeradwyaeth i barhau gyda'r gwasanaeth yn 2016 gan ddefnyddio cyllideb "Match Funding" oedd yn weddill o'r prosiect ac felly yn dilyn cau'r prosiect ddiwedd 2015 mae'r gwasanaeth nawr am barhau tan o leiaf Rhagfyr 2016.

**Barn yr Archwiliad**

**(A)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau rheolaethol Grant Partneriaeth Ddysgu Gwynedd a Môn gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

Atodiad 4

**MODELU'R GWEITHLU - YSGOL BALADEULYN**
**Addysg**

**Cefndir**
Corff Llywodraethol ysgol sy'n gyfrifol am reoli a rhedeg yr ysgol a rhoddir pwerau dirprwyedig i'r Pennaeth i allu rhedeg yr ysgol o ddydd i ddydd. Mae hawliau'r Pennaeth o ran penderfyniadau ariannol wedi ei bennu gan y Corff Llywodraethol a dylid fod wedi ei gofnodi o fewn polisi'r ysgol.

Cyfrifoldeb y Pennaeth yw adrodd i'r Corff Llywodraethol yn gyson ar sefyllfa ariannol yr ysgol ac unrhyw fater sy'n effeithio'r sefyllfa hwnnw.

Mae'r Corff Llywodraethol yn gyfrifol am bennu gweithdrefnau i weinyddu gweithgareddau personél, gan gynnwys penodiadau, terfyniadau a dyrchafiadau.

**Bwriad yr Archwiliad**
Sicrhau fod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer modelu'r gweithlu mewn ysgolion cynradd yng Ngwynedd, er mwyn lliniaru risgiau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol.

**Cwmpas yr Archwiliad**
Dethol sampl o ysgolion cynradd o wahanol faint ac o wahanol ardaloedd yng Ngwynedd gan ymweld â hwy i'w harchwilio ar gyfer yr archwiliad.

**Prif Ddarganfyddiadau**
Ymddengys bod trefniadau modelu'r gweithlu da ar y cyfan yn bodoli yn Ysgol Baladeulyn gydag athrawon yn derbyn amser CPA priodol, swyddog priodol wedi ei phenodi i ymgymryd â gwaith gweinyddol, taliadau CAD yn cael eu gweinyddu'n gywir, amser y Pennaeth yn cael ei neilltuo'n briodol ar gyfer amser rheoli ac arwain a bod rheolaeth gyllidebol ddigonol yn bodoli.

Gwelwyd bod swydd ddisgrifiadau yn cael eu hadolygu'n flynyddol a'u bod wedi eu hadolygu ddiwethaf ar 15/09/2015. Roedd swydd ddisgrifiadau'r athrawon yn cynnwys manylion megis amodau gwaith a dyletswyddau, atebolrwydd, cyfrifoldebau penodol, disgwyliadau a chyfrifoldebau ychwanegol yn unol â'r disgwyl. Fodd bynnag pan gymharwyd y swydd ddisgrifiadau i'r copi generig o swydd ddisgrifiad ar gyfer athro/athrawes sy'n bodoli gan yr Adran Addysg, gwelwyd bod lle i ychwanegu mwy o gymalau perthnasol i swydd ddisgrifiadau'r athrawon. Gellir dweud yr un fath pan gymharwyd swydd ddisgrifiad cyfredol y Pennaeth i swydd ddisgrifiad generig sydd gan yr Adran Addysg ar gyfer Penaethiaid. Byddai'n ymarfer da cymharu swydd ddisgrifiadau cyfredol y Pennaeth ag athrawon yr ysgol gyda'r swydd ddisgrifiadau generig, er mwyn canfod os oes budd i ychwanegu rhai cymalau newydd i swydd ddisgrifiadau cyfredol y Pennaeth a'r athrawon.

Gwelwyd tystiolaeth yn yr ysgol bod ffurflenni arolwg cyflog blynyddol Medi 2015 wedi cael eu cwblhau ar gyfer yr athrawon, serch hynny nid oedd copïau o'r ffurflenni arolwg wedi eu hanfon ymlaen at sylw'r Uned Cyflogau a Chontractau. Deëllir na fu i'r Uned Cyflogau a Chontractau dderbyn ffurflenni arolwg cyflog blynyddol Medi 2014 ychwaith. Mynegodd y Pennaeth y byddai yn trefnu i anfon y copïau ymlaen yn syth i'r Uned Cyflogau a Chontractau.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau modelu'r gweithlu yn Ysgol Baladeulyn gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Byddai'n ymarfer da pe byddai'r Pennaeth yn derbyn copi gan yr Adran Addysg o swydd ddisgrifiad generig ar gyfer Pennaeth ac athro/athrawes, er mwyn eu cymharu â swydd ddisgrifiadau cyfredol y Pennaeth ac athrawon yr ysgol, er mwyn adnabod cymalau ychwanegol y dylid ystyried eu hychwanegu i'r swydd ddisgrifiadau cyfredol.**
- **Dylid anfon ffurflenni arolwg cyflog blynyddol athrawon ymlaen i'r Uned Cyflogau a Chontractau erbyn y dyddiad penodedig a nodir ar y ffurflenni arolwg.**

Atodiad 5

**MODELU'R GWEITHLU -YSGOL NEBO**
**Addysg**

**Cefndir**
Corff Llywodraethol ysgol sy'n gyfrifol am reoli a rhedeg yr ysgol a rhoddir pwerau dirprwyedig i'r Pennaeth i allu rhedeg yr ysgol o ddydd i ddydd. Mae hawliau'r Pennaeth o ran penderfyniadau ariannol wedi ei bennu gan y Corff Llywodraethol a dylid fod wedi ei gofnodi o fewn polisi'r ysgol.

Cyfrifoldeb y Pennaeth yw adrodd i'r Corff Llywodraethol yn gyson ar sefyllfa ariannol yr ysgol ac unrhyw fater sy'n effeithio'r sefyllfa hwnnw.

Mae'r Corff Llywodraethol yn gyfrifol am bennu gweithdrefnau i weinyddu gweithgareddau personél, gan gynnwys penodiadau, terfyniadau a dyrchafiadau.

**Bwriad yr Archwiliad**
Sicrhau fod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer modelu'r gweithlu mewn ysgolion cynradd yng Ngwynedd, er mwyn lliniaru risgiau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol.

**Cwmpas yr Archwiliad**
Dethol sampl o ysgolion cynradd o wahanol faint ac o wahanol ardaloedd yng Ngwynedd gan ymweld â hwy i'w harchwilio ar gyfer yr archwiliad.

**Prif Ddarganfyddiadau**
Ymddengys bod trefniadau boddhaol ar gyfer modelu'r gweithlu yn Ysgol Nebo gydag athrawon yn derbyn amser CPA priodol, swyddog addas wedi ei phenodi i ymgymryd â gwaith gweinyddol, amser y Pennaeth yn cael ei neilltuo'n briodol ar gyfer amser rheoli ac arwain a bod rheolaeth gyllidebol ddigonol yn bodoli.

Derbyniwyd copi o strwythur staffio'r ysgol ond gwelwyd nad oedd y strwythur yn manylu ar oriau/diwrnodau gweithio'r gweithwyr. Deëllir bod swydd ddisgrifiadau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, fodd bynnag nid oedd pob swydd ddisgrifiad a archwiliwyd yn yr ysgol wedi eu dyddio a'u harwyddo yn briodol. Golyga hyn nad oedd yn bosibl cadarnhau dyddiad yr adolygwyd rhai o'r swydd ddisgrifiadau ac os oedd y gweithwyr wedi eu derbyn gan nad oedd eu llofnod arnynt.

Roedd swydd ddisgrifiadau'r athrawon yn cynnwys manylion megis dyletswyddau gwaith, cyfrifoldebau penodol a chyfrifoldebau arweinydd cwricwlaidd yn unol â'r disgwyl, fodd bynnag pan gymharwyd y swydd ddisgrifiadau i'r copi generig o swydd ddisgrifiad ar gyfer athro/athrawes sy'n bodoli gan yr Adran Addysg gwelwyd bod lle i ychwanegu mwy o gymalau perthnasol i swydd ddisgrifiadau'r athrawon. Gellir dweud yr un fath pan gymharwyd swydd ddisgrifiad cyfredol y Pennaeth i swydd ddisgrifiad generig sydd gan yr Adran Addysg ar gyfer Penaethiaid. Byddai'n ymarfer da cymharu swydd ddisgrifiadau cyfredol y Pennaeth ac athrawon yr ysgol yn erbyn y swydd ddisgrifiadau generig, er mwyn canfod os oes budd ychwanegu rhai cymalau newydd i swydd ddisgrifiadau cyfredol y Pennaeth a'r athrawon.

Nid oedd ffurflenni arolwg cyflog blynyddol Medi 2015 wedi cael eu cwblhau ar gyfer athrawon yr ysgol.

Mynegodd y Pennaeth yn ystod yr archwiliad nad oedd bob amser yn hollol glir o'r adroddiadau cyllidol a gaiff eu derbyn ac y byddai'n gwerthfawrogi mynychu unrhyw hyfforddiant cyllidol a fyddai yn cael ei gynnal yn y dyfodol a fyddai o fudd iddi.

Yn dilyn trafodaeth bellach gyda'r Uwch Gyfrifydd ynghylch y mater bu i'r Uwch Gyfrifydd fynegi y byddai'n fuddiol i'r Pennaeth y tro nesaf mae hi'n mynychu cymhorthfa gyllid iddynt drafod unrhyw faterion cyllidol y mae'r Pennaeth yn dymuno hyfforddiant pellach arno.

<u>**Barn yr Archwiliad**</u>

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau modelu'r gweithlu yn Ysgol Nebo gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod y copi o'r strwythur staffio a gedwir yn yr ysgol yn manylu ar oriau/diwrnodau gweithio'r gweithwyr.**
- **Dylid sicrhau bod swydd ddisgrifiadau'r gweithwyr a gedwir ar ffeil yn yr ysgol i gyd wedi eu harwyddo a'u dyddio'n briodol.**
- **Byddai'n ymarfer da pe byddai'r Pennaeth yn derbyn copi gan yr Adran Addysg o swydd ddisgrifiad generig ar gyfer Pennaeth ac athro/athrawes, er mwyn eu cymharu â swydd ddisgrifiadau cyfredol y Pennaeth ac athrawon yr ysgol, er mwyn adnabod cymalau ychwanegol y dylid ystyried eu hychwanegu i'r swydd ddisgrifiadau cyfredol.**
- **Dylid sicrhau bod ffurflenni arolwg cyflog blynyddol yn cael eu cwblhau'n flynyddol ar gyfer athrawon, gyda'r athrawon a Chadeirydd y Corff Llywodraethol yn eu harwyddo, ac yna sicrhau fod copïau o'r ffurflenni yn cael eu hanfon ymlaen at sylw'r Uned Cyflogau a Chontractau.**

Atodiad 6

**MODELU'R GWEITHLU -YSGOL TREFERTHYR**
**ADDYSG**

**Cefndir**

Corff Llywodraethol ysgol sy'n gyfrifol am reoli a rhedeg yr ysgol a rhoddir pwerau dirprwyedig i'r Pennaeth i allu rhedeg yr ysgol o ddydd i ddydd. Mae hawliau'r Pennaeth o ran penderfyniadau ariannol wedi ei bennu gan y Corff Llywodraethol a dylid fod wedi ei gofnodi o fewn polisi'r ysgol.

Cyfrifoldeb y Pennaeth yw adrodd i'r Corff Llywodraethol yn gyson ar sefyllfa ariannol yr ysgol ac unrhyw fater sy'n effeithio'r sefyllfa hwnnw.

Mae'r Corff Llywodraethol yn gyfrifol am bennu gweithdrefnau i weinyddu gweithgareddau personél, gan gynnwys penodiadau, terfyniadau a dyrchafiadau.

**Bwriad yr Archwiliad**

Sicrhau fod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer modelu'r gweithlu mewn ysgolion cynradd yng Ngwynedd, er mwyn lliniaru risgiau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol.

**Cwmpas yr Archwiliad**

Dethol sampl o ysgolion cynradd o wahanol faint ac o wahanol ardaloedd yng Ngwynedd gan ymweld â hwy i'w harchwilio ar gyfer yr archwiliad.

**Prif Ddarganfyddiadau**

Ymddengys bod trefniadau modelu'r gweithlu da ar y cyfan yn bodoli yn Ysgol Treferthyr gydag athrawon yn derbyn amser CPA priodol, cyflogau athrawon yn cael eu hadolygu'n flynyddol, amser y Pennaeth yn cael ei neilltuo'n briodol ar gyfer amser rheoli ac arwain a bod rheolaeth gyllidebol dda yn bodoli.

Gwelwyd bod swydd ddisgrifiadau gweithwyr yr ysgol wedi eu diwygio'n ddiweddar a'u bod ar ffurf templed priodol gan gynnwys manylion dyletswyddau a chyfrifoldebau'r gweithwyr yn unol â'r disgwyl. Fodd bynnag, gwelwyd nad oedd un athro wedi dychwelyd ei swydd ddisgrifiad diwygiedig wedi ei arwyddo. Mynegodd y Pennaeth y byddai yn dilyn i fyny ar hyn. Wrth ystyried mor ddiweddar y bu i'r swydd ddisgrifiadau gael eu diwygio gwelwyd fod ymdrech dda wedi cael ei wneud i dderbyn y swydd ddisgrifiadau arwyddedig yn ôl.

Pan archwiliwyd swydd ddisgrifiadau'r gweithwyr yn ddyfnach gwelwyd nad oedd oriau gweithio wedi nodi ar swydd ddisgrifiadau un o'r cymhorthyddion addysgu ac nad oedd swydd ddisgrifiadau'r athrawon yn nodi pa ganran o wythnos lawn oeddent yn ei weithio.

Gwelwyd yn ôl y fformiwla cyllido ysgolion cynradd ar gyfer 2015/16 y byddai hawl gan Ysgol Treferthyr i gyllideb o £8,153 ar gyfer Staff Ategol: Clerigol. Ni wneir defnydd llawn o'r gyllideb yma, deellir mai ond £2,305 y penderfynodd yr ysgol ei roi yn y pennawd cyllidol Staff Ategol: Clerigol yn 2015/16 gan drosglwyddo'r gweddill o'r arian - £5,848 i benawdau cyllidol eraill. Holwyd y Pennaeth ymhellach ar y mater yma a derbyniwyd esboniad gan y Pennaeth bod yr ysgol wedi hysbysebu am

glerc ychydig o flynyddoedd yn ôl ac ni fu i neb ddatgan diddordeb yn y swydd. Golyga hyn bod y clerc a oedd yn gyflogedig bryd hynny wedi parhau yn ei swydd o weithio 5 awr yr wythnos. Mynegodd y Pennaeth ei bod yn gwneud rhan fwyaf o'r gwaith clercio ei hun a bod y drefn yn gweithio yn yr ysgol. Deëllir bod 2 gymhorthydd yn yr ysgol yn cael eu cyflogi i weithio 35.75 awr yr wythnos a'u bod yn yr ysgol tan 5 o'r gloch gyda'r nos ac mai hwy sydd yn gyfrifol am wneud y rhan fwyaf o'r gwaith llungopïo ar gyfer yr athrawon.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau modelu'r gweithlu yn Ysgol Treferthyr gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod yr athro sydd heb arwyddo ei swydd ddisgrifiad diwygiedig yn gwneud hynny cyn gynted â phosibl.**
- **Dylid sicrhau bod swydd ddisgrifiadau gweithwyr yr ysgol yn cynnwys manylion oriau gweithio'r gweithwyr neu mewn achos athro manylion pa "bwynt" o wythnos lawn y maent yn ei weithio.**

Atodiad 7

**ACADEMI HWYLIO**
**Economi a Chymuned**

**Cefndir**

Cydariannwyd y prosiect £8 miliwn o adeiladu'r Academi Hwylio a Chanolfan Ddigwyddiadau ym Mhwllheli gan y Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd. Mae'r Academi Hwylio a Chanolfan Ddigwyddiadau yn ganolfan aml-weithredol yn cynnwys prif neuadd ar gyfer defnydd hwylio a'r gymuned, ystafelloedd hyfforddi ac addysgol a chyfleusterau arlwyo. Fe agorwyd yr adeilad yn haf 2015 gydag amryw o ddigwyddiadau a chystadlaethau eisoes wedi cymryd lle yno.

**Bwriad yr Archwiliad**

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod rheolaeth gyllidebol a chynnydd prosiect adeiladu'r Academi Hwylio ym Mhwllheli yn ddigonol ac yn cyd-fynd â llawlyfr rheoli prosiectau y Cyngor. Sicrhau bod taliadau sy'n cael eu cwblhau i gontractwyr gyda'r cynllun yn cydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefn a bod y taliadau wedi'u cyfrifo'n gywir gyda dogfennau digonol i gyfiawnhau'r taliadau.

**Cwmpas yr Archwiliad**

Gwirio'r trefniadau a'r rheolaethau sydd mewn lle i liniaru ystod o risgiau yn rheolaeth prosiect adeiladu'r Academi Hwylio ym Mhwllheli.

**Prif Ddarganfyddiadau**

Ymddengys bod trefniadau da a chadarn mewn bodolaeth gan yr Adran Economi a Chymuned ac Ymgynghoriaeth Gwynedd ar gyfer rheoli'r prosiect adeiladu'r Academi Hwylio. Gwelwyd bod trefn dda yn bodoli lle mae'r Rheolwr Uned Contractau yn cadw manylion yr holl ddadansoddiadau sydd yn cefnogi'r ffigyrau ar y tystysgrifau interim yn electroneg.

Archwiliwyd sampl o dystysgrifau interim yn ymwneud â thaliadau i brif gontractwyr y prosiect a'u gwirio i'r dadansoddiadau a gedwir gan y Rheolwr Uned Contractau ac fe'u cafwyd yn gywir. Fodd bynnag, pan archwiliwyd ffeiliau'r Adran Economi a Chymuned gwelwyd nad oedd manylion yr holl ddadansoddiadau ar ffeil i gefnogi'r taliadau yn ymwneud â'r tystysgrifau interim.

Mae'r archwiliwr o'r farn y byddai yn ymarfer da i sicrhau bod yr holl ddadansoddiadau'n cael eu ffeilio gyda'r tystysgrifau interim cyn bod trefniadau yn cael eu gwneud i archifo'r ffeiliau. Y rheswm pennaf am hyn yw petai archwiliad yn cael ei chynnal mewn blynyddoedd i ddod a'r swyddogion wedi symud ymlaen i swyddi eraill gallai bod risg bod neb yn medru cyfiawnhau sut y cyfrifwyd y ffigyrau sy'n ymddangos ar y tystysgrifau interim.

Archwiliwyd sampl o daliadau a wnaethpwyd i gontractwyr yn ymwneud â'r prosiect a gwelwyd o'r sampl a archwiliwyd nad oedd 16% ohonynt wedi eu talu o fewn 14 diwrnod o pryd dderbyniwyd yr anfoneb wreiddiol. Y risg cysylltiedig â hyn yw y gall y Cyngor gael ei gosbi drwy orfod talu llog ar daliadau hwyr.

Gwelwyd hefyd wrth archwilio'r anfonebau a'r slipiau codio TR252 fod adegau lle nad oedd y blychau pwynt treth wedi cael eu cwblhau o gwbl tra gwelwyd ar rhai eraill nad oedd y dyddiadau cywir pob amser wedi eu cofnodi yn y blychau, sef y gwir ddyddiad a dderbyniwyd yr anfoneb, y dyddiad ar y stamp derbyn. Mae'r Uned Taliadau yn defnyddio'r dyddiad a gofnodir yn y blwch pwynt treth ac yn seiliedig ar y dyddiad hyn y gwneir y taliad. Golyga hyn ei fod yn bwysig fod y dyddiadau cywir yn cael eu mewnbynnu yn y blychau pwynt treth, er mwyn sicrhau fod anfonebau yn cael eu talu ar amser.

Deëllir gan y Rheolwr Tîm Prosiectau Strategol a'r Rheolwr Uned Contractau ei fod yn fwriad ganddynt gwblhau taflen 'log gwersi a ddysgwyd' yn y dyfodol agos a'i fod yn fwriad derbyn mewnbwn y contractwyr hefyd wrth wneud y dasg.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B)** **Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn rheolaeth prosiect adeiladu'r Academi Hwylio, gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Byddai'n ymarfer da sicrhau fod yr holl ddadansoddiadau i gefnogi'r tystysgrifau interim yn cael eu ffeilio gyda'r tystysgrifau ar ffeiliau yr Adran Economi a Chymuned cyn bo'r ffeiliau yn mynd i'w harchifo.**
- **Dylid ymdrechu i dalu contractwyr o fewn yr amseroedd penodol ac fe ddylid sicrhau bod dyddiad derbyn yr anfoneb/tystysgrif sef dyddiad y stamp derbyn yn cael ei gofnodi yn y blwch treth ar y slip codio TR252.**
- **Dylid sicrhau bod y daflen log gwersi a ddysgwyd yn cael ei chwblhau.**

**CANOLFAN HAMDDEN ARFON**
**Economi a Chymuned**

**Cefndir**

Mae Canolfannau Hamdden Cyngor Gwynedd o fewn y Gwasanaeth Cymunedau Iach, sydd yn rhan o'r Adran Economi a Chymuned. Mae trefniadau rheoli'r canolfannau wedi newid yn lled ddiweddar, ac erbyn hyn ceir 4 Rheolwr Ardal sydd rhyngddynt yn gyfrifol am reoli canolfannau'r sir.

**Bwriad yr Archwiliad**

Sicrhau fod trefniadau yn bodoli yn y Ganolfan Hamdden, er mwyn rheoli a lliniaru risgiau'n briodol, ac i sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau mewnol y Cyngor a gweithdrefnau perthnasol eraill.

**Cwmpas yr Archwiliad**

Ymweld â'r Ganolfan i gynnal archwiliad, er mwyn sicrhau bod trefniadau priodol dros gasglu incwm, rheolaeth gyllidebol ac iechyd a diogelwch yn bodoli ar gyfer rheoli amrywiol risgiau.

**Prif Ddarganfyddiadau**

Cadarnhaodd y Rheolwr ar Ddyletswydd eu bod yn cynhyrchu adroddiadau misol perthnasol ar gyfer y ganolfan. Gwelwyd bod adroddiadau "Point of sales Transactions - Cancelled" wedi eu cynhyrchu yn ogystal â adroddiadau "Record Refunded". Wrth archwilio sampl o dri mis ar draws y flwyddyn ariannol 2014/ 15 gwelwyd bod adroddiadau mis Chwefror a Gorffennaf 2015 ar gael, ond nid oedd modd darganfod rhai 2014 ar ddiwrnod yr archwiliad.

Archwiliwyd sampl o bedwar 'Cais i Logi Cyfleusterau' yn y Ganolfan. Wrth archwilio'r ceisiadau gwelwyd nad oedd rhif anfoneb na dyddiad wedi eu nodi ar y ceisiadau ac oherwydd hyn roedd yn anodd darganfod yr anfoneb gywir i gyd fynd â'r 'Cais i logi Cyfleusterau'.

Derbyniwyd manylion dyledwyr y Ganolfan gan y Gwasanaeth Refeniw a gwelwyd bod cyfanswm y dyledion yn £19,637.10 ar 08/06/2015. Mae'r cyfanswm yma yn deillio o nifer o ddyledwyr unigol (35).

Bydd gwybodaeth a thelerau debyd uniongyrchol cwsmeriaid yn cael eu cadw mewn ffeil yn y Ganolfan. Nid yw'r wybodaeth yma yn cael ei gadw dan glo, ond yn hytrach fe'i cedwir ar silff yn ystafell gefn sydd tu ôl i'r dderbynfa. Golyga hyn bod yna risg y gall gwybodaeth bersonol fynd i'r dwylo anghywir wrth beidio cadw'r wybodaeth yn ddiogel.

Caiff offer ei farcio yn y Ganolfan yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid oes cofnod ffurfiol o ba offer sydd wedi eu marcio na gyda pa gyfeirnod mae'r offer wedi eu marcio. Dylid ystyried rhoi'r wybodaeth yma ar restr eiddo'r Ganolfan fel ei bod yn bosibl dilyn trywydd yr offer pe bai unrhyw beth yn cael ei ddwyn.

Mae yna drefniadau anwytho staff mewn bodolaeth yn y Ganolfan. Bydd y wybodaeth yma yn cael ei cadw ar gynllun hyfforddiant personol yr unigolyn yn swyddfa'r Rheolwr Ardal. Wrth archwilio sampl o becynnau anwytho staff gwelwyd ei bod yn orfodol i staff ddarllen a deall y polisi iechyd a diogelwch sydd wedi ei gynnwys yn y pecyn anwytho. Fodd bynnag, yn y sampl o ddau becyn

anwytho staff archwiliwyd gwelwyd nad oeddynt wedi arwyddo a dyddio i gadarnhau eu bod wedi darllen y polisi.

Nid oedd cofnod ffurfiol o wiriadau ar lefel stoc y nwyddau cymorth cyntaf ar gael fel tystiolaeth ar gyfer yr archwiliad. Mynegodd y Rheolwr ar Ddyletswydd eu bod am gynhyrchu ffurflen newydd ar gyfer cynnal gwiriadau lefel stoc cymorth cyntaf. Yn dilyn yr archwiliad derbyniodd yr archwiliwr gopi o'r ffurflen newydd a gynhyrchwyd ym mis Medi 2015. Fodd bynnag, gwelwyd nad oedd wedi ei harwyddo yn briodol.

Mae'r Ganolfan yn cadw adroddiadau digwyddiad ar gyfer cofnodi manylion damweiniau a ddigwyddir yn y Ganolfan yn ogystal â chwblhau ffurflenni HS11 ar gyfer damweiniau difrifol. Ni chedwir yr adroddiadau digwyddiad na'r ffurflenni HS11 dan glo. Golyga hyn bod risg i wybodaeth bersonol am unigolion gyrraedd y dwylo anghywir.

Gwelwyd bod sylweddau niweidiol yn cael eu cadw yn y "Plant Room" yn y Ganolfan. Fodd bynnag, gwelwyd nad oedd yr ystafell hon yn cael ei chloi yn ystod y dydd ond gyda'r nos. Golyga hyn bod risg i unigolion/aelodau o'r cyhoedd yn gael eu niweidio petaent yn mynd i'r ystafell.

Mae taflenni COSHH yn bresennol yn y "Plant Room" lle cedwir y sylweddau ar gyfer y pwll nofio ac fe'i cedwir mewn ffeil. Cwblhawyd yr asesiad diwethaf yn 2013 ac fe nodir ar y dogfennau COSHH yn y Ganolfan nad yw'r asesiad nesaf i gymryd lle hyd Rhagfyr 2018. Ymddengys bod hyn yn gyfnod hir heb asesiad.

<u>**Barn yr Archwiliad**</u>

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau Canolfan Hamdden Arfon, Caernarfon gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod rhif anfoneb a'r dyddiad yn cael ei nodi yn y man perthnasol ar y ffurflen 'Cais i Logi', fel bod modd paru'r anfoneb gywir â'r 'Cais i Logi'.**
- **Dylid adolygu niferoedd dyledion y Ganolfan a cheisio eu datrys yn brydlon.**
- **Dylid sicrhau bod unrhyw wybodaeth sydd yn ymwneud â debyd uniongyrchol aelodau'r Ganolfan yn cael eu cadw dan glo.**
- **Dylid ystyried nodi ar y rhestr eiddo pa offer sydd wedi eu marcio a beth yw'r cyfeirnod ar yr offer.**
- **Mae angen ystyried cyflwyno'r polisi Iechyd a Diogelwch y Cyngor i staff newydd a sicrhau eu bod yn arwyddo y pecyn anwytho.**
- **Dylid sicrhau bod gwiriadau stoc yn cael eu gwneud ar nwyddau cymorth cyntaf yn y Ganolfan a bod y cofnod stoc yn cael ei arwyddo gan aelod o staff.**
- **Dylid sicrhau bod gwybodaeth sensitif bersonol ar ffurflenni HS11 ac Adroddiadau Digwyddiad yn cael eu cadw dan glo i gyd-fynd â gofynion y Ddeddf Diogelu Data.**
- **Dylid ystyried cloi'r 'Ystafell Plant Room' i leihau'r risg o'r cyhoedd gael mynediad i sylweddau niweidiol.**
- **Dylid gwirio os yw'n ofynnol i gwblhau asesiad o'r sylweddau COSHH yn amlach na phob 5 mlynedd ac fe ddylid eu cwblhau yn amlach os yn berthnasol.**

Atodiad 9

**GOFAL CARTREF – CYFATHREBU Â GOFALWYR CYMUNEDOL**

**Oedolion, Iechyd a Llesiant**

**Cefndir**

Mae cyfathrebu ac ymgysylltu â staff yn allweddol i sicrhau bod trigolion Gwynedd yn derbyn gofal a chymorth o'r ansawdd gorau. I sicrhau bod cyfathrebu'n llwyddo, mae'n hanfodol bod yr hyn a gaiff ei gyfathrebu'n cael ei atgyfnerthu drwy gyfarfodydd staff, gweithdai a goruchwyliaeth.Yn ogystal, mae goruchwyliaeth yn cael effaith enfawr ar sut mae staff yn gweithio. Mae'n effeithio eu hyder, ysgogiad a'u cymhwysedd; mae'r effeithio sut maent yn gweithio gyda'u cyd-weithwyr; mae'n effeithio ar sut maent yn teimlo tuag at eu swydd a'u cyflogwr. Mae hyn i gyd yn effeithio'n uniongyrchol ar ansawdd y gofal a gaiff ei gynnig i'r bobl sydd yn defnyddio'r gwasanaeth.

**Bwriad yr Archwiliad**

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod strwythur digonol mewn lle ar gyfer cyfathrebu gyda Gofalwyr Cymunedol a'i fod yn cael ei weithredu yn llwyddiannus.

**Cwmpas yr Archwiliad**

Roedd yr archwiliad yn cwmpasu ymholi pa sianeli cyfathrebu sydd mewn lle a pha wybodaeth a gaiff ei raeadru i'r Gofalwyr yn ogystal â pha drefniadau sydd mewn lle i'r Gofalwyr esgoli unrhyw fater. Gwnaed hyn drwy ymholi trawstoriad o'r Gofalwyr o dair ardal Gwynedd er mwyn derbyn eu hadborth ar y modd y maent yn cael eu diweddaru am unrhyw newidiadau mewn trefniadau gweithio, polisïau, hyfforddiant a.y.b. a pha drefniadau sydd wedi eu sefydlu iddynt esgoli unrhyw bryder neu gŵyn.

**Prif Ddarganfyddiadau**

Mae strwythur y Gwasanaeth wedi ei ddylunio fel bod pob Gofalwr yn atebol i Oruchwylwyr o fewn eu hardal. Y Goruchwylwyr yw'r pwynt cyswllt pennaf rhwng 'y Cyngor' a'r Gofalwyr allan yn y maes. Yn ogystal, mae Is-Reolwr Gwasanaethau Cymunedol ym mhob ardal yn arwain y Goruchwylwyr. Cynhyrchir amserlenni gwaith (rotas) y Gofalwyr gan y Cynllunwyr yn y swyddfa ardal berthnasol. Mae'r amserlenni gwaith yn cael eu hanfon allan drwy'r post yn wythnosol, a bydd unrhyw newidiadau yn cael eu cyfathrebu drwy ffôn symudol.

Yn dilyn trafodaethau gyda'r Gofalwyr, mynegwyd yn gyffredinol eu bod yn fodlon gyda'r trefniadau cyfathrebu gan nodi bod perthynas gwaith dda rhyngddynt a'u Goruchwylwyr, gan deimlo bod digon o gefnogaeth ar gael iddynt a bod unrhyw bryderon a gaiff eu codi yn derbyn sylw. Ar y llaw arall, o ran cyfathrebu dydd i ddydd, mynegodd rai o'r Gofalwyr achlysuron ble nad yw'r swyddfa yn ateb ffôn a bod trefnu gwyliau yn cymryd amser annerbyniol o hir i'w ganiatáu, yn ogystal â nodi bod ymweliadau gwahanol weithiau yn gorgyffwrdd ei gilydd a bod angen cynllunio amserlenni gwaith yn well, ond y prif gŵyn oedd bod diffyg signal ffôn symudol mewn rhai ardaloedd o Wynedd, ac roedd pryderon sut y bydd hyn yn effeithio'r PDAs (Personal Digital Assistant) newydd a gaiff eu mabwysiadu cyn bo hir.

Mae staff swyddfa'r Cyngor yn derbyn gohebiaeth cyfathrebu mewnol, megis Bwletin Gair o Gyngor, gweithgareddau neu ddigwyddiadau o fewn y Cyngor, diweddariadau Ffordd Gwynedd, a.y.b. yn bennaf drwy e-bost neu fewnrwyd y Cyngor. Hyd nes i'r Gofalwyr dderbyn PDAs, mae angen trefniadau amgen i sicrhau eu bod yn derbyn yr ohebiaeth yma. Wrth ymweld â'r cyfarfodydd cylch a

drwy drafodaeth gyda'r Gofalwyr darganfuwyd fod eu profiadau yn amrywio. Mynegodd rhai eu bod yn derbyn gohebiaeth drwy'r post gyda'u hamserlenni gwaith, eraill drwy'r cyfarfodydd cylch, ac eraill ddim yn eu derbyn o gwbl.

Mae'r cyfarfodydd cylch yn gyfle i'r Gofalwyr â'r Goruchwylwyr ddod at ei gilydd i drafod materion gwaith. Ymwelwyd â sampl o gyfarfodydd cylch ar draws y tair ardal a gwelwyd eu bod yn cael eu cynnal mwy nag unwaith o fewn yr un cyfnod yng nghylchoedd Arfon, ond unwaith yn unig i bob cylch yn Nwyfor a Meirionnydd. Gwelwyd bod y niferoedd sy'n mynychu'r cyfarfodydd cylch yn amrywio. Wrth holi'r Gofalwyr, mynegwyd bod y rhai oedd yn mynychu'r cyfarfodydd 'llai' yn ymddangos yn fwy bodlon gyda'r trefniadau, gyda'r rhai oedd yn mynychu'r cyfarfodydd 'mwy' yn dweud eu bod weithiau yn teimlo mai gwrando yn unig maent yn ei wneud ac nad oes fawr o gyfle i gael trafodaethau mor effeithiol. Sylw arall a gafwyd oedd bod y cyfarfodydd yn trafod yr un pethau bob tro.

Dylai bod cyfarfodydd goruchwylio un i un rhwng y Gofalwyr a'r Goruchwylwyr yn cael eu cynnal yn chwarterol. Fodd bynnag, mynegodd y mwyafrif o'r Gofalwyr bod y nifer o gyfarfodydd yn llawer llai na hyn mewn gwirionedd, gyda rhai yn dweud nad oeddent yn cofio pryd y cynhaliwyd eu cyfarfod diwethaf.

Awgrymodd pob Gofalwr eu bod yn trafod anghenion hyfforddiant yn y cyfarfodydd un i un, ac yn awyddus i dderbyn hyfforddiant perthnasol i'w swyddi, megis Diabetes neu Ddementia os ydynt yn gofalu am unigolyn gyda'r anhwylder. Fodd bynnag, nododd llawer o'r Gofalwyr fod hyfforddiant yn cael ei drafod yn aml ond nad yw eu ceisiadau am hyfforddiant yn cael eu gwireddu neu caiff ei ohirio yn aml.

Pwyntiau eraill a godwyd yn ystod y trafodaethau oedd nad oedd gan y Gofalwyr fynediad at restr o swyddi mewnol y Cyngor. Trafodwyd yng nghyfarfodydd cylch Meirionnydd bod y gweithwyr wedi eu henwebu eleni am wobr 'Cyngor ar ei Orau', ond cyn hynny nid oedd y Gofalwyr yn ymwybodol o fodolaeth y gwobrau. Darganfuwyd nad oedd y rhan fwyaf o'r Gofalwyr yn gyfarwydd â Ffordd Gwynedd, a bod neb yn gyfarwydd â Pholisi 'Diogelu Plant ac Oedolion' y Cyngor ond eu bod yn ymwybodol o gynllun POVA (Prevention of Vulnerable Adults) a gwelwyd bod ymroddiad y Gofalwyr tuag at eu cleientiaid yn amlwg drwy'r ymarferiad.

**Barn yr Archwiliad**

**(B)** **Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau 'Gofal Cartref - Cyfathrebu â Gofalwyr Cymunedol' gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Fodd bynnag, gan fod y Gwasanaeth am fabwysiadu PDAs cyn bo hir a fydd yn disodli'r trefniadau presennol, disgwylir i'r Gwasanaeth fonitro bodlondeb y Gofalwyr ac effeithiolrwydd y dyfeisiau yn barhaus er mwyn sicrhau sianeli cyfathrebu cryf ynghyd â sicrhau bod hyfforddiant priodol yn cael ei gynllunio a'i gyflwyno.**

Atodiad 10

## TREFNIADAU LLYWODRAETHU CYDWEITHIO GYDA'R TRYDYDD SECTOR
## Oedolion, Iechyd a Llesiant

**Cefndir**

Mae'r Cyngor yn comisiynu gwaith gan y trydydd sector i gyflawni o fewn y maes gofal. Mae'r cytundebau ar gyfer y gwaith yma yn eu pumed flwyddyn ar hyn o bryd ac mae bwriad i gychwyn cytundebau newydd ar gyfer 2016/17. Edrychwyd yn benodol ar gytundebau o fewn y maes oedolion ar gyfer yr archwiliad yma oedd yn cynnwys gwasanaeth a chefnogaeth ar amryw o faterion megis dementia a phroblemau iechyd meddwl.

**Bwriad yr Archwiliad**

Cynnal adolygiad o gontractau a gwaith ar y cyd gyda'r trydydd sector o fewn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant (elfen Gwasanaethau Cymdeithasol) i sicrhau bod trefniadau llywodraethu pendant yn bodoli yn ogystal â chytundebau addas lle'n briodol.

**Cwmpas yr Archwiliad**

Derbyn gwybodaeth am enghreifftiau o weithio gyda'r trydydd sector drwy wirio'r trefniadau am y penderfyniad o fynd i gytundeb ynghyd â chynnwys y cytundebau sydd mewn lle. Nid oedd cwmpas yr archwiliad yn cynnwys yr elfen cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd gan fod hynny wedi bod yn destun archwiliad yn ei hun yn ystod 2014/15.

**Prif Ddarganfyddiadau**

Mae'r cytundebau gyda'r mudiadau trydydd sector yn dod i ben ar 31/03/2016. Cyfnod o dair blynedd oedd y cytundebau gwreiddiol, ond estynnwyd hwy am gyfnod ychwanegol yn dilyn cyfarfod o'r Grŵp Cyswllt Sector Wirfoddol a Chyngor Gwynedd. Derbyniwyd sylw'r Swyddog Monitro ar gyfer y penderfyniad a nododd nad oedd yn credu bod oblygiadau caffael yn deillio o'r estyniad. Nid oedd cymal yn y cytundebau gwreiddiol i nodi'r opsiwn o'u hymestyn, bydd hyn yn rhywbeth fydd angen ei ychwanegu i'r cytundebau newydd lle mae trefniadau caffael yn berthnasol. Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod amcan gost unrhyw estyniad i gytundeb yn cael ei gynnwys yn yr amcan gost wreiddiol fel y gellid sicrhau bod y broses briodol yn cael ei dilyn wrth gontractio'r gwaith.

Gosodwyd y cytundebau yma yn wreiddiol yn dilyn gofyn i'r mudiadau gyflwyno cais am grant. Fodd bynnag, erbyn y cytundebau nesaf, mae'r Adran wedi adnabod lle mae gwasanaeth penodol y maent am ei gomisiynu y byddent am ddilyn y broses caffael berthnasol ar gyfer eu gwerth. Fodd bynnag, maent am roi grant lle bydd yr arian yn ariannu cyllideb graidd y mudiad. Nid oes disgwyl ar hyn o bryd i'r mudiadau gyflwyno cais am y grant yma tra mae'r Adran yn canfod beth yn union yw natur y gwasanaeth maent eisiau ei gomisiynu. Mae'n gyfrifoldeb i'r Cyngor ymddwyn yn ddiduedd a gall rhoi grant i'r un mudiadau dro ar ôl tro ymddangos fel bod y Cyngor yn dangos ffafriaeth tuag atynt. Ymddengys nad yw'r cytundebau wedi eu cymeradwyo gan yr Uned Gyfreithiol. Bydd derbyn mewnbwn gan yr Uned Gyfreithiol cyn dechrau'r broses yn ymarfer da i sicrhau bod gwarchodaeth briodol yn bodoli. Gwiriwyd cynnwys y cytundebau a gwelwyd bod y cymalau disgwyliedig wedi eu cynnwys a disgwylir y bydd y rhain yn ymddangos yn y cytundebau newydd yn ogystal.

Gwelwyd bod cymal safonol wedi ei gynnwys yn y sampl o gytundebau a wiriwyd ar gyfer yswiriant indemniti. Y lleiafswm a ofynnir amdano fel Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus yw £2,000,000. Yn dilyn sgwrs gyda'r Uned Rheoli Risg ac Yswiriant, nodwyd gall y swm yma fod fymryn yn isel bellach ac argymhellir i'r Adran Oedolion drafod y gofynion gyda hwy i sicrhau bod lefel priodol yn cael ei gynnwys.

Cyn mynd i gytundeb gyda mudiadau'r trydydd sector, mae angen i'r Cyngor fod yn fodlon gyda safon perfformiad y mudiadau yma yn ogystal â'u hyfywdra ariannol. Mae angen i'r Cyngor sicrhau fod yr arian yn mynd i ddarparu gwasanaeth o safon dderbyniol i drigolion Gwynedd.

<u>**Barn yr Archwiliad**</u>

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Nhrefniadau Llywodraethu Cydweithio Gyda'r Trydydd Sector gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod yr opsiwn i ymestyn cytundeb yn cael ei nodi o fewn y cytundebau a bod cost hynny'n cael ei adlewyrchu yn yr amcan gost wrth benderfynu'r dull priodol o hysbysebu a mynd allan i'r farchnad.**
- **Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i fod yn ddiduedd felly dylid bod yn ofalus i beidio dangos ffafriaeth tuag at gwmnïau neu fudiadau penodol. Dylid ystyried felly gofyn i'r mudiadau gyflwyno cais am y grantiau a dderbynnir.**
- **Byddai'n ymarfer da petai'r Uned Gyfreithiol yn cymeradwyo'r cytundebau yn y dyfodol.**
- **Dylid ystyried newid lefel lleiafswm yr Yswiriant Indemniti y gofynnir amdano yn y cytundebau lefel gwasanaeth. Gall bod o fudd i drafod y mater gydag Uned Yswiriant y Cyngor.**
- **Dylid sicrhau bod yr anfonebau'n cael eu gwirio'n briodol a bod y ffigyrau'n cael eu trosglwyddo'n gywir i'r daflen felen TR252.**
- **Dylid sicrhau bod y Cyngor yn fodlon gyda pherfformiad y mudiad cyn mynd i gytundeb â hwy a bod tystiolaeth yn cael ei dderbyn o'r perfformiad.**

**Atodiad 11**

**PLAS Y DON**

**Oedolion, Iechyd a Llesiant**

**Cefndir**

Mae Cartref Plas y Don wedi ei leoli ym Mhwllheli ac yn cynnig gofal parhaol a thymor byr i breswylwyr.

**Bwriad yr Archwiliad**

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau ariannol Cartref Plas y Don yn briodol ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor ynghyd â gwirio trefniadau diogelwch a rheolaeth meddyginiaeth.

**Cwmpas yr Archwiliad**

Archwiliwyd prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nghyfriflyfr 2014-15 ynghyd â threfniadau rheolaeth y Cartref. Archwiliwyd trefniadau meddyginiaeth y Cartref i sicrhau eu bod yn unol â rheoliadau, deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol.

**Prif Ddarganfyddiadau**

Yn ystod yr archwiliad darganfuwyd enghreifftiau o ymarfer da mewn rhai o drefniadau'r Cartref. Fodd bynnag, ymddengys bod enghreifftiau o weithredu yn groes i drefniadau gweinyddol y Cyngor ac o ganlyniad i'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol.

Mae'n ofynnol bod y taflenni 'Cofnod o Arian Preswylydd' yn cael eu llofnodi gan ddau berson ar gyfer pob gwariant o arian poced y preswylwyr. Roedd dau achos ble mai ond un person oedd wedi arwyddo'r daflen. Ni welwyd derbynebau i gefnogi pob gwariant oedd wedi ei gofnodi ar y cardiau. Nid oedd y balans rhedegol yn gywir ar ddau allan o 5 o'r taflenni 'Cofnod o Arian Preswylydd'.

Cymerwyd sampl o daflenni 'eitemau personol' o Gynlluniau Gofal 3 o'r preswylwyr a'u gwirio. Nid oedd y ffurflenni wedi eu dyddio na'u llofnodi i gadarnhau eu cynnwys.

Gwiriwyd cyfrif imprest y cartref ar gyfer 2014/15 a gwelwyd bod ceisiadau am ad-daliad wedi eu gwneud ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2014 ac ym mis Ionawr 2015 a gwelwyd ar y tri achlysur eu bod dros y lefel gwariant a ragbennwyd.

Mae'r cartref yn cofnodi ar daflen pryd a phwy sydd wedi archebu'r feddyginiaeth, gwirio presgripsiwn a gwirio'r feddyginiaeth a dderbynnir. Nid oedd cofnod cyflawn ar gyfer y feddyginiaeth a archebwyd ym mis Mawrth ac Ebrill 2015.

Mae'n ofynnol bod dau aelod o staff yn cofnodi eu bod wedi derbyn y feddyginiaeth ar y daflen MAR (Medication Administration Record). Gwiriwyd sampl o 5 taflen MAR a gwelwyd bod dau lofnod derbyn ar gyfer meddyginiaeth ar 4 o'r taflenni yma.

Eglurwyd fel rhan o reoli sicrwydd ansawdd y cartref, mae swyddog annibynnol yn ymweld â'r cartref yn gyfnodol i wirio trefniadau meddyginiaeth y Cartref. Ar adeg yr archwiliad nid oedd trefniadau'r cartref yn dderbyniol, gyda phwyntiau gweithredu wedi eu nodi fel materion brys. Mae trefniadau ar gyfer ail ymweld â'r Cartref i gynnal adolygiad annibynnol pellach wedi ei gynllunio er mwyn sicrhau bod trefniadau yn gwella.

__Barn yr Archwiliad__

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau Cartref Plas y Don gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid monitro'r gyllideb yn rheolaidd e.e. ar sail fisol a chymryd camau cynnar petai gorwariant ar benawdau yn dod i'r amlwg.**
- **Dylid cwblhau archeb yn gyflawn ar bob achlysur pan mae’n angenrheidiol i godi archeb swyddogol.**
- **Dylid sicrhau fod y Gwasanaeth Taliadau yn derbyn enw a sampl llofnod cyfredol o'r swyddog sydd â hawl i ardystio ffurflenni TR257.**
- **Dylid sicrhau bod unrhyw arian i mewn neu allan o arian personol y preswylwyr yn cael ei gofnodi'n gywir ar y cardiau unigol a'u bod yn cael eu cadw'n gyfredol.**
- **Dylid sicrhau bod derbynneb yn cael ei derbyn ar gyfer pob gwariant a wnaed o arian personol y preswylwyr a'u bod yn cael eu cadw ynghyd â'r cerdyn unigol perthnasol.**
- **Dylid sicrhau bod dau berson yn ardystio ac yn llofnodi'r cardiau unigol wrth dderbyn a gwario'r arian.**
- **Dylid sicrhau bod balans rhedegol ar y cardiau unigol yn gywir ac yn cyd-fynd gyda'r arian sydd yn cael ei gadw.**
- **Dylid sicrhau bod cofnodion eitemau personol y preswylwyr yn cael eu dyddio a'u llofnodi gan swyddog perthnasol yn dilyn gwiriad.**
- **Dylid sefydlu trefn o farcio offer i ddynodi ei fod yn eiddo'r Cartref neu’r Cyngor.**
- **Dylid sicrhau bod ceisiadau am ad-daliad arian imprest yn cael eu cwblhau pan mae'r arian yn mynd i lawr i ddwy ran o dair o gyfanswm yr arian imprest, sef £100 yn achos Plas y Don.**
- **Dylid sicrhau bod cofnodion cyflawn o drefniadau archebu meddyginiaeth, gwirio presgripsiwn a gwirio'r feddyginiaeth.**
- **Dylid sicrhau bod dau aelod o staff yn arwyddo eu bod wedi derbyn y feddyginiaeth ar y ffurflenni MAR unigol ym mhob achos a bod unrhyw feddyginiaeth a gaiff ei weinyddu i'r preswylwyr yn cael ei gofnodi'n gyflawn.**
- **Dylid sicrhau bod pwyntiau gweithredu yn dilyn adolygiad annibynnol o drefniadau meddyginiaeth y Cartref yn cael eu gweithredu cyn gynted â phosib er mwyn sicrhau cydymffurfiad.**

Atodiad 12

**PLAS HEDD**

**Oedolion, Iechyd a Llesiant**

**Cefndir**

Mae Cartref Plas Hedd wedi ei leoli ym Mangor ac yn cynnig gofal parhaol a thymor byr.

**Bwriad yr Archwiliad**

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau ariannol Cartref Plas Hedd yn briodol ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor ynghyd â gwirio trefniadau diogelwch a rheolaeth meddyginiaeth.

**Cwmpas yr Archwiliad**

Archwiliwyd prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nghyfriflyfr 2014-15 ynghyd â threfniadau rheolaeth y Cartref. Archwiliwyd trefniadau meddyginiaeth y Cartref i sicrhau eu bod yn unol â rheoliadau, deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol.

**Prif Ddarganfyddiadau**

Yn ystod yr archwiliad darganfuwyd enghreifftiau o ymarfer da mewn rhai o drefniadau'r Cartref. Fodd bynnag, ymddengys bod enghreifftiau o weithredu yn groes i drefniadau gweinyddol y Cyngor ac o ganlyniad i'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol.

Roedd gwariant y cartref yn fwy na'r gyllideb a osodwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2014/15 yn y meysydd canlynol: gweithwyr; eiddo; trafnidiaeth; a gwasanaethau a chyflenwadau oherwydd rhesymau amrywiol megis salwch a gwyliau staff cytundebol yn arwain i orfu cyflogi staff achlysurol.

Detholwyd sampl o bymtheg anfoneb ac nid oedd archeb ynghlwm â 6 ohonynt. Nid oedd cost amcangyfrif wedi ei nodi ar yr archebion arhosol yn y sampl.

Cymerwyd sampl o daflenni 'eitemau personol' o Gynlluniau Gofal 4 o'r preswylwyr a'u gwirio yn erbyn rhestr y Rheolwr o eitemau personol y preswylwyr. Nid oeddynt yn cyd-fynd. Nid oedd y ffurflenni yn y Cynlluniau Gofal wedi eu dyddio na'u llofnodi i gadarnhau eu cynnwys.

Nid oedd cofnodion cyfrif mwynderau'r cartref yn gyflawn. Roedd rhai o'r archebion wedi eu cwblhau ar yr un diwrnod y derbyniwyd yr anfoneb. Oni bai am achosion brys, dylid sicrhau bod archeb yn cael ei pharatoi a'i hawdurdodi'n briodol i sicrhau bod trywydd archwilio digonol yn bodoli. Nid oedd y rhestr eiddo yn hollol gyfredol gan fod rhai eitemau wedi cael eu symud o'r ystafelloedd. Nid oedd y Cartref yn defnyddio trefn o farcio'r offer/dodrefn a brynwyd ychwaith.

Gwelwyd bod côd anghywir wedi ei gofnodi ar gais ad-daliad imprest (TR24). Nid oedd pob un o'r ffurflenni taleb arian mân (TR24b) a ddefnyddir ar gyfer gwariant heb dderbynneb swyddogol wedi eu hawdurdodi.

Nid oedd oriau gwyliau staff wedi eu cyfrifo'n gywir ym mhob achos ac o ganlyniad roedd sawl aelod o staff yn deilwng i fwy o oriau gwyliau nag oeddynt yn eu cael. Amlygwyd dau achos lle nad oedd y gwyliau wedi eu cofnodi'n gywir.

Mae'r cartref yn cofnodi ar daflen, pryd a phwy sydd wedi archebu meddyginiaeth, gwirio'r presgripsiwn a gwirio'r feddyginiaeth wrth ei dderbyn. Nid oedd y daflen wedi ei llofnodi ym mhob achos. Gwiriwyd y cofnod stoc (wythnosol) yn erbyn y taflenni 'non blisterpack medication' - nid oeddynt yn cyd-fynd. Roedd y nifer o feddyginiaeth yn weddill wedi ei gyfrifo'n anghywir. Gwelwyd bod y staff sydd yn cynnal y gwiriad stoc yn ymwybodol o hyn gan eu bod wedi nodi '9 missing' ar 26/07/2015.

Mae allweddi sbâr y cartref yn cael eu cadw yn y swyddfa, ond mae gan bob aelod o staff fynediad i'r swyddfa drwy fysellbad, sydd yn gwanhau'r rheolaeth dros yr allweddi yma.

<u>**Barn yr Archwiliad**</u>

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau Cartref Plas Hedd gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau nad oes gorwariant ar y gyllideb a osodwyd a'i bod yn cael ei rheoli a'i monitro'n reolaidd e.e. ar sail fisol a chymryd camau cynnar petai gorwariant ar benawdau yn dod i'r amlwg.**
- **Dylid sicrhau bod archeb swyddogol yn cael ei chodi lle mae'n briodol cyn dyddiad yr anfoneb, er mwyn sicrhau bod y gwariant wedi ei awdurdodi ac er mwyn cofnodi amcan bris.**
- **Dylid sicrhau bod rhestrau eitemau personol y preswylwyr yn gyfredol yn eu Cynlluniau Gofal a'u bod yn cael eu dyddio a'u llofnodi.**
- **Dylid sicrhau bod cofnodion y cyfrif mwynderau yn gyflawn, taclus ac yn cysoni gyda'r cyfriflyfr ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.**
- **Dylid ystyried trefn o farcio offer i ddynodi ei fod yn berchen i'r Cartref/Cyngor.**
- **Dylid sicrhau bod gwahaniad dyletswyddau yn bodoli yn y drefn o hawlio ad-daliad drwy ddefnydd o ffurflenni cyfarwyddiadau talu (TR27b) ac ni ddylai'r talai fod ynghlwm â'r broses yn ogystal dylid sicrhau bod tystiolaeth ar gyfer y gwariant a wnaed.**
- **Dylid sicrhau bod derbynneb ar gael i gefnogi unrhyw ad-daliad o'r cyfrif imprest, ond mewn amgylchiadau ble nad oes derbynneb, dylai bod manylion cyflawn yn cael eu cwblhau ar y daleb mân arian (TR24b).**
- **Dylid derbyn derbynneb TAW ym mhob achos lle mae'n briodol gan fod methiant i wneud hyn yn cael effaith ar y dreth ar werth y caiff y Cyngor ei adhawlio ac effaith negyddol ar gyllideb y Cartref.**
- **Dylid sicrhau bod oriau gwyliau blynyddol gweithwyr yn cael ei gyfrifo'n gywir drwy ddefnyddio'r canllawiau 'Fformiwla Gwyliau Staff Adran Darparu a Hamdden'.**
- **Dylid sicrhau bod pob achos o absenoldeb gwyliau blynyddol yn cael ei gofnodi ar y cardiau gwyliau a'i gymeradwyo gan swyddog awdurdodedig.**
- **Dylid sicrhau bod cofnodion cyflawn o drefniadau archebu meddyginiaeth, gwirio presgripsiwn a gwirio'r feddyginiaeth.**
- **Dylid sicrhau bod unrhyw feddyginiaeth sydd yn cael ei weinyddu i'r preswylwyr yn cael ei gofnodi'n gyflawn ym mhob achos.**
- **Dylid sicrhau bod rheolaeth gryfach o fynediad at yr allweddi sbâr a gedwir yn y swyddfa gan y gall unrhyw aelod o staff eu cymryd e.e. allweddi i gypyrddau meddyginiaeth.**

Atodiad 13

**HAFOD MAWDDACH**
**Oedolion, Iechyd a Llesiant**

**Cefndir**

Mae Cartref Hafod Mawddach wedi ei leoli yn Abermaw ac yn darparu gofal preswyl i'r defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r cartref wedi ei gofrestru ar gyfer 25 preswylydd.

**Bwriad yr Archwiliad**

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau ariannol Cartref Hafod Mawddach yn briodol ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor, ynghyd â gwirio trefniadau diogelwch a rheolaeth meddyginiaeth.

**Cwmpas yr Archwiliad**

Archwiliwyd prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nghyfriflyfr 2014-15 ynghyd â threfniadau rheolaeth y Cartref. Archwiliwyd trefniadau meddyginiaeth y Cartref i sicrhau eu bod yn unol â rheoliadau, deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol.

**Prif Ddarganfyddiadau**

Y pryderon mwyaf a ddarganfuwyd yn ystod yr archwiliad oedd yr ystyriaethau wrth fonitro'r gyllideb a'r gwendid yn nhrefniadau caffael nwyddau neu wasanaethau.

Wrth edrych ar benawdau'r gyllideb sydd dan reolaeth Rheolwr y Cartref, gwelwyd fod gwerth £31,679.99 o orwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014/15. Mae oddeutu £18,400 ohono yn deillio o'r penawdau cyflogau. Y penawdau eraill sy'n dangos gorwariant sylweddol yw costau teithio (tua £5,600), pryniant dodrefn (tua £11,100), a chostau ffôn (tua £1,300).

O'r penawdau cyflogau, gwelir bod rhan helaeth o'r gorwariant yn deillio o gostau sy'n codi yn sgil cyflogaeth staff achlysurol ar gyfer cyfnodau o wyliau, salwch a hyfforddiant y staff sydd ar gytundeb. Deallwyd bod sawl cyfnod o salwch tymor hir wedi bod yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Cafwyd gwybod bod y costau teithio'n uchel o ganlyniad i'r ffaith fod y 2 aelod o staff wedi eu hail-leoli o gartrefi eraill, ac fe ddeallwyd bod Rheolwr y Cartref yn ymwybodol o sefyllfa'r gorwariant ar y pennawd Teleffon. Gwelwyd mai nifer a hyd y galwadau sy'n achosi'r rhan helaeth o'r costau.

Wrth archwilio trefniadau caffael nwyddau / gwasanaethau, darganfuwyd nad oedd yr archebion yn cael eu codi yn unol â Rheolau Gweithdrefnol Ariannol y Cyngor. Yn ogystal, teimlir y gellir fod wedi dewis cyfeireb fwy addas ar gyfer y gwariant drwy gyfrwng anfoneb ar nifer o achosion. Enghraifft o hyn yw bod llawer o anfonebau'n cael eu talu ar y gyfeireb Dodrefn, ble nad dodrefn a brynwyd mewn gwirionedd.

Gwelwyd o gofnodion y cartref o'u cyfrif mwynderau nad yw'r trafodion a gofnodir yn cysoni â'r cyfriflyfr ariannol. Serch hynny, gwelir fod y cyfrif wedi bod mewn credyd ar hyd 2014/15 ac yn 2015/16 hyd yma.

Gwelwyd nad oes gan y cartref restr eiddo, ac nad ydynt yn marcio'r eiddo i ddangos eu bod yn perthyn i'r Cyngor.

Wrth ystyried ceisiadau TR24 (Cais am Ad-dalu Cyfrif Imprest) gwelir fod cyfanswm sawl cais uwchlaw'r canllaw (cyfanswm ceisiadau fod yn fwy na thua $^{2}/_{3}$ o gyfanswm lefel yr impress).

Gwelwyd fod y ffurflenni perthnasol yn cael eu cadw ar gyfer stocio, dosbarthu a gwaredu meddyginiaeth, a'u bod yn gyson a'i gilydd gan fwyaf. Fodd bynnag, roedd 1 achlysur ble darparwyd 2 boen laddwr (paracetamol) i'r cleient ond na lofnodwyd y daflen gan y swyddog cyfrifol. Wrth wirio'r llyfryn ar gyfer meddyginiaeth reoledig, darganfuwyd bod 2 achlysur ble bod meddyginiaeth wedi ei roi i breswylydd ond heb ei gofnodi yn y llyfryn. Mae trefniadau storio'r feddyginiaeth yn dda – mae sicrwydd eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel, ac fe welir bod trefniadau mwy caeth ar gyfer meddyginiaeth reoledig.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau rheolaethol Cartref Preswyl Hafod Mawddach gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sefydlu trefniadau pendant ar gyfer cadw rheolaeth dros y galwadau ffôn, gan wneud ymholiadau os yw'r costau'n ymddangos yn uchel.**
- **Bod y swyddogion sydd yn cymryd rhan yn y broses o archebu a thalu am nwyddau / wasanaethau yn mynychu'r cwrs Trefniadau Ariannol, sydd yn cael ei ddarparu'n fewnol gan y gwasanaeth Dysgu a Datblygu.**
- **Diweddaru'r ffurflenni sy'n nodi pa swyddogion sydd â hawl i lofnodi gwahanol ddogfennau (megis archebion, anfonebau a ffurflenni TR257), a sicrhau mai dim ond yr aelodau o staff dynodedig sy'n ardystio'r dogfennau. Dylid hefyd anfon y wybodaeth i'r Gwasanaeth Taliadau Credydwyr.**
- **Sicrhau bod gwahaniad dyletswydd rhwng yr unigolyn sy'n awdurdodi'r archeb a'r sawl sy'n ardystio'r anfoneb i'w thalu. Mewn achos ble nad yw'n bosib i'r deiliad cyllid ardystio anfoneb, dylid dirprwyo'r cyfrifoldeb i swyddog awdurdodedig yn unol â'r wybodaeth a ddarperir i'r Gwasanaeth Taliadau Credydwyr.**
- **Dylid sicrhau bod disgrifiad y gyfeireb yn cyd-fynd mor agos â phosib â'r nwyddau / gwasanaethau a brynir, er mwyn sicrhau bod y cyfriflyfr ariannol yn adlewyrchu gwir sefyllfa'r gwariant.**
- **Sicrhau bod pob trafodyn yn cael ei gofnodi ar gofnod y cartref o'r cyfrif mwynderau, a bod hwnnw'n cael ei gymharu yn amserol gyda'r adroddiad misol a dderbynnir gan yr Adran Gyllid i sicrhau bod y ddau'n cysoni.**
- **Dylid eithrio TAW wrth gofnodi unrhyw wariant, megis ar y cofnod o'r cyfrif mwynderau, gan fod TAW yn cael ei hawlio yn ôl gan y Cyngor ac nad yw felly yn gost yn erbyn y gyllideb.**
- **Dylid sicrhau bod gan y cartref restr eiddo, yn unol â gofynion y Rheolau Gweithdrefnol Ariannol (cymalau 15.14-15.17).**
- **Dylid sicrhau bod unrhyw eiddo sydd â gwerth dros £100 iddo wedi ei farcio i ddangos mai eiddo'r Cyngor ydyw.**
- **Sicrhau nad yw cyfanswm unrhyw gais ad-daliad cyfrif imprest (ffurflen TR24) yn fwy na tua $^{2}/_{3}$ o gyfanswm y lefel imprest, er mwyn lleihau'r risg o fod mewn dyled ar y cyfrif.**

Atodiad 14

**CYNNAL A CHADW ADEILADAU A SAFLEOEDD**
**Priffyrdd a Bwrdeistrefol**

**Cefndir**

Mae gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol sawl adeilad/sefydliad gyda Rheolwyr Safle wedi penodi ar eu cyfer. Er mwyn cael gweithredu o'r safleoedd yma, mae'n rhaid cydymffurfio gyda gofynion safonau 'OHSAS 18001' ac 'ISO 14001'.

**Bwriad yr Archwiliad**

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio gyda gofynion y safonau OHSAS 18001 (Iechyd a Diogelwch) ac ISO 14001 (Amgylcheddol) mewn perthynas ag adeiladau/safleoedd Priffyrdd a Bwrdeistrefol, a sicrhau bod y safonau hyn yn cael eu cynnal a'u cadw.

**Cwmpas yr Archwiliad**

Sicrhawyd bod y Cyngor yn cydymffurfio gyda gofynion y safonau a gwiriwyd bod trefniadau ar gyfer archwilio'r adeiladau/safleoedd ar sail reolaidd er mwyn sicrhau cynnal a chadw'r safonau. Archwiliwyd sampl o adeiladau/safleoedd er mwyn cwblhau'r archwiliad.

**Prif Ddarganfyddiadau**

Mae Cyngor Gwynedd yn berchen ar yr achrediadau System Rheoli Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol a System Rheoli Amgylcheddol, 'BS OHSAS 18001' ac 'ISO 14001'.

Mae'r Uned Iechyd a Diogelwch yn ymweld â'r adeiladau/safleoedd ar sail reolaidd i gynnal archwiliadau i sicrhau bod yr adeiladau/safleoedd yn cydymffurfio gyda gofynion yr achrediadau. Mae'r Uned yn dilyn rhaglen archwilio sydd yn berthnasol i'w gofynion. Mae trefniadau wedi eu sefydlu er mwyn hysbysu'r swyddogion perthnasol o'r gwendidau a amlygwyd yn ystod yr archwiliad a threfniadau ar gyfer sicrhau bod gweithred yn digwydd i wella'r gwendidau. Caiff yr ardal lle cafodd y gwendid ei adnabod sylw yn yr archwiliad nesaf er mwyn sicrhau bod y weithred wedi bod yn llwyddiannus.

Yn ogystal â threfniadau'r uned mae archwilwyr allanol BSi yn ymweld â'r Adran ddwywaith y flwyddyn ac yn cynnal archwiliad cyfunol o safonau 'OHSAS 18001' ac 'ISO 14001'. Caiff adroddiad ei baratoi ar ôl pob ymweliad. Mae hyn yn rhan o archwiliad parhaol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r achrediadau.

Mae Rheolwyr Safle wedi eu penodi ar gyfer pob adeilad/safle sydd yn rhan o'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol. Detholwyd sampl o safleoedd i'w harchwilio ar gyfer yr archwiliad a gwiriwyd y ffeiliau lleoliadau ar eu cyfer. Amlygwyd elfennau o ddyblygu yng ngwaith y Rheolwyr Safle mewn perthynas â'r ffeiliau lleoliadau e.e. nodwyd bod angen cwblhau'r ffurflen 'Arolwg Cylchol Cydymffurfiaeth Statudol' â'r 'Rhestr Wirio Archwiliadau Misol Iechyd, Diogelwch ac Amgylcheddol' sydd yn cynnwys profion yn ymwneud â threfniadau tân. Yn ogystal, mae angen cwblhau dogfennau megis y Llyfr Log Tân.

Gwiriwyd archwiliadau misol a gaiff eu cwblhau ym mhob safle:- ‘Rhestr Wirio Archwiliadau Misol Iechyd, Diogelwch ac Amgylcheddol’. Mae'r rhestr wedi ei llunio er mwyn galluogi'r Rheolwyr Safle i adnabod unrhyw broblemau neu wendidau a gwneud newidiadau i'w gwella. Nid oedd un o’r safleoedd wedi bod yn cwblhau’r archwiliadau yn fisol fel yr angen oherwydd diffyg adnoddau staff am sawl mis. Fodd bynnag, ar adeg yr archwiliad roedd pob safle yn y sampl yn defnyddio’r rhestrau.

Nid oedd taflenni 'Arolwg Cylchol Cydymffurfiaeth Statudol’ yn cael eu cwblhau ym mhob safle er bod y Rheolwr Safle yn ymwybodol ohonynt. Nododd un Rheolwr Safle bod rhai o'r profion yn cael eu cwblhau'n wythnosol ond nad oedd yn diweddaru'r daflen i gyd-fynd gyda hyn.

Mae posibilrwydd y gall gwendidau fel y rhai yma arwain at golli achrediad BSi a golygu goblygiadau difrifol i’r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol mewn perthynas â chontractau. Mae’r archwiliadau hyn yn rai statudol ac felly mae unrhyw ddiffyg neu fethiant i gydymffurfio gyda gofynion yn dor-cyfraith.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau Cynnal a Chadw Adeiladau a Safleoedd gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod y 'Rhestr Wirio Archwiliadau Misol Iechyd, Diogelwch ac Amgylcheddol' yn cael eu cwblhau'n fisol fel yr angen gan ei fod yn fodd o adnabod problemau neu wendidau all achosi niwed. Yn ogystal, sicrhau bod cynllun wrth gefn i’w gwblhau gan swyddog cymwys yn ystod absenoldeb y swyddog sydd yn gyfrifol fel arfer.**
- **Dylai’r Rheolwyr Safle sicrhau bod y daflen 'Arolwg Cylchol Cydymffurfiaeth Statudol' yn cael ei chwblhau ai chadw’n gyfredol a’i ddilyn fel yr angen gan ei fod yn gadarnhad bod y profion angenrheidiol yn eu cwblhau.**

Atodiad 15

**PONT BRIWET**
**Rheoleiddio**

**Cefndir**

Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i adeiladu Pont Briwet newydd rhwng Penrhyndeudraeth a Llandecwyn, er mwyn cymryd lle'r hen bont dros yr Afon Dwyryd sydd wedi sefyll ers y 1860au. Roedd y cynllun £20.5 miliwn yma wedi cael ei ariannu gan Swyddfa Gyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), Llywodraeth Cymru, TraCC, Network Rail a Chyngor Gwynedd.

Yn dilyn oediadau cynhennus, mae y Bont Briwet newydd bellach ar agor ac ers Gorffennaf 2015 gall cerbydau, trenau, cerddwyr a beicwyr ei chroesi. Yn anffodus, mae'r prosiect adeiladu heriol a chymhleth yma wedi bod yn destun nifer o broblemau technegol a logistaidd ers y dechrau, sydd wedi arwain at ansicrwydd ac oediadau i'r gwaith. Er bod y bont newydd bellach ar agor, nid yw'r prosiect wedi dod i ben yn ei gyfanrwydd oherwydd bod materion gweinyddol ac ariannol yn parhau i fynd rhagddynt.

**Bwriad yr Archwiliad**

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau cau lawr prosiect Pont Briwet yn briodol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y corff cyllido a threfniadau rheoli prosiect y Cyngor.

**Cwmpas yr Archwiliad**

Roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau a dogfennau cau lawr y prosiect.

**Prif Ddarganfyddiadau**

Hyd at ddiwedd y gwaith adeiladu, y prif risgiau oedd yn wynebu'r Cyngor, fel corff arweiniol y prosiect, oedd oediadau fydd yn golygu na fydd y prosiect wedi ei gwblhau o fewn amserlen y prif gorff cyllido, WEFO, a'r costau fyddai'n gysylltiedig â hyn. Yn ogystal, roedd ansicrwydd dros gostau ychwanegol i'r contractwr a chyrff allanol eraill. Roedd Archwilio Mewnol o'r farn bod camau rhesymol wedi eu cymryd gan y Cyngor i liniaru'r risgiau yma a'u heffaith petaent yn gwireddu.

Ers i'r bont agor, mae'r Cyngor wedi bod yn paratoi hawliad diwethaf y grant WEFO, sydd oddeutu gwerth £2m. Cyn i'r taliad yma gael ei brosesu, mae'n ofynnol bod adroddiad annibynnol "Evaluation of the Pont Briwet Redevelopment Scheme" yn cael ei gyflwyno, sydd ar hyn o bryd ar ffurf drafft. Noder bod yr angen i WEFO dderbyn adroddiad gwerthusiad annibynnol wedi bod yn rhan o delerau'r grant o'r dechrau, ac nid fel ymateb i'r problemau mae'r prosiect wedi ei wynebu. Mae'r adroddiad drafft yn nodi bod rhesymeg glir ar gyfer pob un o'r penderfyniadau allweddol a wnaed fel rhan o'r prosiect, ond yn cydnabod bod gwersi i'w dysgu yn ogystal. O safbwynt y risgiau cysylltiedig â'r prosiect, mae'r adroddiad drafft yn mynegi bod yr holl risgiau wedi eu hamlygu ond ni roddwyd ystyriaeth i'r ffaith y byddai cynifer o'r risgiau hynny yn cael eu gwireddu yn ystod yr un cynllun oherwydd bod y posibilrwydd o hynny fel rheol yn annhebygol, e.e. stormydd cryfaf ers 200 mlynedd.

Yn yr hawliad grant diwethaf, caiff y Cyngor hawlio gwariant cymwys hyd at y cyfanswm dyrannwyd. Fodd bynnag, mae’r prosiect wedi gwario mwy na’r hyn gynlluniwyd yn wreiddiol. Hyd yn hyn, mae rhai costau yn parhau i’w cytuno ac yn ddyledus, felly dim ond amcan brisiau sydd gan y Cyngor ar eu cyfer. Mae'r rhain yn cynnwys costau i gyrff eraill, megis Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau Statudol. I liniaru effaith hyn, mae cytundeb mewn lle rhwng y Cyngor â Network Rail sy’n datgan bod unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu rhannu rhwng y ddau gorff. Bydd y Cyngor yn codi anfoneb arnynt faes o law, sy’n gadael cyfraniad ychwanegol y Cyngor yn £373k yn yr achos gwaethaf.

Mae tîm archwilio Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn y broses o baratoi adroddiad cynhwysfawr ar werth am arian y cynllun. Amlygwyd achosion posib ganddynt ble ni ddilynwyd gweithdrefnau caffael priodol mewn rhai achosion (megis pan mae cwmpas gwaith cyflenwyr yn cynyddu tu hwnt i’r trothwy tendro ar ôl dechrau’r gwaith), felly mae risg y gallai fod rhywfaint o gosbau ariannol yn deillio o hyn, ond yn anffodus ar hyn o bryd nid oes arwydd o beth all y rhain fod. Mae’r Cyngor wedi rhagdybio cosbau o hyd at £126k, ond nodir mai’r achos gwaethaf y buasai hyn.

Bydd dyletswyddau cynnal a chadw'r Bont yn cael eu rhannu rhwng y Cyngor a Network Rail. Er nad yw’r Cyngor yn anghytuno ag egwyddorion sylfaenol y trefniadau arfaethedig, nid yw’r Cyngor wedi derbyn y cytundeb cynigwyd gan Network Rail, gan nad oeddent yn cytuno â chymalau ychwanegol oedd yn rhoi atebolrwydd ar y Cyngor. Mae Cyfreithwyr y Cyngor bellach yn paratoi fersiwn diwygiedig o’r cytundeb a’r gobaith yw y bydd yn dderbyniol i'r ddwy ochr.

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **11 CHWEFROR 2016** |
| TEITL | **CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2015/16** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **DIWEDDARU'R PWYLLGOR AR Y CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2015/16** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **ER GWYBODAETH** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2015/16.

## 2. CRYNODEB O WAITH Y CYNLLUN

2.1 Mae Cynllun Archwilio 2015/16 wedi ei gynnwys yn Atodiad 1, gyda statws y gwaith ar 31 Ionawr 2016 wedi ei nodi, yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Roedd statws y gwaith yn y cynllun gweithredol ar y dyddiad hwnnw fel a ganlyn:

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 2 |
| Crëwyd Papurau Gwaith | 2 |
| Gwaith Maes ar y gweill | 19 |
| Cwblhawyd Gwaith Maes | 2 |
| Disgwyl Adolygiad | 4 |
| Adroddiad Drafft | 3 |
| Adroddiad Terfynol | 42 |
| **Cyfanswm** | **74** |
| | |
| Wedi ei ganslo | 10 |

2.2 Targed perfformiad 2015/16 yw i gael 95% o archwiliadau'r cynllun unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2016. Mae proffil y dangosydd fesul chwarter fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Diwedd chwarter 1 | 8% |
| Diwedd chwarter 2 | 20% |
| Diwedd chwarter 3 | 50% |
| Diwedd chwarter 4 | 95% |

2.3 Gwelir o'r tabl uchod mai gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at 31 Ionawr 2016 oedd **56.76%** - allan o'r **74** archwiliad unigol yng nghynllun 2015/16 roedd **42** wedi eu rhyddhau yn derfynol.

## 3. ADDASIADAU I'R CYNLLUN

3.1 Mae dau archwiliad o'r cynllun gwreiddiol wedi eu canslo - 'Ysgol Arbennig Dwyfor Meirionnydd' ac archwiliad 'Newidiadau i ILF'. Bydd yr archwiliadau hyn yn llithro i gynllun archwilio 2016/17. Roedd 15 diwrnod yr un wedi eu dyrannu ar gyfer y ddau archwiliad yma. Yn sgil cais gan yr Uwch Reolwr Dysgu Cymunedol yn ei rôl fel Cadeirydd y Panel Gweithredol Diogelu Plant i gynnal dau adolygiad yn y maes diogelu, cytunwyd i gynnal adolygiad o 'Ymwybyddiaeth Staff o'r Polisi Diogelu' ac archwiliad yn y maes 'Telerau Contractau - Trefniadau Diogelu'. Mae 12 ac 18 diwrnod yn eu tro wedi eu dyrannu ar gyfer yr archwiliadau hyn.

3.2 Penderfynwyd canslo'r archwiliad 'Grantiau Amrywiol' (20 diwrnod) a dyrannu'r amser ar gyfer grantiau addysg penodol sef:

- Grant i Ysgolion Band 4 a 5
- Grant y Gymraeg mewn Addysg
- Grant Amddifadedd Disgyblion
- Grant Effeithiolrwydd Ysgolion
- Grant Llwybrau Dysgu 14-19

3.3 Ar gyfer yr archwiliad 'Arlwyaeth Ysgolion', penderfynwyd adrodd yn unigol ar y trefniadau yn yr ysgolion a ddetholwyd sef Ysgol y Gader, Ysgol Ardudwy ag Ysgol y Moelwyn ac i'r perwyl hynny mae amser wedi eu dyrannu yn unigol ar eu cyfer. Yn yr un modd, penderfynwyd paratoi adroddiad ar gyfer pob ysgol a ddetholwyd yn y sampl ar gyfer 'Modelu'r Gweithlu'.

3.3 Yn y Cynllun Gwreiddiol, roedd 50 diwrnod wedi ei ddyrannu ar gyfer cynnal gwasanaeth archwilio ar gyfer Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Fodd bynnag, amcangyfrifir y bydd y gwir ddyddiau yn oddeutu 175 ac o ganlyniad nid oes adnoddau digonol ar gael i'r hyn oedd wedi ei gynllunio'n wreiddiol i gyflawni Cynllun Archwilio 2015/16. I adlewyrchu hyn, argymhellir tynnu'r canlynol o'r cynllun a'u llithro i Gynllun Archwilio 2016/17:

- Recriwtio a Phenodi (*Ymgynghoriaeth Gwynedd*) 15 diwrnod
- Taliadau Tai Dewisol (*Cyllid*) 10 diwrnod
- System Treth Cyngor - Connect & Serve *(Cyllid)* 10 diwrnod
- Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd *(Corfforaethol)* 20 diwrnod

3.4 Llwyddwyd i gwblhau rhai archwiliadau yn y Cynllun mewn nifer llai o ddyddiau na'r Cynllun Gwreiddiol, e.e. Ymwybyddiaeth o Bolisi Canu'r Gloch – Gweithwyr Llaw, sydd yn golygu bod yr adnoddau wedi eu defnyddio i gynnal archwiliadau eraill o'r Cynllun.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2015/16, cynnig sylwadau arno, cymeradwyo'r addasiadau, a derbyn yr adroddiad.

# Cynllun Archwilio Mewnol 2015/16

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | | | | | |
| 1-CORFF-02/2016 | Defnydd Ymgynghorwyr | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **19.42** | Adroddiad Terfynol |
| 1-CORFF-09/2016 | Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **1.09** | Wedi ei ganslo |
| 1-CORFF-12/2016 | Ymwybyddiaeth o Bolisi Canu'r Gloch - Gweithwyr Llaw | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **9.31** | Adroddiad Terfynol |
| 1-CORFF-14/2016ccy | Taliadau Cymorth Cyntaf | 7.00 | 0.00 | **7.00** | **7.72** | Adroddiad Terfynol |
| 1-CORFF-19/2016/001 | Trefniadau Diogelu - Ymwybyddiaeth Staff o'r Polisi | 0.00 | 12.00 | **12.00** | **3.26** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CPGV-01/2016cor | Asesiad Corfforaethol | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **7.93** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CPGV-01/2016lle | Rhoddion a Lletygarwch Swyddogion - Gwasanaethau Risg Uchel | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **6.85** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CPGV-02/2016 | Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **6.97** | Adroddiad Drafft |
| 1-CTRT-06/2016/001 | Telerau Contractau - Trefniadau Diogelu | 0.00 | 18.00 | **18.00** | **2.38** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 2-ADN-CGC-DPA/2016 | Llywodraethu Gwybodaeth - Deddf Diogelu Data | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **8.76** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 2-ADN-X-GRANT/2016 | Grantiau Amrywiol | 20.00 | -20.00 | **0.00** | **0.00** | Wedi ei ganslo |
| AO-ARL-05/2016 | Y Fenter Twyll Genedlaethol | 50.00 | 0.00 | **50.00** | **27.64** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AW-TG-12/2016def | Terfynu Gweithwyr oddi ar Systemau TG | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **17.00** | Adroddiad Terfynol |
| AW-TG-12/2016tg | Diogelwch Systemau TG | 30.00 | 0.00 | **30.00** | **3.07** | Wedi ei gynllunio |
| **ADDYSG** | | | | | | |
| **Adnoddau** | | | | | | |
| 4-DAT-X-ADD/2016/16 | Grant Addysg ôl-16 | 0.00 | 2.00 | **2.00** | **1.99** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ADD/2016/4a5 | Grant i Ysgolion Band 4 a 5 | 0.00 | 4.00 | **4.00** | **7.13** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ADD/2016/Cym | Grant y Gymraeg mewn Addysg | 0.00 | 4.00 | **4.00** | **7.04** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ADD/2016/GAD | Grant Amddifadedd Disgyblion | 0.00 | 4.00 | **4.00** | **4.91** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ADD/2016/GEY | Grant Effeithiolrwydd Ysgolion | 0.00 | 4.00 | **4.00** | **3.03** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ADD/2016/LlD | Grant Llwybrau Dysgu 14-19 | 0.00 | 4.00 | **4.00** | **8.17** | Adroddiad Terfynol |
| 4-DAT-X-ADD/2016eig | Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **3.42** | Crewyd Papurau Gwaith |
| 4-DAT-X-ADD/2016par | Grant Partneriaeth Ddysgu Gwynedd ac Ynys Môn | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **12.84** | Adroddiad Terfynol |
| EADDA03/2016 | Cyfathrebu gydag Ysgolion | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **13.53** | Adroddiad Terfynol |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| EADDA06/2016hlon | Ysgol Arbennig Dwyfor Meirionnydd | 15.00 | -15.00 | **0.00** | **0.81** | Wedi ei ganslo |
| **Arlwyo** | | | | | | |
| M-GMG-A04/2016 | Arlwyaeth Ysgolion - Cyffredinol | 20.00 | -18.00 | **2.00** | **1.81** | Gwaith Maes ar y gweill |
| M-GMG-A04/2016/ARDUD | Arlwyaeth Ysgolion Uwchradd- Ysgol Ardudwy | 0.00 | 6.00 | **6.00** | **10.42** | Disgwyl Adolygiad |
| M-GMG-A04/2016/GADER | Arlwyaeth Ysgolion Uwchradd- Ysgol y Gader | 0.00 | 6.00 | **6.00** | **8.47** | Gwaith Maes ar y gweill |
| M-GMG-A04/2016/MOEL | Arlwyaeth Ysgolion Uwchradd- Ysgol y Moelwyn | 0.00 | 6.00 | **6.00** | **13.61** | Adroddiad Drafft |
| **GwE** | | | | | | |
| 4-GWE/2016 | GwE | 20.00 | -20.00 | **0.00** | **0.34** | Wedi ei ganslo |
| **Ysgolion** | | | | | | |
| EADDA18/2016dol | Ysgol Gynradd Dolgellau | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **9.43** | Adroddiad Terfynol |
| EADDA35/2016 | Ysgolion Cyffredinol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **3.41** | Gwaith Maes ar y gweill |
| EADDAY4007/2016 | Ysgol Dyffryn Nantlle | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **12.22** | Adroddiad Terfynol |
| EADDAYC/2016/2033 | Modelu'r Gweithlu - Ysgol Treferthyr | 0.00 | 4.00 | **4.00** | **5.27** | Adroddiad Terfynol |
| EADDAYC/2016/2066 | Modelu'r Gweithlu - Ysgol Llangybi | 0.00 | 4.00 | **4.00** | **3.49** | Gwaith Maes ar y gweill |
| EADDAYC/2016/2069 | Modelu'r Gweithlu - Ysgol Llanllechid | 0.00 | 4.00 | **4.00** | **3.45** | Gwaith Maes ar y gweill |
| EADDAYC/2016/2078 | Modelu'r Gweithlu - Ysgol Baladeulyn | 0.00 | 4.00 | **4.00** | **4.73** | Adroddiad Terfynol |
| EADDAYC/2016/2081 | Modelu'r Gweithlu - Ysgol Gynradd Nebo | 0.00 | 4.00 | **4.00** | **4.73** | Adroddiad Terfynol |
| EADDAYC/2016/2194 | Modelu'r Gweithlu - Ysgol Llanbedr | 0.00 | 4.00 | **4.00** | **4.39** | Cwblhawyd Gwaith Maes |
| EADDAYC/2016a | Ysgolion - Llywodraethu | 20.00 | -7.00 | **13.00** | **12.70** | Adroddiad Terfynol |
| EADDAYC/2016b | Modelu'r Gweithlu | 24.00 | -24.00 | **0.00** | **-0.01** | Wedi ei ganslo |
| **ASIANTAETH CEFNFFYRDD GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU** | | | | | | |
| 3-AMG-ACGC/2016 | Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru | 50.00 | 0.00 | **50.00** | **135.57** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **CEFNOGAETH GORFFORAETHOL** | | | | | | |
| **Democratiaeth** | | | | | | |
| BB-YSG-18/2016 | Hyfforddi a Datblygu Aelodau | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **5.68** | Gwaith Maes ar y gweill |
| BE-POL-14/2016 | Cronfa'r Cadeirydd | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **7.58** | Adroddiad Terfynol |
| **Iechyd a Diogelwch** | | | | | | |
| BC-PER-02/2016 | Ysgolion - Iechyd a Diogelwch Ymweliadau Addysgol | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **18.16** | Cwblhawyd Gwaith Maes |

**CYLLID**

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ariannol** | | | | | | |
| AD-DY-01/2016 | System Dyledwyr - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **1.43** | Crewyd Papurau Gwaith |
| AE-TAL-01/2016kc | System Taliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **5.10** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Cyfrifeg** | | | | | | |
| AN-ACY-02/2016kc | PSG - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **10.38** | Adroddiad Terfynol |
| AN-ACY-02/2016kcx | PSG gan gynnwys Dyledwyr a Taliadau - Cau i Lawr 2014-15 | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **10.62** | Adroddiad Terfynol |
| AN-ACY-13/2016kc | Cysoni Banc - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **6.11** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AN-ACY-13/2016kcx | Cysoni Banc - Cau i Lawr 2014-15 | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **6.34** | Adroddiad Terfynol |
| **Pensiynau a Chyflogau** | | | | | | |
| AL-CYF-01/2016kc | System Gyflogau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **10.54** | Disgwyl Adolygiad |
| AL-CYF-01/2016kcx | System Gyflogau - Cau i Lawr 2014-15 | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **5.05** | Adroddiad Terfynol |
| AP-PEN-01/2016 | Cronfa Bensiwn - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **10.86** | Disgwyl Adolygiad |
| **Refeniw** | | | | | | |
| AB-BD-01/2016dhp | Taliadau Tai Dewisol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **1.12** | Wedi ei ganslo |
| AB-BD-01/2016kc | Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **5.03** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AB-BD-01/2016kcx | Systemau Refeniw - Cau i Lawr 2014-15 | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **10.76** | Adroddiad Terfynol |
| AC-TR-01/2016ipo | System Treth Cyngor - Connect & Serve | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei ganslo |
| AC-TR-01/2016kc | Treth Cyngor - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **3.35** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AC-TR-11/2016 | Trethi Busnes - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **7.03** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Technoleg Gwybodaeth** | | | | | | |
| AW-TG-06/2016 | Rhyngwyneb Siebel - eFinancials | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **5.55** | Adroddiad Terfynol |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | | | | | |
| **Adfywio Cymunedol** | | | | | | |
| EADDZ-01/2016 | Cronfa Degwm | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **0.61** | Wedi ei gynllunio |
| **Hamdden** | | | | | | |
| E-DGO-01/2016 | Canolfannau Hamdden - Casglu Incwm | 20.00 | -20.00 | **0.00** | **0.00** | Wedi ei ganslo |
| EHAMAC6401/2016 | Canolfan Hamdden Arfon | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **13.17** | Adroddiad Terfynol |
| EHAMAC6406/2016 | Canolfan Hamdden Plas Ffrancon | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **10.18** | Adroddiad Terfynol |
| EHAMAC6421/2016 | Canolfan Hamdden Glaslyn | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **9.51** | Adroddiad Terfynol |
| EHAMAC6442/2016 | Canolfan Hamdden Penllyn | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **8.99** | Adroddiad Terfynol |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Prosiectau Sylweddol** | | | | | | |
| DDAT-AH-01/2016 | Academi Hwylio | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **24.05** | Adroddiad Terfynol |
| **OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | | | | | |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| 5-GOF-GCY-GC/2016 | Gofal Cartref | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **21.08** | Adroddiad Terfynol |
| GCC-03/2016 | Llywodraethu trefniadau cydweithio gyda'r 3ydd Sector | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **20.48** | Adroddiad Terfynol |
| GRH-GW04/2016 | Rhaglenni Hyfforddiant Gweithwyr Gofal | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **17.05** | Disgwyl Adolygiad |
| **Gofal Cymunedol** | | | | | | |
| GDAPR-GC04/2016 | Costau Teithio Gweithwyr Gofal Cymunedol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **12.93** | Adroddiad Terfynol |
| **Oedolion** | | | | | | |
| GDAPR-H03/2016 | Dilysrwydd Anfonebau Darparwyr Preifat | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **15.33** | Adroddiad Terfynol |
| GGWAS-C01/2016 | Newidiadau i ILF | 15.00 | -15.00 | **0.00** | **1.76** | Wedi ei ganslo |
| **Preswyl a Dydd** | | | | | | |
| 5-GOF-CART1341/2016 | Plas y Don, Pwllheli | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **12.18** | Adroddiad Terfynol |
| 5-GOF-CART1345/2016 | Plas Hedd, Bangor | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **13.28** | Adroddiad Terfynol |
| 5-GOF-CART1350/2016 | Hafod Mawddach, Abermaw | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **11.54** | Adroddiad Terfynol |
| 5-GOF-CART1356/2016 | Cefn Rodyn, Dolgellau | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **18.27** | Adroddiad Terfynol |
| GDAPR-H01/2016 | Arwystl ar Eiddo Preswylwyr Cartrefi | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **6.06** | Adroddiad Terfynol |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | | | | | |
| **Fflyd** | | | | | | |
| PGW-TR-02/2016 | Cynnal a chadw adeiladau a safleoedd | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **11.01** | Adroddiad Terfynol |
| **Gwaith Priffyrdd** | | | | | | |
| PPR-CYN-03/2016 | Arolygiadau | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **13.82** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **RHEOLEIDDIO** | | | | | | |
| **Trafnidiaeth a Gofal Stryd** | | | | | | |
| 3-PROJ-TRAF/2016briw | Pont Briwet | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **6.56** | Adroddiad Terfynol |
| DDAT-CC-01/2016 | Trafnidiaeth Gyhoeddus | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **21.80** | Adroddiad Terfynol |
| PPE-P-01/2016 | Incwm Meysydd Parcio | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **20.43** | Adroddiad Drafft |
| **YMGYNGHORIAETH GWYNEDD** | | | | | | |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | **Cynllun Addasiedig** | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adeiladau ac Amgylcheddol** | | | | | | |
| PYM01/2016 | Recriwtio a Phenodi | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei ganslo |

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **11 CHWEFROR 2016** |
| TEITL | **CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2016/17** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CYFLWYNO CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT AR GYFER Y FLWYDDYN 1 EBRILL 2016 – 31 MAWRTH 2017** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **CYMERADWYO'R CYNLLUN YN YR ATODIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwynir cynllun drafft o waith Archwilio Mewnol am y flwyddyn ariannol 2016/17 er sylwadaeth a chymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio.

1.2 Mae'r adroddiad yma'n egluro'r ffactorau a ystyriwyd a'r broses a ddefnyddiwyd i gyrraedd at y cynllun a gyflwynir i'r Pwyllgor.

## 2. BWRIAD ARCHWILIO MEWNOL

2.1 Pwrpas y gwasanaeth Archwilio Mewnol ydi:

***Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Archwilio***

2.2 Wrth baratoi'r cynllun gwaith yma, felly, rhoddwyd ystyriaeth i'r hyn sydd angen i'r gwasanaeth ei wneud er mwyn cyflawni'r pwrpas yma.

2.3 Adnoddau cyfyngedig sydd gan yr uned. Ers Ebrill 2015, mae adnoddau'r Uned wedi lleihau o 10 swydd amser llawn i 7 swydd amser llawn. Mae hyn yn ei wneud yn gynyddol bwysig fod y gwasanaeth yn cyfeirio ei adnoddau i'r llefydd cywir.

2.4 Felly, er mwyn sicrhau ein bod yn adolygu'r pethau cywir, yn gyntaf rhoddwyd ystyriaeth i'r Gofrestr Risg Corfforaethol yn ogystal â cofrestrau risg pob adran. Mae hyn er mwyn sicrhau fod rheolaethau allweddol y Cyngor er mwyn ymdrin â'i brif risgiau yn derbyn sylw. Yn hynny o beth, rydym wedi cydweithio'n agos â'r Uned Yswiriant a Risg, sydd fel rhan o'u rôl yn sicrhau fod y cofrestrau hyn yn cael eu diweddaru'n rheolaidd.

2.5 Canlyniad hyn oedd paratoi cynllun drafft cychwynnol, sydd wedi cael ei drafod gyda pob Pennaeth adran (neu dîm rheoli adrannol mewn rhai achosion). Roedd hyn yn gyfle i fireinio'r cynllun ymhellach, cyn paratoi'r Cynllun drafft a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio.

2.6 Yn ystod 2016/17, bydd Archwilio Mewnol hefyd yn rhoi ystyriaeth briodol i'r canlynol:

- Cynorthwyo'r Cyngor i baratoi at yr Asesiad Corfforaethol fydd yn cael ei gynnal gan Swyddfa Archwilio Cymru.
- Sicrhau fod y gwasanaeth yn cyfrannu i adolygiadau Ffordd Gwynedd, fel mae'r angen yn codi, er mwyn sicrhau llwyddiant i newid diwylliant y Cyngor.
- Yn ymwybodol ar bob amser o'r posibilrwydd y gall twyll neu lygredigaeth ddigwydd. Byddwn felly yn manteisio ar y Fenter Twyll Cenedlaethol ac yn cynnal gwaith Atal Twyll Rhagweithiol.
- Yn parhau i roi sylw i grantiau penodol, yn enwedig lle mae amodau'r grant yn disgwyl adolygiad gan Archwilio Mewnol.

Mae hyn wedi ei adlewyrchu yn y cynllun.

**3. ADNODDAU SYDD AR GAEL**

3.1 Rhagwelir y bydd oddeutu 970 diwrnod o adnoddau archwilio ar gael i gwblhau cynllun archwilio 2016/17. Mae hyn ar sail dadansoddi'r adnoddau staffio sydd ar gael, gan gynnwys cyllidebau rhesymol ar gyfer gweithgareddau "di-gynnyrch" megis gwyliau, salwch, rheolaeth a chyfarfodydd ac ar ôl ystyried y darpariaethau canlynol:

- Darpariaeth ar gyfer cyngor ar reolaethau a phriodoldeb 55 diwrnod
- Darpariaeth ar gyfer gwaith ymatebol 65 diwrnod
- Darpariaeth ar gyfer dilyniant 45 diwrnod

3.2 Mae trafodaethau eisoes wedi cael eu cynnal gyda'r penaethiaid adran a rheolwyr perthnasol, ac mae eu hawgrymiadau, yn seiliedig ar yr hyn yn eu tyb hwy sydd yn risg uchel wedi eu hymgorffori yn y cynllun.

**4. ARGYMHELLIAD**

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r Cynllun Archwilio drafft ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017.

# CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2016/17

| Archwiliad | Rheswm | Dyddiau |
|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | |
| Adolygiadau Ffordd Gwynedd | Cynnig cyngor a chefnogaeth i staff a rheolwyr ar faterion risg a rheolaeth fewnol. | 20 |
| Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol | Gwaith i'w gynnal er mwyn sicrhau fod trefniadau cadarn yn eu lle i ymdrin â'r risgiau o dwyll a llygredigaeth. | 20 |
| Asesiad Corfforaethol | Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad Corfforaethol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009) (y Mesur) ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru, sef cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub. Dyrannu dyddiau ar gyfer cynorthwyo i gynnal peilot. | 25 |
| Y Fenter Twyll Genedlaethol | Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yn y fenter hwn sy'n cael ei redeg gan Swyddfa Archwilio Cymru. | 50 |
| Diogelwch Systemau TG | Bwriedir cynnal archwiliadau ar faterion penodol yn y maes Technoleg Gwybodaeth. | 30 |
| Trefniadau Rheoli Ymadawiadau Cynnar | Gwirio bod y Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â'r egwyddorion ar gyfer dilyn arferion da ac yn benodol y trefniadau adrodd i'r Cyngor. | 20 |
| Defnydd o Gardiau Credyd | Dadansoddi'r defnydd cyfredol a wneir o Gardiau Credyd ar draws y Cyngor gan gynnwys dadansoddiad ar y math o wariant. | 20 |
| Cyflenwadau Tanwydd - Cynlluniau Rhanbarthol a Lleol | Gwirio bod trefniadau cadarn mewn lle i liniaru'r risgiau petai prinder tanwydd. | 12 |
| Trefniadau Diogelu - Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd | Mae eleni yn ddiwedd y cylch tair mlynedd i gynnal y gwiriadau, felly byddai'n briodol i sicrhau bod y trefniadau'n gweithredu'n briodol. | 20 |
| System e-proc –Trothwyon Goddefiant | Adolygiad i sicrhau bod y lefelau yn briodol a pherthnasol. | 10 |
| **ADDYSG** | | |
| Grant Addysg Ôl-16 | Disgwyliad yn yr amodau ariannol. | 2 |
| Grant Amddifadedd Disgyblion | Nid yw'r GAD wedi ei ymgorffori yn y Grant Gwella Addysg, felly mae'n ofynnol i gynnal archwiliad ar wahân. | 5 |

| | | |
|---|---|---|
| Grant Gwella Addysg | Mae'r grant yn gyfuniad o sawl grant blaenorol oedd yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru. | 20 |
| Ysgol Arbennig Dwyfor Meirionnydd | Wedi ei dynnu o gynllun 2015/16 oherwydd lleihad mewn adnoddau. | 15 |
| Ysgolion Cyffredinol | Darpariaeth blynyddol ar gyfer rhoi cyngor ac ymgynghori. | 10 |
| Diogelwch Gwybodaeth mewn Ysgolion | Mae risgiau yn ymwneud â diogelu gwybodaeth hân gynnwys cosbau gan y Comisiynydd Gwybodaeth, felly mae'n hanfodol bod trefniadau cadarn wedi eu sefydlu. | 25 |
| Rheolaeth Gyllidebol - Ysgolion Cynradd | Adolygiad o'r trefniadau i sicrhau digonolrwydd gwybodaeth ar gyfer y Corff Llywodraethol. | 25 |
| Ystadegau a Chyfrifiadau - Uwchradd | Mae'r wybodaeth yn yr ystadegau a'r cyfrifiadau yn sail i ddyraniad grant. | 15 |
| Trefniadau Diogelu ac Amddiffyn Plant | Mae'r Trefniadau Diogelu yn flaenoriaeth yn y Cynllun Strategol ac mae'r archwiliad yn gynwysedig ar gais y Pennaeth Addysg. | 25 |
| **CEFNOGAETH GORFFORAETHOL** | | |
| Iechyd a Diogelwch - Coed | Maes o risg – archwiliad i'w chynnal ar y cyd â'r Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch. | 15 |
| **CYLLID** | | |
| System Dyledwyr – Anfonebau gyda statws 'Canslo' | Gwirio bod tystiolaeth i gefnogi canslo anfonebau i sicrhau nad yw'r Cyngor yn colli incwm. | 12 |
| Strwythur Codio | Oherwydd y nifer uchel o achosion o gam-godio gwariant ac incwm, cynnal adolygiad i ystyried y posibilrwydd o liflunio y strwythur codio. | 8 |
| Trothwyon Gwirio | Nid oes archwiliad wedi ei chynnal ers 2005. | 10 |
| Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | Disgwylir y bydd cynnal adolygiad o gymorth i'r archwilwyr allanol wrth gynnal eu hadolygiad o'r Cais Sybsidi Budd-dal. | 12 |
| Budd-daliadau - Taliadau Tai Dewisol | Wedi llithro o Gynllun 2015/16. | 10 |
| System Treth Cyngor - Connect and Serve | Wedi llithro o Gynllun 2015/16. | 10 |
| Treth Cyngor – Gostyngiadau ac Eithriadau (Pobl) | Archwiliad penodol i sicrhau bod tystiolaeth gefnogol i gefnogi'r gostyngiad/eithriad. | 12 |
| Trethi Busnes - Gostyngiadau Elusennau | Nid yw'r maes yma wedi derbyn sylw ers cryn amser. | 8 |

**ECONOMI A CHYMUNED**

| | | |
|---|---|---|
| Cronfa'r Degwm | Bydd angen gwiriad annibynnol os yw incwm y gronfa dros £25,000. | 5 |
| Storiel – Trefniadau Llywodraethu a Rheoli | Mae Storiel yn fenter newydd ac mae angen sicrhau bod trefniadau cadarn ar gyfer cynllunio busnes a llywodraethu'n bodoli – wedi ei gofnodi ar y Gofrestr Risg Adrannol. | 15 |
| Canolfannau Hamdden | Adolygiad o drefniadau gweinyddol ac ariannol canolfannau penodol. | 40 |
| Traethau - Ymweliadau Dirybudd | Ymweliadau dirybudd i gynnal cysoniadau incwm a thocynnau. | 10 |
| Gwerthiant Disel | Archwiliad ar gais y Pennaeth i ymchwilio os oes trefniadau amgen o dderbyn taliadau. | 10 |
| Yr Hafan | Archwiliad ar gais y Pennaeth i gynnal adolygiad o daliadau debyd uniongyrchol. | 10 |
| Cyfrifon Clybiau Ieuenctid | Archwiliad ar gais y Pennaeth – angen adolygiad o'r trefniadau cyfredol. | 15 |

**OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

| | | |
|---|---|---|
| Rheolaeth Gyllidebol – Darparu | Trefniadau monitro cyllidebau. | 15 |
| Diogelu rhag colli rhyddid (Deprivation of Liberty) | Mae hwn yn faes ble mae cryn newidiadau wedi bod yn y rheoliadau. | 15 |
| Trefniadau Parhad Busnes/Gwasanaeth | Adolygiad o'r cynlluniau yn dilyn trafodaeth gyda'r Pennaeth. | 20 |
| Trefn Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol | Adolygiad o'r trefniadau yn dilyn newidiadau i'r drefn gan Lywodraeth Cymru yn 2014 oedd hyn disodli'r hen drefniadau oedd yn bodoli ers 2005. | 15 |
| Gweithwyr Cefnogol | Nid yw'r maes hwn wedi derbyn archwiliad ers cryn amser. | 15 |
| Newidiadau i ILF | Wedi llithro o Gynllun 2015/16 oherwydd diffyg adnoddau. | 15 |
| Taliadau Uniongyrchol | Mabwysiadwyd y Polisi Taliadau Uniongyrchol ym mis Mai 2015. | 15 |
| Tai Cefnogol | Nid yw'r maes hwn wedi derbyn archwiliad ers cryn amser. | 15 |

| | | |
|---|---|---|
| Plas Gwilym, Penygroes | Holl gartrefi'r Cyngor i'w harchwilio o fewn cylch 3 blynedd (2016/17 yw'r drydedd flwyddyn o dair). | 12 |
| Plas Pengwaith, Llanberis | Holl gartrefi'r Cyngor i'w harchwilio o fewn cylch 3 blynedd (2016/17 yw'r drydedd flwyddyn o dair). | 12 |
| Bryn Blodau, Blaenau Ffestiniog | Holl gartrefi'r Cyngor i'w harchwilio o fewn cylch 3 blynedd (2016/17 yw'r drydedd flwyddyn o dair). | 12 |
| Llys Cadfan, Tywyn | Holl gartrefi'r Cyngor i'w harchwilio o fewn cylch 3 blynedd (2016/17 yw'r drydedd flwyddyn o dair). | 12 |
| **PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD** | | |
| Grantiau | Adolygiad o grantiau penodol, e.e. Dechrau'n Deg a Grant Cyfiawnder Ieuenctid. | 24 |
| Trefniadau Diogelu – y Strwythur Gweithredol | Mae Trefniadau Diogelu yn flaenoriaeth yn y Cynllun Strategol. | 20 |
| Mabwysiadu | Adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol. | 20 |
| Prosiect Gyda'n Gilydd | Mae gostyngiad o 11% mewn arian grant ac felly mae risg na all y prosiect gwrdd ag amcanion. | 15 |
| Gweithwyr Cefnogol | Adolygiad o'r trefniadau gweinyddol ar gyfer Gweithwyr Cefnogol – Plant a Phlant ag Anableddau (Derwen) gan gynnwys amserlenni, adennill costau a.y.b. | 15 |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | |
| Ffioedd MOT | Nid yw'r maes yma wedi derbyn sylw Archwilio Mewnol ers peth amser. | 10 |
| Rheolaeth Fflyd | Mae system newydd wedi eu datblygu ar gyfer y fflyd gyda dyfeisiadau llwybro bellach ym mhob cerbyd – angen gwirio cywirdeb y system. | 12 |
| Gwastraff Masnachol | Mae Deddfwriaeth Newydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2016 gyda goblygiadau i ail-gylchu ar fusnesau. | 15 |
| **RHEOLEIDDIO** | | |
| Iechyd Anifeiliaid | Mae'r Grant Iechyd Anifeiliaid wedi gostwng ac mae'n angenrheidiol adnabod beth yw effaith hyn ar y gwasanaeth. | 15 |
| System Flare | Un o'r prif systemau a ddefnyddir gan sawl gwasanaeth o fewn yr Adran Rheoleiddio. | 15 |

| | | |
|---|---|---|
| Cynlluniau Cyfalaf Eiddo'r Cyngor | Adolygu cytundeb o’r broses dendro i’r cyfrif terfynol. | 15 |
| **TIM ARWEINYDDIAETH** | | |
| Gwasanaeth y Crwner | Nid yw’r maes yma wedi derbyn sylw Archwilio Mewnol ers peth amser. | 10 |
| **YGC** | | |
| Goramser | Mae’r archwiliad yn gynwysedig ar gais y Pennaeth oherwydd yr angen i sicrhau bod cysondeb ar draws yr adran. | 15 |
| Cynlluniau Prosiect | Mae’r archwiliad yn gynwysedig ar gais y Pennaeth. | 15 |
| Trefniadau Recriwtio a Phenodi | Wedi llithro o Gynllun 2015/16 oherwydd diffyg adnoddau. | 10 |
| | ***CYFANSWM DYDDIAU*** | ***970*** |

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **11 CHWEFROR 2016** |
| TEITL | **HUNANASESIAD O DREFNIADAU LLYWODRAETHU** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CYFLWYNO'R DIWEDDARIAD O HUNANASESIAD TREFNIADAU LLYWODRAETHU'R CYNGOR I'R PWYLLGOR ARCHWILIO AM GYMERADWYAETH** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR REFENIW A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **YSTYRIED Y CYNNWYS, CYNNWYS SYLWADAU ARNO, A CHYMERADWYO'R ASESIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD – BETH SYDD ANGEN I'R PWYLLGOR ARCHWILIO EI WNEUD?

1.1 Er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau fel "y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu", mae angen i'r Pwyllgor Archwilio:

- **Herio'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg am gynnwys yr hunanasesiad o'r 31 elfen yn fframwaith llywodraethu'r Cyngor (yn Atodiad 1) ac yn arbennig y sgoriau "Impact" ac "Effeithiolrwydd" sydd wedi eu nodi, a'r naratif sy'n egluro'r cyfiawnhad am y sgôr.**

## 2. HUNANASESIAD O EFFEITHIOLRWYDD Y FFRAMWAITH LYWODRAETHU

2.1 Mae'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu wedi adolygu'r hunanasesiad o drefniadau llywodraethu'r Cyngor yn ystod Tachwedd a Rhagfyr 2015. Aelodau'r Grŵp yw y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Uwch Reolwr y Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol, yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cyflawni a Chefnogi Newid a'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg.

2.2 Mae diagram sy'n cynnwys y sgoriau Impact ac Effeithiolrwydd, ac eglurhad naratif fanwl, wedi ei gynnwys yn Atodiad 1. Mae angen i'r Pwyllgor Archwilio fodloni ei hun fod y naratif sy'n cyfiawnhau'r sgoriau yn adlewyrchiad teg o'r Cyngor cyn belled â'i fod yn ymwybodol o hynny, ar sail yr wybodaeth y mae wedi ei dderbyn dros y flwyddyn.

## 3. NEWIDIADAU YN Y SGORIAU ERS YR HUNANASESIAD DIWETHAF YM MAI 2015

**Sgoriau Impact**

3.1 Nid oedd asesiad y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn awgrymu fod angen newid y sgoriau impact, gan fod rhain yn parhau'n gyson ers Mai 2015 (dyddiad yr adolygiad blaenorol). Nodwyd, fodd bynnag:

- Y dylid newid y Pennawd "Gwerthoedd y Cyngor" i "Diwylliant y Cyngor", ond gan gadw'r un sgor impact uchel.
- Y pennawd "Y Gyfundrefn Cyflawni" wedi newid i "Rheoli Perfformiad" i adlewyrchu newidiadau i'r trefniadau mewnol.
- Er eglurdeb, mae'r pennawd "Llythyr Blynyddol yr Archwiliwr Allanol" wedi ei newid i "Ymateb i Adroddiad Blynyddol yr Archwiliwr Allanol" er mwyn bod yn glir mai ymateb y Cyngor i'r adroddiad (nid llythyr) sy'n ffurfio rhan o'n trefniadau llywodraethu mewnol, nid yr adroddiad ei hun.

**Sgoriau Effeithiolrwydd**

3.2 Mae 5 allan o 31 o'r sgoriau effeithiolrwydd wedi newid ers yr hunanasesiad diwethaf ym Mai 2015. Ceir crynodeb o'r newidiadau isod:

| | |
|---|---|
| **Diwylliant y Cyngor** (Gwerthoedd y Cyngor yn flaenorol) | Gwella o 3 i 4 |
| **Ymgysylltu** | Gwella o 4 i 5 |
| **Llywodraethu Gwybodaeth** | Gwella o 4 i 5 |
| **Rheoli Perfformiad** (Y Gyfundrefn 'Cyflawni' yn flaenorol) | Gwella o 4 i 5 |
| **Y Drefn Craffu** | Dirywio o 5 i 3 |

## 4. BLAENORIAETHAU'R CYNGOR

4.1 Canlyniad y newidiadau a ddisgrifir uchod yw'r addasiadau canlynol i flaenoriaethau llywodraethu'r Cyngor:

- Llywodraethu Gwybodaeth wedi symud o'r coch i'r oren
- Rheoli Perfformiad wedi symud o'r coch i'r oren
- Ymgysylltu wedi symud o'r coch i'r oren
- Y Drefn Craffu wedi symud o'r oren i'r coch

4.2 Felly, yr Elfennau Blaenoriaeth Uchel Iawn (coch) ydi:

- Diwylliant y Cyngor
- Y Drefn Craffu


4.3 Yr Elfennau Blaenoriaeth Uchel (oren) ydi:

- Rheoli Perfformiad
- Ymgysylltu
- Llywodraethu Gwybodaeth
- Gwasanaethau Cyhoeddus Integredig
- Gwerthuso, Hyfforddi a Datblygu Staff
- Cynllun Strategol y Cyngor
- Trefniadau Rheoli Risg
- Cydberthynas Aelodau
- Rhaglen Arweinyddiaeth
- Ymateb i Adroddiad Blynyddol yr Archwiliwr Allanol

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio:

- Herio'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg am gynnwys yr hunanasesiad o'r 31 elfen yn fframwaith llywodraethu'r Cyngor (yn Atodiad 1) ac yn arbennig y sgoriau "Impact" ac "Effeithiolrwydd" sydd wedi eu nodi, a'r naratif sy'n egluro'r cyfiawnhad am y sgôr.


Impact: Pa mor gymharol fawr yw'r effaith wrth ychwanegu gwerth cyhoeddus ar gyfer pobl Gwyn
10
9
8
7
6
5
4
3
2
1
Diwylliant y Cyngor
Gwasanaethau Cyhoeddus Integredig
Llywodraethu Gwybodaeth
Ymgysylltu
Cynllun Strategol y Cyngor
Rhaglen Arweinyddiaeth
Strategaeth ariannol
Y Drefn Craffu
Gwerthuso, Hyfforddi a Datblygu Staff
Rheoli Perfformiad
Trefniadau Rheoli Risg
Côd Llywodraethu Lleol
Y Cyfansoddiad
Ymateb i Adroddiad Blynyddol yr Archwiliwr Allanol
Pwyllgor Archwilio
Archwilio Mewnol
Strategaeth Gaffael
Cydraddoldeb
Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd
Protocol Cyswllt Aelod/Swyddog
Côd Ymddygiad Aelodau
Côd Ymddygiad Swyddogion
Polisi Gwrth-dwyll a Gwrthlygredd
Cydberthynas Aelodau
Hyfforddi a Datblygu Aelodau
Y Drefn Gwynion
Côd Ymarfer Canu'r Gloch
Y Pwyllgor Safonau
Cydraddoldeb
Protocolau Swyddogion Statudol
Taflenni Penderfyniad
Datganiad o'r Cyfrifon
1
2
3
4
5
6
7
8
9
10
Effeithiolrwydd: Pa mor dda mae'r trefniadau presennol yn ein cynorthwyo i gyflawni i bobl Gwynedd

Tud. 149

**Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu** Asesiad o Impact ac Effeithiolrwydd gwahanol elfennau'r Fframwaith Llywodraethu, 03/02/2016

Atodiad 1

| Polisïau, strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau sydd, yn ôl y Côd Llywodraethu Lleol, yn cefnogi: | Impact mae'n ei gael ar ein gallu i gyflawni | Rheswm am y sgôr | Pa mor effeithiol yw yn ein helpu i gyflawni? | Rheswm am y sgôr |
|---|---|---|---|---|
| Diwylliant y Cyngor | 10 | Ein gwerthoedd sydd yn diffinio diwylliant y Cyngor, ar gyfer aelodau a staff. Mae'r gwerthoedd wedi eu sefydlu ers peth amser bellach. O gael y diwylliant yn iawn, mae modd i hynny orchafu popeth arall sy'n effeithio ar ein gallu i gyflawni. | 4 | Datblygwyd Gwerthodd y Cyngor trwy waith gyda'r Colegau Rheolwyr, ac mae gwerthoedd y Cyngor wedi eu nodi ar gerbydau, llythyrau ac arwyddion yn swyddfeydd.<br><br>Adroddwyd yn y gorffennol mai prin yw'r dystiolaeth fod ein staff ac aelodau yn byw y gwerthoedd hyn ac mae tystiolaeth – o adolygiadau system – yn dangos nad yw'r Gwerthoedd wedi treiddio go iawn, i olygu gwell gwasanaeth i bobl Gwynedd.<br><br>Fodd bynnag, mae gwaith Ffordd Gwynedd eisoes wedi dechrau mewn 6 lleoliad gwaith o fewn y Cyngor gyda gwaith sylweddol pellach yn mynd ymlaen i geisio treiddio newid mewn diwylliant trwy'r Cyngor.<br><br>Mae yna arwyddion parhaus bellach fod y gwerthoedd sydd ynghlwm â Ffordd Gwynedd yn gwreiddio yn y sgyrsiau sy'n codi o fewn y Cyngor. Mae'r cynnydd cyson yma yn golygu y gallwn gynyddu'r sgôr. |
| Gwasanaethau Cyhoeddus Integredig | 9 | Mae parodrwydd cyrff sector gyhoeddus, gan gynnwys Cyngor Gwynedd, cynghorau unedol eraill cyfagos, yr Heddlu, y Bwrdd Iechyd ac eraill i gydweithredu er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus ar y cyd am gael effaith sylweddol, weladwy i Bobl Gwynedd. | 5 | Mae Uned Partneriaethau wedi ei sefydlu gyda Cyngor Sir Ynys Môn, ac mae'r Cyngor ymysg y cyrff sydd wedi arwyddo Datganiad o Fwriad sydd wedi ei gytuno gyda'r Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ar gyfer gwasanaeth integredig.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod fod gwaith eto i'w wneud i ddatblygu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, ond mae Cynllun wedi ei ddatblygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mae adolygiad gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2015 wedi adrodd fod y Bwrdd yn symud i'r cyfeiriad cywir.<br><br>Yn ogystal â hyn, mae gwaith adolygiad system yn y maes Gofal, sy'n cynnwys cydweithio agos gyda rhanddeiliaid o gyrff allanol, yn dangos arwyddion addawol. Mae yna waith wedi digwydd i adnabod cynlluniau y dylid eu comisiynu ar gyfer y dyfodol ac hefyd i ddechrau paratoi ar gyfer y newid i drefn Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. |
| Cynllun Strategol y Cyngor | 9 | Dyma'r datganiad lefel uchel sy'n amlinellu'r hyn y mae'r Cyngor am anelu i'w gyflawni yn ystod oes y Cyngor presennol. | 6 | Mae'r Cynllun Strategol yn ganllaw pwysig er mwyn cyflawni ar ran Pobl Gwynedd. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi adnabod gwelliannau yn y ffordd y mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod fod natur y Cynllun presennol yn golygu nad ydi hi'n hawdd dehongli ohono beth yw gwaith craidd y Cyngor. Mae'r Cynllun ar ei ffurf bresennol yn gatalog o'r pethau sydd angen eu newid o fewn y Cyngor ac yn ardal Gwynedd, yn hytrach na chynllun busnes ar gyfer yr Awdurdod. Mae yna waith yn mynd ymlaen i weld sut y gellir newid hyn gyda golwg ar newid yn ystod 2016. |

**Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu** Asesiad o Impact ac Effeithiolrwydd gwahanol elfennau'r Fframwaith Llywodraethu, 03/02/2016

Atodiad 1

| **Polisïau, strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau sydd, yn ôl y Côd Llywodraethu Lleol, yn cefnogi:** | **Impact mae'n ei gael ar ein gallu i gyflawni** | **Rheswm am y sgôr** | **Pa mor effeithiol yw yn ein helpu i gyflawni?** | **Rheswm am y sgôr** |
|---|---|---|---|---|
| Strategaeth ariannol | 9 | Y Strategaeth Ariannol sy'n gosod cyd-destun allweddol ar gyfer popeth y mae'r Cyngor am ei wneud.<br>Mae'r rhagolygon ariannol ar gyfer y Cyngor yn awgrymu y bydd rhaid darganfod arbedion sylweddol yn y blynyddoedd nesaf. Y Strategaeth Ariannol sydd yn gosod allan sut y byddwn yn gwireddu hyn, ac felly mae'n ddatganiad hollbwysig, sydd yn amlinellu sut y bydd y Cyngor yn delio â'r sefyllfa. | 8 | Mae'r Strategaeth wedi cael ei ganmol gan Swyddfa Archwilio Cymru, mewn asesiad blaenorol, fel enghraifft o gynllunio cadarn. Gwelwyd eto yn Rhagfyr 2015 fod y rhagolygon a wnaed yn y Strategaeth Ariannol wedi bod yn agos iawn i'w lle.<br><br>Fodd bynnag, mae angen bod yn ymwybodol fod y Strategaeth, er ei fod yn seiliedig ar yr wybodaeth orau sydd ar gael, hefyd yn ddarostyngedig i newidiadau nad ydym yn ymwybodol ohonynt eto. |
| Ymgysylltu | 9 | Mae ymgysylltu'n glir gyda Pobl Gwynedd, er mwyn sefydlu cyfathrebu clir a cael wir ddealltwriaeth o'u anghenion, yn un o elfennau pwysicaf o'r trefniadau llywodraethu. | 5 | Roedd y Strategaeth Ymgysylltu a fabwysiadwyd gan y Cabinet ar 28 Ionawr 2014 yn ganlyniad i hunan asesiad oedd yn amlygu nad oedd trefniadau ymgysylltu'r Cyngor cystal ag y dylent fod ar gyfer yr hinsawdd newydd sydd o'n blaenau.<br><br>Yng nghyd-destun yr hinsawdd yma, mae Her Gwynedd, sef cynllun i drafod y sefyllfa ariannol gyda trigolion Gwynedd, wedi cael blaenoriaeth yn y flwyddyn ddiwethaf, a felly nid yw rhannau eraill y Strategaeth wedi symud ymlaen fel a ddisgwyliwyd.<br><br>Serch hynny, dengys dadansoddiad y Grwp Ymgysylltu fod yr ymarferiad Her Gwynedd wedi bod yn hynod o lwyddianus gan ddenu ymateb gan dros 2,000 o drigolion Gwynedd fydd yn ein galluogi i wneud penderfyniadau rhesymegol o ran blaenoriaethau i'r dyfodol yng ngholeuni barn y bobl yr ydym yn eu gwasanaethu. Tra bod angen sicrhau ein bod yn treiddio'r ymarfer da yma ymysg holl adrannau'r Cyngor mae'r sgôr bellach yn adlewyrchu'r gwelliant a welwyd yn y maes yma o gofio Her gwynedd a'r gwaith a wnaed ym maes Gwastraff yn benodol. |
| Rhaglen Arweinyddiaeth | 9 | Mae Arweinyddiaeth yn gosod y safon y mae pob aelod a gweithiwr yn y Cyngor yn ei ddilyn. Mae ei impact, felly, yn enfawr – gall Arweinyddiaeth dda oresgyn popeth arall, tra gallai Arweinyddiaeth wael ddistrywio'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni. Hwn sy'n gwreiddio diwylliant y Cyngor. | 7 | Mae yna dystiolaeth fod sgiliau Arweinyddiaeth o fewn y Cyngor wedi gwella ar ôl i'r Cyngor fuddsoddi mewn hyfforddiant arweinyddiaeth ar gyfer ei Uwch Swyddogion ac aelodau.<br><br>Fodd bynnag dengys hunan asesiad Ffordd Gwynedd fod yr angen yn parhau i fynd â hyn nawr i'r haen nesaf, gan sicrhau fod holl arweinyddiaeth y Cyngor yn un wrth arddel egwyddorion Ffordd Gwynedd os yw am fod yn llwyddiant. Mae'r gwaith o wneud hynny yn parhau fel rhan o Gynllun Strategol y Cyngor ond nid yw eto wedi cyrraedd pen ei daith. |

| **Polisïau, strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau sydd, yn ôl y Côd Llywodraethu Lleol, yn cefnogi:** | **Impact mae'n ei gael ar ein gallu i gyflawni** | **Rheswm am y sgôr** | **Pa mor effeithiol yw yn ein helpu i gyflawni?** | **Rheswm am y sgôr** |
|---|---|---|---|---|
| Llywodraethu Gwybodaeth | 9 | Mae bod â'r wybodaeth gywir yn hanfodol os yw'r Cyngor am ddarparu'r gwasanaethau cywir i'r pobl gywir yn y ffordd gywir. Mae angen i'r wybodaeth sy'n cael ei gasglu a'i gadw fod yn gyfredol a pherthnasol, nid yn unig er mwyn cydymffurfio â Deddf Diolgelu Data ond hefyd er mwyn sicrhau fod y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu yn rhai sy'n gwneud y pethau iawn. Llywodraethu Gwybodaeth dda yw sylfaen penderfyniadau da. | 5 | Er gwaethaf ymdrechion i wella trefniadau Llywodraethu Gwybodaeth, mae'r Cyngor yn parhau i gadw llawer iawn o wybodaeth, ac mae angen parhau i weithio i sicrhau nad yw'n cynnal mwy o ddata na'r hyn sydd ei angen. Nid oes tystiolaeth fod y Cyngor, ar y cyfan, wedi gwella ei allu i ddefnyddio ei wybodaeth yn briodol er mwyn gwneud penderfyniadau mor effeithiol ag y gallai. Disgwylir y bydd y prosiect i gyflwyno system EDRMS yn cyfrannu at welliant arwyddocaol yn hyn.<br><br>Bu achlysuron yn ystod 2014/15 lle bu methiant ar ran y Cyngor i ddiogelu'r wybodaeth bersonol oedd yn ei feddiant fel a ddisgwylir, a ddangosodd fod ein trefniadau yn llai effeithiol nag a feddyliwyd ar adeg cynnal asesiad 2014. Mae hyn wedi amlygu'r angen i ail hyfforddi staff yn briodol am egwyddorion Diogelu Data, a gwella ymagweddiad yn y maes. Mae'r gwaith yma yn parhau fel rhan o Gynllun Strategol y Cyngor, ac yn dangos cynnydd. |
| Tud. 152<br><br>Trefniadau rheoli risg | 8 | Mae ein trefniadau rheoli risg yn rhan annatod o drefniadau rheoli'r Awdurdod. Mae trefniadau rheoli risg cadarn, cywir a chymesur yn cefnogi arloesi, nid ei lesteirio. | 5 | Mae trefniadau bellach yn eu lle er mwyn i bob adran gynnal cofrestr risg adrannol, ac mae cofrestrau traws-adrannol hefyd yn eu lle, gyda protocolau i'w cefnogi. Er hyn, mae treiddiad rheolaeth risg ymysg unedau busnes unigol yn anghyson, a'r canfyddiad gyffredinol yw fod rheoli risg yn rwystr i wireddu amcanion, yn hytrach na chymorth.<br><br>Hefyd, heblaw am risgiau Iechyd a Diogelwch, mae arbrofion systemau yn dangos nad yw'r holl weithlu yn ymwybodol o'r risgiau all lesteirio cyflawni i bobl Gwynedd ac yn eu perchnogi – mae rheoli risg yn dueddol o gael ei weld fel bod yn fater i Reolwyr.<br><br>Mae gwaith sylweddol wedi ei gyflawni ym maes Cynllunio Argyfwng a Pharhad Gwasanaeth, er mwyn paratoi'r awdurdod yn well ar gyfer digwyddiadau anrhagweladwy.<br><br>Mae trefniadau i ymdrin â risgiau o gwmpas Trefniadau Diogelu Plant ac Oedolion yn parhau i dderbyn sylw, er mwyn cynnal y cynnydd a wnaed ers 2013. |
| Y Côd Llywodraethu Lleol | 8 | Mae'r Côd Llywodraethu Lleol yn gonglfaen trefniadau llywodraethu'r Cyngor. Mae'n cwmpasu nifer fawr o'r elfennau sydd angen bod yn eu lle er mwyn 'r Cyngor allu gwireddu ar ran Pobl Gwynedd. | 7 | Mae'r Côd Lleol, fel canolbwynt i holl elfennau unigol y fframwaith lywodraethu, yn gweithredu'n effeithiol wrth gyflawni ei amcanion. Dyma yw gwraidd ein hasesiad o drefniadau llywodraethu.<br><br>Fodd bynnag, mae lle i'w adolygu'n fwy rheolaidd nag sydd wedi ei wneud yn y gorffennol, ond mae'r Pwyllgor Archwilio a'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn rhoi sylw i hyn.<br><br>Cydnabyddir fod angen i symleiddio a rhesymoli'r côd, gan fod 31 pennawd yn ymddangos yn ormodol. |

| **Polisïau, strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau sydd, yn ôl y Côd Llywodraethu Lleol, yn cefnogi:** | **Impact mae'n ei gael ar ein gallu i gyflawni** | **Rheswm am y sgôr** | **Pa mor effeithiol yw yn ein helpu i gyflawni?** | **Rheswm am y sgôr** |
|---|---|---|---|---|
| Y Cyfansoddiad | 8 | Fel y canllaw swyddogol o'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu, mae'n anorfod fod y Cyfansoddiad, o ddiffiniad, yn cael impact arwyddocaol ar y ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni ar ran Pobl Gwynedd. | 9 | Mae'r Cyfansoddiad wedi derbyn adolygiad cynhwysfawr gan Weithgor o'r Pwyllgor Archwilio yn ystod 2014, gyda'r Cyfansoddiad newydd wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor yng Ngorffennaf 2014.<br><br>Mae'r Cyfansoddiad yn destun adolygiad parhaus, ac mae trefniadau cadarn yn eu lle i'w gadw'n gyfredol. |
| Rheoli Perfformiad | 8 | Dyma gyfundrefn cynllunio busnes a monitro perfformiad y Cyngor. Oherwydd hyn, mae effaith y gyfundrefn ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau ar ran Pobl Gwynedd yn allweddol. | 4 | Adroddwyd yn 2014 fod hunan asesiad o’r gyfundrefn Cyflawni wedi dangos fod yna ddiffygion o hyd yn ein trefniadau gan gynnwys diffyg perchnogaeth go iawn gan unedau o fewn y Cyngor o’r wybodaeth perfformiad, a’i ddefnydd ar gyfer gwella, er fod y drefn wedi gwella ers blynyddoedd blaenorol.<br><br>Dengys arbrofion systemau a’r hunan asesiad a wnaed ar gyfer Ffordd Gwynedd fod angen bod yn gliriach ynglŷn a beth sydd yn fesur perfformiad a beth sydd yn wybodaeth rheoli – nid yw hyn bob amser yn glir gan pawb.<br><br>Adroddwyd yn Natganiad 2014 fod adolygiad ar y gweill er mwyn cysoni’r drefn gyda Ffordd Gwynedd. Mae'r adolygiad yma wedi cael ei gwblhau a gwaith ar waith i ledaenu dull newydd o sefydlu mesurau yn seiliedig ar bwrpas unedau, sydd wedi dechrau gwreiddio drwy bob gwasanaeth. |
| Y Drefn Craffu | 8 | Y drefn craffu yw'r broses sydd yn ei le i sicrhau fod Cabinet y Cyngor yn gweithredu ei bolisïau yn unol â'r haddewidion ac er lles Pobl Gwynedd. Mae felly'n rhan bwysig iawn o'r fframwaith lywodraethu. | 3 | Adroddwyd yn Natganiad 2014 fod Strategaeth Craffu ddiwygiedig wedi ei baratoi ar ffurf drafft ac yn barod i'w gyhoeddi. Cyhoeddwyd y Strategaeth yn ystod 2014/15.<br><br>Yn dilyn y gwelliant a adroddwyd yn 2014, gwelwyd rhai enghreifftiau pellach yn ystod 2014/15 o graffu yn cael effaith positif ar wasanaethau, ond mae yna dipyn o ffordd i fynd eto hyd nes y bydd craffu yn uchafu’r amcan hwnnw.<br><br>Mae'r gwaith sydd wedi ei wneud yn ystod 2014/15 i ddefnyddio Craffu i'n cynorthwyo i osod cyfeiriad yn hytrach nag olsyllu ar ôl penderfyniad wedi gwella'r berthynas waith rhwng y Cabinet a'r swyddogaeth Craffu. Serch hynny, yn ystod y flwyddyn cafwyd adroddiad Archwiliwr Allanol yn nodi yn ei farn ef fod yna broblemau sylweddol gyda'r drefn o hyd, ac mae Adolygiad 360° mewnol y Cyngor hefyd wedi cadarnhau bod nifer o elfennau o fewn y drefn craffu sydd angen sylw pellach er mwyn eu gwella. Yn sgil hynny bydd y Pwyllgor Archwilio yn edrych ar ei gasgliadau ac yn sefydlu cynllun i wella'r sefyllfa. |

| **Polisïau, strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau sydd, yn ôl y Côd Llywodraethu Lleol, yn cefnogi:** | **Impact mae'n ei gael ar ein gallu i gyflawni** | **Rheswm am y sgôr** | **Pa mor effeithiol yw yn ein helpu i gyflawni?** | **Rheswm am y sgôr** |
|---|---|---|---|---|
| Gwerthuso, Hyfforddi a Datblygu Staff | 8 | Er mwyn sicrhau fod y Cyngor mewn sefyllfa i ddarparu gwasanaethau sydd yn rhoi Pobl Gwynedd yn y canol bob amser, rhaid hyfforddi staff yn barhaus, gwerthuso eu perfformiad, a meithrin a datblygu ei dalent. Mae trefniadau hyfforddi staff yn ffordd bwysig o hybu a lledaenu meddylfryd Ffordd Gwynedd ar draws y Cyngor, ac wrth gwrs mae'n hollbwysig fod gan y Cyngor swyddogion sydd â'r sgiliau i gyflawni eu swyddi. | 4 | Mae trafferthion llenwi rhai swyddi uwch o fewn y Cyngor yn awgrymu fod angen gwella ein gallu i greu dilyniant ar gyfer uwch swyddi, o leiaf. Mae hyn wedi ei adnabod fel sail i ddatblygu talent fewnol.<br><br>Mae'r drefn werthuso ffurfiol wedi ei rewi o fewn y Cyngor, tra bod adolygiad o'i gyfraniad a'i gyfraniad i ddiwylliant Ffordd Gwynedd dan ystyriaeth.<br><br>Mae tystiolaeth a gasglwyd mewn cyfweliadau gadael yn dangos fod llawer o swyddogion yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant a'r datblygiad maent yn ei dderbyn gan y Cyngor.<br><br>Yn ychwanegol i hyn, mae Grŵp Uwch Reolwyr wedi ei sefydlu ac am barhau, ac mae trefn 360° i benaethiaid ar y gweill. |
| Protocol cyswllt aelod/swyddog | 7 | Mae'n bwysig fod swyddogion ac aelodau yn gweithredu gyda'u gilydd i gyflawni ar ran Pobl Gwynedd, a hynny mewn modd sy'n dangos parch i'w gilydd. Dogfen yw'r Protocol yma sydd yn ffurfioli hyn ac yn gosod allan yn ysgrifenedig yr hyn a ddylai ddigwydd yn naturiol. | 8 | Mae awyrgylch weithio dda, yn gyffredinol, rhwng swyddogion ac aelodau. Er fod materion yn codi'n achlysurol, mae'r protocol cyswllt aelod a swyddog yn gweithio'n effeithiol, ac nid oes achlysuron wedi codi sydd wedi achosi pryder yn y cyd-destun yma. Cynhaliwyd adolygiad gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystod 2014/15, a rhoddwyd Barn 'A' iddo, gan fod rheolaethau mewnol yn eu lle, a'u bod gweithio'n effeithiol. |
| Côd Ymddygiad Aelodau | 7 | Hwn yw'r Côd sydd yn ymgorffori'r gofynion statudol, deddfwriaeth ar aelodau'r Cyngor i mewn I'r Cyfansoddiad. Er ei fod felly'n ddogfen bwysig, nid yw ei effaith cymaint â'r diwylliant sy'n cael eu ymgorffori yn y Gwerthoedd. | 8 | Mae tystiolaeth fod y Côd Ymddygiad Aelodau wedi gweithredu'n effeithiol ar yr achlysuron prin hynny lle mae ymddygiad aelodau wedi syrthio'n is na'r hyn sy'n ddisgwyliedig. |
| Côd Ymddygiad Swyddogion | 7 | Hwn yw'r Côd sydd yn ymgorffori'r gofynion statudol, deddfwriaeth ar staff y Cyngor i mewn I'r Cyfansoddiad. Er ei fod felly'n ddogfen bwysig, nid yw ei effaith cymaint â'r diwylliant sy'n cael eu ymgorffori yn y Gwerthoedd. | 9 | Mae'r holl staff yn ymwybodol o'r gofynion ymddygiad sydd arnynt, ac mae hyn wedi ei gydlynu â threfniadau disgyblu'r Cyngor, petai ymddygiad yn syrthio yn is na'r safonau disgwyliedig. |
| Pwyllgor Archwilio | 7 | Mae Pwyllgor Archwilio yn cael ei gydnabod fel rhan bwysig o drefniadau llywodraethu'r Cyngor, gan fod yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol. | 6 | Mae Pwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd wedi ei sefydlu ers 1999, ac mae ganddo gylch gorchwyl cytunedig.<br><br>Adroddwyd yn 2014 fod y Pwyllgor Archwilio yn effeithiol iawn yn gwireddu rhai o'r swyddogaethau y mae wedi ei arddel ers tro, ond mai parhau i ddatblygu y mae ei allu i ymdrin â cyfrifoldebau newydd a ddaeth i'w ran gyda Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Nid oes tystiolaeth i awgrymu fod y sefyllfa wedi newid yn sylweddol yn y flwyddyn ddiwethaf. |
| Polisi gwrth-dwyll a gwrthlygredd | 7 | Mabwysiadwyd y Polisi cyfredol yn Ionawr 2013. Mae'n amlinellu'n glir fod gan y Cyngor agwedd o beidio goddef twyll, ac mae'r Cynllun Ymateb I Dwyll yn amlinellu'r hyn y disgwylir I staff ei wneud os ydynt yn amau fod twyll yn digwydd. | 9 | Lle mae achosion o dwyll wedi eu darganfod gan swyddogion, mae camau priodol ac amserol wedi eu cymryd i ddelio â'r mater. |

| **Polisïau, strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau sydd, yn ôl y Côd Llywodraethu Lleol, yn cefnogi:** | **Impact mae'n ei gael ar ein gallu i gyflawni** | **Rheswm am y sgôr** | **Pa mor effeithiol yw yn ein helpu i gyflawni?** | **Rheswm am y sgôr** |
|---|---|---|---|---|
| Ymateb i adroddiad blynyddol yr Archwiliwr Allanol | 7 | Mae'r llythyr blynyddol yn derbyn sylw gan y Cyngor a'r cyfryngau lleol fel asesiad annibynnol o'r ffordd y mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau ar ran Pobl Gwynedd. | 5 | Tra bod yr adroddiad yn cynnwys beirniadaeth adeiladol, bydd y Cyngor yn ceisio gweithredu ar y materion a godir ond weithiau efallai fod yna wrthdaro rhwng ymdeimlad y Cyngor o beth ddylai gael sylw a rhai materion a godir yn y llythyr o ran yr ymdrech sydd ei angen ei roddi iddynt, a'r lefel risg y maent yn ei gynrychioli. Fodd bynnag, nid yw'r enghreifftiau yma yn niferus; nid oedd argymhellion yn yr adroddiad diweddaraf, ac mae'r negeseuon yn gyffredinol bositif.<br><br>Mae'r sgôr effeithiolrwydd o 5 yn adlewyrchu'r oedi cyn derbyn y llythyr, sy'n golygu fod ei allu i gynorthwyo'r Cyngor i wella am fod yn llai effeithiol nag y gallai. |
| Archwilio Mewnol | 7 | Caiff Archwilio Mewnol ei adnabod fel rhan allweddol o drefniadau llywodraethu'r awdurdod, oherwydd ei rôl yn cynnal asesiadau annibynnol o drefniadau llywodraethu, rheolaeth fewnol a rheoli risg y Cyngor. | 6 | Mae effeithiolrwydd y gyfundrefn Archwilio Mewnol dan adolygiad parhaus, ac er fod y gwasanaeth yn cwrdd â'r safonau proffesiynol yn unol â'r disgwyl, mae angen ystyried ymhellach os yw'n adolygu'r pethau cywir, ac os yw'r gweithredu mewn dull sydd yn gydnaws â Ffordd Gwynedd. Mae capasiti'r gwasanaeth wedi lleihau'n arwyddocaol ers 1 Ebrill 2015, i lawr o 10 i 7 swyddog llawn amser. Disgwylir y bydd mabwysiadu egwyddorion Ffordd Gwynedd yn sicrhau fod effeithiolrwydd y gwasanaeth yn cael ei gynnal, ond efallai y bydd peth gostyngiad yn y tymor byr. |
| Strategaeth Gaffael | 7 | Mae'r potensial i gael trefniadau caffael clir a chadarn yn gyfle i weithredu mewn ffordd mwy effeithlon sydd yn rhoi ffocws ar werth am arian | 6 | Mae Strategaeth Gaffael yn ei le ers sawl blwyddyn, ond adroddwyd yn 2014 fod peth tystiolaeth nad yw ei egwyddorion yn treiddio yn gyson trwy'r Cyngor, ac fod lle i newid trefniadau i adlewyrchu ffyrdd newydd o weithio. Mewn ymateb i hyn, mae Prosiect Caffael ar y cyd gyda cynghorau Dinbych a Fflint wedi arwain at Strategaeth newydd fydd yn cael ei gyflwyno i'w graffu yn ystod 2015/16.<br><br>Mae Rheolaeth Categori wedi cael ei gyflwyno yn ystod 2015/16. Mae wedi cael ei gyflwyno yn barod yn y maes Pobl, ond nid oes digon o gynnydd eto i godi'r sgôr. |
| Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd | 7 | Adroddiad ôl-syllol yw hwn, er mwyn adrodd i'r cyhoedd ar lwyddiannau'r Cyngor yn y flwyddyn flaenorol, a'r hyn sydd angen sylw yn y blynyddoedd nesaf. | 7 | Caiff Adroddiad Gwella'r Cyngor ei gyhoeddi'n flynyddol yn unol â'r amserlen ddisgwyliedig. Mae'r Adroddiad yn nodi fod y Cyngor wedi cyflawni'r dyletswyddau adrodd ar welliant sy'n ofynnol o dan y mesur, ond gallai gydymffurfio'n llawnach ag arweiniad gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Er fod hwn yn adroddiad sydd yn cyflawni ei bwrpas, mae'r risg yn parhau ei fod yn adroddiad sydd yn cael ei gynhyrchu er mwyn gwireddu gofynion statudol, yn hytrach nag er mwyn gwireddu'r nod o roi darlun cyflawn i Bobl Gwynedd. Mae gobaith y bydd yr adroddiad yn gwella wrth i ni wella ansawdd ein Cynllun Strategol. |

| **Polisïau, strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau sydd, yn ôl y Côd Llywodraethu Lleol, yn cefnogi:** | **Impact mae'n ei gael ar ein gallu i gyflawni** | **Rheswm am y sgôr** | **Pa mor effeithiol yw yn ein helpu i gyflawni?** | **Rheswm am y sgôr** |
|---|---|---|---|---|
| Y Pwyllgor Safonau | 6 | Y Pwyllgor Safonau sydd yn dal aelodau i gyfrif am eu hymddygiad. Yn hynny o beth, mae'n gymorth wrth sicrhau fod aelodau'r Cyngor yn gweithredu yn anad dim er lles Pobl Gwynedd. | 7 | Mae'r Pwyllgor Safonau yn ei le ac yn gweithredu gyda Cylch Gorchwyl cytunedig. Mae cofnodion y Pwyllgor yn dangos ei fod yn edrych ar achosion penodol wrth ymgymryd â'i waith. Mae'r Pwyllgor ei hun hefyd wedi cynnal hunan asesiad.<br><br>Mae'r Pwyllgor yn cyflawni ei rôl plismona yn dda, ond fod lle i wella ei weithgareddau hyrwyddo safonau da. Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad ar ei rôl o fewn y gyfundrefn llywodraethu yn Hydref 2015. |
| Taflenni penderfyniad | 6 | Dyma yw'r dogfennau swyddogol sydd yn cofnodi fod penderfyniadau gweithredol y Cabinet - neu ei aelodau yn gweithredu'n unigol yn unol â'r Cynllun Dirprwyo - wedi eu gwneud mewn ffordd briodol, gyda mewnbwn y Swyddogion Statudol. | 10 | Mae'r Gwasanaeth Cefnogi'r Cabinet yn sicrhau fod pob taflen wedi ei llenwi'n briodol cyn gellir gweithredu ar benderfyniad, ac mae taflenni'n ymddangos yn amserol ar wefan y Cyngor. Nid oes unrhyw beth sydd angen ei wneud i wella eu heffeithiolrwydd, sy'n cyfiawnhau sgôr o 10. |
| Protocolau swyddogion statudol | 6 | Mae'r Swyddogion Statudol yn chwarae rôl allweddol wrth sicrhau fod y Cyngor yn gweithredu'n briodol ar ran Pobl Gwynedd. Mae protocolau yn eu lle er mwyn diogelu statws y swyddogion hyn yn nhrefniadau mewnol yr awdurdod. | 9 | Mae holl swyddogion statudol yn cadarnhau eu bod yn wedi gallu cyflawni eu dyletswyddau yn unol â'r disgwyl fel a osodwyd allan yn y protocolau. |
| Cydberthynas aelodau | 6 | Mae meithrin perthynas dda rhwng aelodau yn gymorth i sicrhau fod y Cyngor yn gweithio yn effeithiol. Fodd bynnag, oherwydd natur wleidyddol gynhenid y Cyngor, mae enghreifftiau o densiwn ac anghydweld i'w ddisgwyl. | 4 | Mae yna rywfaint o dystiolaeth o densiwn yn bodoli yn y gorffennol rhwng aelodau wrth i'r trefniadau cabinet newydd gael eu gweithredu o fewn y Cyngor a'r newid rolau oedd yn gysylltiedig â hynny, a nid oes tystiolaeth i awgrymu fod y tensiynau hynny wedi diflannu gydag adroddiad diweddar yr Archiliwr Allanol ar Graffu yn atgyfnerthu'r neges honno. Serch hynny mae yna arwyddion fod y tensiynau yn dechrau lleihau.<br><br>Mae tensiynau yn anorfod pa fydd unrhyw newidiadau arwyddocaol, ac i'w disgwyl. |
| Côd Ymarfer Canu'r Gloch | 6 | Mae'r drefn wedi ei rannu i holl swyddogion y Cyngor. Mae ymdrechion i gynnal ymwybyddiaeth yn parhau, ac mae'n cael ei weld fel arf pwysig i dynnu sylw i weithgaredd amhriodol, ond ychydig yw'r defnydd a wneir ac felly cyfyngedig yw ei impact ar drefniadau'r Cyngor. | 7 | Er mai ychydig o ddefnydd sydd wedi ei wneud o'r drefn, mae'r datganiadau hynny sydd wedi eu gwneud wedi bod yn destun ymchwiliadau trylwyr yn unol â'r Côd Ymarfer. Mae'r trefniadau wedi eu hadolygu'n ddiweddar gan SAC, fel rhan o adolygiad cenedlaethol.<br><br>Mae tystiolaeth o'r adolygiad cenedlaethol, ac adolygiad o ymwybyddiaeth gan Archwilio Mewnol, wedi dangos fod y drefn yn effeithiol ar y cyfan, ac yn cyfiawnhau'r sgôr a roddwyd. |

| **Polisïau, strategaethau, gweithdrefnau a phrosesau sydd, yn ôl y Côd Llywodraethu Lleol, yn cefnogi:** | **Impact mae'n ei gael ar ein gallu i gyflawni** | **Rheswm am y sgôr** | **Pa mor effeithiol yw yn ein helpu i gyflawni?** | **Rheswm am y sgôr** |
|---|---|---|---|---|
| Hyfforddi a Datblygu Aelodau | 6 | Mae yna ddisgwyliad ar holl aelodau'r Cyngor gael eu hyfforddi a'u datblygu'n briodol er mwyn ymgymryd â'u dyletswyddau. Er hyn, cymharol gyfyngedig yw'r rhaglen hyfforddi wrth gyflwyno trefniadau sy'n rhoi Pobl Gwynedd yn y canol. | 5 | Mae camau wedi eu gwneud yn y cyfnod ers etholiad 2012 i lunio rhaglen i hyfforddi aelodau, gyda'r Gwasanaethau Democrataidd yn arwain ar y gwaith.<br><br>Cyflwynwyd Cyfweliadau Datblygu Personol yn ystod 2014/15, gydag 20 o aelodau wedi manteisio arnynt. |
| Y Drefn Gwynion | 6 | Mae cymryd cwynion o ddifrif, ac ymchwilio iddynt yn drwyadl, yn ffordd annatod o gyflawni ar gyfer Pobl Gwynedd, ac ymateb pan nad yw'n gwasanaethau wedi cwrdd â'r safonau disgwyledig. | 5 | Adroddwyd yn 2014 mai gwendid pennaf y drefn gwynion oedd diffyg trefniadau er mwyn caniatáu i'r Cyngor ddysgu gwersi o ymchwiliadau i gwynion.<br><br>Yn ystod 2014/15 cyflwynwyd trefn newydd i fynd i'r afael yn benodol â hyn. Cyflwynwyd Trefn Gwynion Gorfforaethol newydd, a penodwyd Swyddog Gwella Gwasanaethau er mwyn sicrhau ein bod yn dysgu gwersi o gwynion, ac yn osgoi ailadrodd camgymeriadau. |
| Cydraddoldeb | 7 | Nod y Cyngor yw rhoi Pobl Gwynedd yng nghanol popeth yr ydym yn ei wneud. Mae trefniadau Cydraddoldeb priodol yn hanfodol er mwyn gwireddu hyn, oherwydd os nad oes Cydraddoldeb, o ddiffiniad ni fydd triniaeth gyson o'r holl drigolion.<br><br>Fodd bynnag, mewn cyfnod o doriadau, gall yr ardrawiad ar rai carfannau fod yn fwy, a rhaid cynnal ymwybyddiaeth o hyn. | 6 | Er fod Cynllun Cydraddoldeb yn ei le, mae tystiolaeth nad ydi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb wedi ei wreiddio fel y dylai, a'r meddylfryd wedi treiddio. Er enghraifft, nid oes tystiolaeth i ddangos fod y Cyngor yn meddwl am gynnal Asesiad Impact Cydraddoldeb fel mater o drefn wrth wneud ei benderfyniadau.<br><br>Bydd hyn yn derbyn sylw yn ein Cynllun Cydraddoldeb newydd. |
| Datganiad o'r cyfrifon | 5 | Y datganiad o'r cyfrifon yw'r ddogfen sydd yn hysbysu Pobl Gwynedd o'r defnydd y mae'r Cyngor wedi ei wneud o'I adnoddau. Fodd bynnag, gan ei fod y ddogfen mor anhylaw, er mwyn cwrdd â safonau cyfrifo rhyngwladol a chenedlaethol, cyfyngedig iawn yw'r impact mae'r ddogfen yma yn ei gael ar Bobl Gwynedd. | 9 | Mae'r Cyngor yn cyhoeddi ei ddatganiadau ariannol ar amser, ac wedi eu harchwilio'n ddiamod, pob blwyddyn. Pan mae'r archwiliwr allanol yn adnabod mater o bryder wrth adolygu'r cyfrifon mae'r Cyngor yn ymdrin â'r mater yn syth. Mae Llythyr Blynyddol yr Archwiliwr Penodedig yn tystiolaethu hyn.<br><br>Derbyniodd Swyddfa Archwilio Cymru her i'r Cyfrifon yn 2015 gan un aelod o'r cyhoedd. Barn yr Archwilydd Penodedig oedd nad oedd unrhyw sail i ymchwilio ymhellach i'r cyfrifon. |